Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llawlyfr Proffil y Cyfnod Sylfaen



# Llawlyfr Proffil y Cyfnod Sylfaen

**Cynulleidfa**
Penaethiaid, athrawon, ymarferwyr, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ac ymarferwyr a phwyllgorau rheoli yn y sector nas cynhelir yng Nghymru; awdurdodau addysg lleol; undebau athrawon a chyrff cynrychioli ysgolion; awdurdodau esgobaethol yr eglwys, cyrff cenedlaethol yng Nghymru sydd â diddordeb mewn addysg a rhieni/gofalwyr.

**Trosolwg**
Mae'r ddogfen hon yn egluro gofynion Llywodraeth Cymru fel rhan o Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar (EYDAF) ac yn cefnogi asesu dysgu a datblygiad plant drwy gydol eu hamser yn y Cyfnod Sylfaen.

**Camau i'w cymryd**
Rhaid i benaethiaid, athrawon, ymarferwyr, cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ac ymarferwyr a phwyllgorau rheoli yn y sector nas cynhelir yng Nghymru sicrhau bod y gofynion statudol yn y ddogfen hon yn cael eu gweithredu yn ôl y dyddiad a nodir.

**Rhagor o wybodaeth**
Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Tîm y Blynyddoedd Cynnar
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: earlyyears@cymru.gsi.gov.uk

**Copiau ychwanegol**
Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Dysgu Cymru yn
dysgu.llyw.cymru

**Dogfennau cysylltiedig**
*Cwricwlwm Cymru: Fframwaith y Cyfnod Sylfaen* (2015)
gov.wales/topics/educationandskills/earlyyearshome/foundation-phase/?skip=1&lang=cy

OGL © Hawlfraint y Goron Medi 2017 WG32346 ISBN digidol 978 1 78859 478 3

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **3** |
| **Proffil y Cyfnod Sylfaen** | **4** |
| **Defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen** | **5** |
| **Arsylwi ac asesu** | **10** |
| **Datblygiad plant** | **13** |
| **Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol** | **15** |
| Rhyngweithio cymdeithasol (Proffil Cryno) | 16 |
| Rheoli ymddygiad (Proffil Cryno) | 18 |
| Ymateb i eraill (Proffil Cryno) | 20 |
| Annibyniaeth mewn gofal personol (Proffil Cryno) | 22 |
| Cymryd rhan | 24 |
| Mynegiant emosiynol | 26 |
| Rhestr o dermau ar gyfer Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol | 28 |
| **Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu** | **29** |
| Llafaredd – Gwrando a deall (Proffil Cryno) | 30 |
| Llafaredd – Ymwybyddiaeth ffonolegol (Proffil Cryno) | 32 |
| Llafaredd – Iaith fynegiannol (Proffil Cryno) | 34 |
| Darllen – Deall deunyddiau darllen (Proffil Cryno) | 36 |
| Llafaredd – Cydweithredu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau | 38 |
| Llafaredd – Lleferydd | 40 |
| Llafaredd – Siarad a chwarae | 42 |
| Darllen – Deall | 44 |
| Darllen – Darllen geiriau | 46 |
| Ysgrifennu – Llawysgrifen | 48 |
| Ysgrifennu – Sillafu | 50 |
| Ysgrifennu – Atalnodi a gramadeg | 52 |
| Ysgrifennu – Genre | 54 |
| Ysgrifennu – Cynllunio, gwerthuso a golygu | 56 |
| Rhestr o dermau ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu | 57 |

| | |
|---|---|
| **Datblygiad Mathemategol** | **59** |
| Adrodd a dilyniannu rhifau (Proffil Cryno) | 60 |
| Cyfrif (Proffil Cryno) | 61 |
| Siâp (Proffil Cryno) | 62 |
| Patrwm (Proffil Cryno) | 64 |
| Darllen ac ysgrifennu rhifau | 65 |
| Priodweddau rhifau | 66 |
| Ffracsiynau | 67 |
| Mesurau ac unedau | 68 |
| Amser | 69 |
| Cofnodi a chynrychioli data | 70 |
| Trefnu a grwpio data | 72 |
| Adio a thynnu | 74 |
| Rheoli arian | 76 |
| Lluosi a rhannu | 77 |
| Tymheredd | 78 |
| Onglau a safle | 79 |
| Amcangyfrif a gwirio | 80 |
| Rhestr o dermau ar gyfer Datblygiad Mathemategol | 81 |
| **Datblygiad Corfforol** | **83** |
| Dal offeryn gwneud marciau (Proffil Cryno) | 84 |
| Cydsymudiad (Proffil Cryno) | 86 |
| Darlunio (Proffil Cryno) | 88 |
| Llawdrin manwl (Proffil Cryno) | 92 |
| Defnyddio siswrn ac offer | 94 |
| Gwella perfformiad | 96 |
| Rhestr o dermau ar gyfer Datblygiad Corfforol | 97 |
| **Atodiad A: Fframiau sgil o'r Proffil Cryno** | **98** |
| **Atodiad B: Defnyddio'r Ffurflen Gofnodi** | **99** |
| **Atodiad C: Ffurflen y Proffil Cryno** | **100** |
| **Atodiad Ch: Ffurflen y Proffil Llawn** | **102** |

# Cyflwyniad

## Pwrpas Proffil y Cyfnod Sylfaen

Fel rhan allweddol o Fframwaith Asesu a Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar, mae Proffil y Cyfnod Sylfaen (y proffil) yn cefnogi asesiad o ddysgu a datblygiad plant trwy eu holl amser yn y Cyfnod Sylfaen. Ei brif bwrpas yw darparu asesiad sylfaenol cyson yn genedlaethol sy'n cyd-fynd â deilliannau diwedd cyfnod. Trwy ddefnyddio arsylwadau ac asesiadau ffurfiannol, mae'r proffil yn cefnogi ymarferwyr i ddarparu cwricwlwm cyfannol sy'n briodol o ran datblygiad ar gyfer pob plentyn.

Mae'r proffil wedi cael ei gynllunio i gyd-fynd ag asesiadau a gynhelir gan weithwyr iechyd proffesiynol. Mae hefyd yn helpu i bennu yn gynnar unrhyw oedi posibl o ran datblygiad, anghenion addysgol arbennig (AAA) neu anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Bydd hyn yn sicrhau bod cefnogaeth yn cael ei rhoi i'r plant sydd ei hangen. Bydd yr asesiadau a gasglwyd fel rhan o'r proffil yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol i'r holl randdeiliaid ym maes dysgu a datblygiad plant, gan gefnogi'r broses drosglwyddo rhwng lleoliadau ac ysgolion.

## Strwythur y proffil

Mae'r proffil yn cynnwys dwy set o fframiau sgil mewn pedwar Maes Dysgu: Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol; Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu; Datblygiad Mathemategol a Datblygiad Corfforol. Mae'r Proffil Cryno yn cynnwys nifer dethol o fframiau sgil i'w defnyddio yn yr asesiad sylfaenol a Phroffil Llawn i gefnogi asesiadau athrawon ar ddiwedd y cyfnod. Yn ogystal â chefnogi asesiadau cyfunol ar adegau statudol, mae'r proffil yn darparu dull cyson yn genedlaethol o sgorio deilliannau'r Cyfnod Sylfaen a rhoi data cynnydd.

Mae'r deilliannau a nodir yn y proffil yn adlewyrchu'r sgiliau a fynegwyd yn y Meysydd Dysgu (er mwyn ymgorffori'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh)) ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol (statudol o fis Medi 2015) a'r rhai ar gyfer Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol a Datblygiad Corfforol (a gyhoeddwyd yn 2008). Mae'n cwmpasu datblygiad plant chwe mis i wyth deg pedwar mis ac yn cyflwyno tri cham cynnar newydd o fewn y deilliannau: Deilliant Efydd Cyfnod Sylfaen, Deilliant Arian Cyfnod Sylfaen a Deilliant Aur Cyfnod Sylfaen.

Mae cynnwys rhieni/gofalwyr yn addysg eu plant yn rhan hanfodol o addysgeg y Cyfnod Sylfaen. Mae'r proffil hefyd yn cefnogi cyfathrebu â rhieni a gofalwyr ac adrodd iddynt, gan dynnu ynghyd gwybodaeth eang i roi barn gyfunol ar gam cyfredol eu plentyn o ran eu dysgu a'u datblygiad, gan gynnwys adrodd ar y sgiliau a fynegwyd yn y FfLlRh.

# Proffil y Cyfnod Sylfaen

Mae Proffil y Cyfnod Sylfaen yn cynnwys yr elfennau canlynol.

- **Llawlyfr** – Mae'r llawlyfr yn darparu arweiniad ar ddefnyddio'r proffil ac yn nodi manylion yn ymwneud â phob un o'r fframiau sgil a gynhwysir ynddo, ynghyd â gwybodaeth ategol.
- **Ffurflen Gofnodi** – Mae'r Ffurflen Gofnodi yn elfen ddewisol o Broffil y Cyfnod Sylfaen a gynlluniwyd i'w defnyddio gan y rhai nad ydynt yn defnyddio systemau seiliedig ar feddalwedd. Mae'r Ffurflenni Cofnodi yn darparu strwythur cyson i roi tystiolaeth yn ymwneud â datblygiad plant.
- **Ffurflen y Proffil Cryno** – Mae Ffurflen y Proffil Cryno yn rhoi cipolwg o ddatblygiad plentyn ar Broffil y Cyfnod Sylfaen adeg yr asesiad sylfaenol neu cyn hynny. Mae'n galluogi ymarferwyr i gynhyrchu deilliant unigol ar gyfer pob Maes Dysgu yn y proffil.
- **Ffurflen y Proffil Llawn** – Mae Ffurflen y Proffil Llawn yn rhoi cipolwg o ddatblygiad plentyn gan ddefnyddio pob un o'r fframiau sgil o fewn Proffil y Cyfnod Sylfaen. Mae'n cynnig modd i ymarferwyr gynhyrchu un deilliant ar gyfer pob Maes Dysgu ar raddfa gyson, sy'n cyd-fynd â'r Proffil Cryno.

Mae'r proffil yn rhoi asesiad cyfunol o sgiliau plant gan ddefnyddio arsylwadau ac asesiadau ffurfiannol ac mae'n cynhyrchu deilliant unigol mewn pedwar Maes Dysgu. Dylid arsylwi ar sgiliau ar draws ystod eang o brofiadau a phob un o Feysydd Dysgu'r Cyfnod Sylfaen. Y Meysydd Dysgu yn y proffil yw:

- Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu – wedi'i ddiwygio i gynnwys cydran llythrennedd y FfLlRh
- Datblygiad Mathemategol – wedi'i ddiwygio i gynnwys cydran rhifedd y FfLlRh
- Datblygiad Corfforol.

# Defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen

Gall ymuno â lleoliad neu ysgol newydd fod yn amser heriol i blant, ac mae'n bwysig bod eu hanghenion yn cael eu hystyried wrth gynnal asesiadau. Gan fod y proffil yn helpu i olrhain cynnydd plant trwy gydol eu hamser yn y Cyfnod Sylfaen, gellir ei ddefnyddio mewn lleoliad neu ysgol feithrin ar gyfer plant tair oed, o'r llinell sylfaen yn y dosbarth Derbyn i ddiwedd y cyfnod ym Mlwyddyn 2. Mae'r asesiadau sy'n deillio o'r Proffil Cryno a'r Proffil Llawn yn debyg gan eu bod yn seiliedig ar yr un raddfa deilliannau.

## Dechrau yn y Cyfnod Sylfaen

Mae fframiau sgil y proffil yn cefnogi asesu sgiliau plant ifanc iawn a'r rhai sydd yn y camau cynnar iawn o'u datblygiad. Mae hyn yn gwneud y proffil yn addas i'w ddefnyddio mewn lleoliadau a meithrinfeydd ac yn ffurfio rhan bwysig o gofnodi cyflawniadau plant o adeg eu derbyn i'r Cyfnod Sylfaen. Yn ogystal â darparu manylion pwysig adeg trosglwyddo, bydd defnyddio'r proffil yn helpu ymarferwyr i gynllunio'r camau nesaf yn y dysgu a hefyd gwahaniaethu o fewn lleoliadau neu ysgolion bach.

## Y Proffil Cryno – Asesiad sylfaenol

Trwy sylweddoli bod angen amser ar blant ifanc i setlo mewn dosbarth newydd, dylid arsylwi ar blant yn ystod eu chwe wythnos gyntaf yn y dosbarth Derbyn – heb dynnu sylw at hyn – er mwyn llunio asesiad sylfaenol. I gwblhau asesiad llinell sylfaen mae'n ofynnol i ymarferwyr asesu plant trwy ddefnyddio'r Proffil Cryno, sy'n cynnwys nifer dethol o fframiau sgil o bob un o'r pedwar Maes Dysgu. Cafodd y fframiau sgil eu dewis ar gyfer yr asesiad sylfaenol ar y sail eu bod yn hawdd arsylwi arnynt o fewn yr hanner tymor cyntaf ac am eu bod yn darparu gwybodaeth allweddol am blant i gefnogi eu datblygiad cynnar.

Mae llinell sylfaenol arsylwadol, yn hytrach na chyfres o brofion, yn darparu ystod eang o dystiolaeth i'w defnyddio fel sail i lunio barn asesu. Mae'r ymagwedd hon yn ategu addysgeg y Cyfnod Sylfaen gan helpu ymarferwyr i ddeall dulliau dysgu a diddordebau plant yn ogystal â'u camau datblygiadol. Bydd y deilliannau a gynhyrchir trwy'r Proffil Cryno yn cael eu hadrodd i Lywodraeth Cymru. Mae manylion am y trefniadau adrodd statudol i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru a Dysgu Cymru.

## Y Proffil Llawn

Mae'r fersiwn hon o'r proffil yn cynnwys pob un o'r fframiau sgil ar gyfer pob Maes Dysgu yn y proffil. Gellir defnyddio'r Proffil Llawn i gynhyrchu deilliannau diwedd cyfnod ar ddiwedd Blwyddyn 2. Gall y proffil gael eu defnyddio hefyd os oes angen darlun llawnach o gynnydd.

## Fframiau sgil Proffil y Cyfnod Sylfaen

Mae'r fframiau sgil ym Mhroffil y Cyfnod Sylfaen i'w gweld isod. Mae'r fframiau sgil mewn **teip trwm** wedi'u cynnwys yn **y Proffil Cryno**.

| Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol | | | |
|---|---|---|---|
| **Rhyngweithio cymdeithasol** | **Rheoli ymddygiad** | **Ymateb i eraill** | **Annibyniaeth mewn gofal personol** |
| Cymryd rhan | Mynegiant emosiynol | | |
| **Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu** | | | |
| **Llafaredd – Gwrando a deall** | **Llafaredd – Ymwybyddiaeth ffonolegol** | **Llafaredd – Iaith fynegiannol** | **Darllen – Deall deunyddiau darllen** |
| Llafaredd – Cydweithredu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau | Llafaredd – Lleferydd | Llafaredd – Siarad a chwarae | Darllen – Deall |
| Darllen – Darllen geiriau | Ysgrifennu – Llawysgrifen | Ysgrifennu – Sillafu | Ysgrifennu – Atalnodi a gramadeg |
| Ysgrifennu – Genre | Ysgrifennu – Cynllunio, gwerthuso a golygu | | |
| **Datblygiad Mathemategol** | | | |
| **Adrodd a dilyniannu rhifau** | **Cyfrif** | **Siâp** | **Patrwm** |
| Darllen ac ysgrifennu rhifau | Priodweddau rhifau | Ffracsiynau | Mesurau ac unedau |
| Amser | Cofnodi a chynrychioli data | Trefnu a grwpio data | Adio a thynnu |
| Rheoli arian | Lluosi a rhannu | Tymheredd | Onglau a safle |
| Amcangyfrif a gwirio | | | |
| **Datblygiad Corfforol** | | | |
| **Dal offeryn gwneud marciau** | **Cydsymudiad** | **Darlunio** | **Llawdrin manwl** |
| Defnyddio siswrn ac offer | Gwella perfformiad | | |

## Cefnogi’r asesiad sylfaenol

Mae’r diagram canlynol yn cefnogi’r broses o gwblhau’r asesiad sylfaenol.

**Adolygu**

Gwybodaeth sydd eisoes ar gael gan ymarferwyr a lleoliadau blaenorol, gweithwyr proffesiynol iechyd, rhieni/gofalwyr, a’r plentyn.

↓

**Cynllunio**

Darpariaeth barhaus, wedi’i chyfoethogi, â ffocws ar gyfer y chwe wythnos gyntaf yn y dosbarth Derbyn gan ystyried y fframiau sgil i’w hasesu. Cynllunio cyfleoedd priodol i arsylwi ar y sgiliau a nodwyd yn y Proffil Cryno.

↓

**Gwneud**

(O fewn y chwe wythnos gyntaf i’r plentyn ddechrau yn y dosbarth Derbyn.)

Gweithredu’r cynllun trwy ddarpariaeth barhaus, wedi’i chyfoethogi, â ffocws. Cofnodi arsylwadau.

↓

**Asesu**

(O fewn y chwe wythnos gyntaf i’r plentyn ddechrau yn y dosbarth Derbyn.)

Asesiad cyfunol yn erbyn y fframiau sgil ar draws y pedwar Maes Dysgu – yn seiliedig ar arsylwadau a gofnodwyd gan ymarferwyr yn ystod y chwe wythnos (yn unig).

Defnyddio meddalwedd neu Ffurflen y Proffil Cryno i sgorio’r deilliannau ar gyfer pob un o’r fframiau sgil.

↓

**Adolygu**

Deilliannau ar gyfer pob un o’r fframiau sgil a’r Maes Dysgu.

Ystyried yr angen am arsylwi ac asesu pellach. Ceisio cyngor gan y cydlynydd anghenion addysgol arbennig (AAA) neu’r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol (ADY) os oes angen.

Gofynnwch ’Beth mae hyn yn ei olygu ar gyfer ymarfer a darpariaeth?’

↓

**Cynllunio**

Darpariaeth barhaus, wedi’i chyfoethogi, â ffocws sy’n briodol o ran datblygiad ac sy’n seiliedig ar ddiddordebau, llinellau ymholi a dulliau dysgu’r plant.

## Casglu tystiolaeth a chofnodi barn

Dylai fod tystiolaeth o sgiliau plant o fewn y proffil ar draws pob Maes Dysgu. Nid oes unrhyw ddull penodol o gofnodi arsylwadau ar gyfer Proffil y Cyfnod Sylfaen. Mae canllawiau pellach ar arsylwi yn y Cyfnod Sylfaen i'w cael ar wefan Dysgu Cymru. Mae'r Ffurflen Gofnodi ddewisol wedi'i darparu i wneud nodiadau sy'n cefnogi barnau'r ymarferwyr ar gyfer pob un o'r fframiau sgil.

Gall lleoliadau ac ysgolion ddefnyddio eu dulliau cofnodi eu hunain i gasglu tystiolaeth a rhaid i ymarferwyr fod yn hyderus ac yn sicr yn eu hasesiad o alluoedd annibynnol plant, gan ddefnyddio amrywiaeth o dystiolaeth i gefnogi eu barn. Dylai pob ymarferydd gyfrannu at y broses arsylwi ac asesu.

Nid yw Estyn yn cynghori ar union faint o dystiolaeth asesu sy'n ofynnol oherwydd lleoliadau ac ysgolion unigol fydd yn penderfynu faint o dystiolaeth y bydd ei hangen arnynt i gefnogi'r proffil a chymedroli eu barn am blentyn unigol. Bydd arolygwyr yn canolbwyntio ar gywirdeb yr asesiadau a sut mae'r lleoliad neu'r ysgol yn defnyddio'r wybodaeth asesu i gefnogi dysgwyr. Yn ystod arolygiad, bydd arolygwyr yn samplo proffiliau unigol, yn craffu ar waith plant ac yn siarad â phlant i wirio cywirdeb asesiadau'r lleoliad neu'r ysgol.

Am gymorth pellach ar arsylwi ac asesu, gan gynnwys y gofynion statudol yn y Cyfnod Sylfaen, ewch i wefan Dysgu Cymru.

## Y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh)

Cyflwynwyd y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh) fel gofyniad cwricwlwm statudol i ysgolion ym Medi 2013 ac i leoliadau ym Medi 2015. Mae'r FfLlRh wedi cael ei gyflwyno i godi safonau yn sgiliau llythrennedd a rhifedd plant trwy helpu pob ymarferydd i:

- ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd trwy Feysydd Dysgu'r Cyfnod Sylfaen
- integreiddio llythrennedd a rhifedd mewn darpariaeth barhaus, wedi'i chyfoethogi, â ffocws, dan do ac yn yr awyr agored
- llywio trafodaethau â rhieni/gofalwyr, plant a rhanddeiliaid eraill
- helpu plant gyda'u gweithgareddau hunanasesu eu hunain
- monitro asesu perfformiad plant unigol ac adrodd arno
- adnabod plant a allai elwa o gael cymorth ychwanegol.

Mae asesu ffurfiannol sy'n defnyddio'r FfLlRh yn ofyniad statudol ac mae'n rhaid i ymarferwyr asesu llythrennedd a rhifedd plant ar draws y cwricwlwm gan ddefnyddio'r FfLlRh. Bydd rhaid i ysgolion lunio, yn flynyddol, adroddiad naratif i rieni/gofalwyr ar gynnydd eu plentyn a'r camau nesaf yn ei addysg yn seiliedig ar yr asesiad hwn. Mae'r proffil yn cyd-fynd â'r broses hon oherwydd y bydd yr asesiadau ffurfiannol o'r FfLlRh a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn yn darparu sail i'r proffil.

## Adrodd i rieni/gofalwyr

Dylai gwybodaeth a gasglwyd ar y proffil gael ei defnyddio i roi gwybodaeth i rieni/gofalwyr am gynnydd eu plentyn. Gall hyn fod drwy adroddiadau blynyddol statudol, nosweithiau rhieni/gofalwyr a thrafodaethau mwy anffurfiol am eu cynnydd. Nid oes unrhyw ofyniad i gynhyrchu adroddiad ysgrifenedig i rieni/gofalwyr yn seiliedig ar yr asesiad sylfaenol.

## Iaith yr asesiad

Dylai plant gael eu hasesu ar y proffil yn iaith y lleoliad/neu'r ysgol. Felly, dylai asesiadau ar gyfer Meysydd Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu a Datblygiad Mathemategol gael eu gwneud yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn unig.

Ar gyfer Meysydd Dysgu Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol a Datblygiad Corfforol dylai'r asesiadau ganolbwyntio ar sgiliau.

Enghraifft o hynny fyddai dau blentyn, sy'n chwarae gyda'i gilydd a phlant eraill yn aml mewn ffordd gydweithredol, yn chwarae gyda'i gilydd gan ddefnyddio iaith eu cartrefi (ieithoedd heblaw am Gymraeg neu Saesneg). Byddai'r plant hyn yn cyrraedd Deilliant 3 Cyfnod Sylfaen ar y ffrâm sgil rhyngweithio cymdeithasol, fodd bynnag byddent yn cael marc is ar gyfer fframiau sgil Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu ar sail y dystiolaeth hon. Dylai'r plant hynny gael cyfleoedd ychwanegol i ddangos eu sgiliau ar gyfer asesiadau deilliannau Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn iaith y lleoliad neu'r ysgol.

## Anghenion addysgol arbennig (AAA) ac anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Mae Proffil y Cyfnod Sylfaen wedi'i llunio i fod y addas ar gyfer pob plentyn ac i helpu i bennu anghenion addysgol arbennig (AAA) neu anghenion dysgu ychwanegol (ADY) posibl.

Fodd bynnag, ni bwriedir i'r proffil gynnwys digon o fanylion i asesu AAA neu ADY blant yn llawn. Er bod y camau isaf yn cefnogi camau cynnar iawn yn natblygiad y plant maent yn adlewyrchu normau datblygiadol a sgiliau datblygol.

Yna, efallai y bydd angen i ymarferwyr ddefnyddio asesiadau priodol sydd wedi'u llunio at ddibenion penodol a gofyn am gyngor gan gydlynwyr ADY neu weithwyr proffesiynol priodol gyda chymorth a chaniatâd y rhieni a gofalwyr. Gall *Ar Drywydd Dysgu* (2006) Llywodraeth Cymru gael eu ddefnyddio hefyd i ddarparu gwybodaeth fwy manwl i blant ag ADY gan fod y disgrifadau o sgiliau yn cefnogi asesu a chynllunio cwricwlwm priodol.

Mae Proffil y Cyfnod Sylfaen wedi cael ei ddatblygu fel offeryn asesu cyfunol sy'n defnyddio arsylwadau ac asesiadau ffurfiannol i adeiladu darlun cyfannol o ddatblygiad a galluoedd plant mewn meysydd allweddol.

# Arsylwi ac asesu

## Arsylwi

Mae arsylwi yn chwarae rôl allweddol wrth addysgu'r Cyfnod Sylfaen o ddydd i ddydd. Prif ddibenion arsylwi ar blant yw penderfynu ble ydynt ar y continwwm dysgu er mwyn eu symud ymlaen, a nodi unrhyw anawsterau neu allu eithriadol. Trwy arsylwi a gwrando gall ymarferwyr gasglu tystiolaeth cyn ac ar ôl addysgu sgiliau i'r plant dros gyfnod o amser. Mae hyn yn golygu bod ymarferwyr yn gallu asesu faint o gynnydd mae'r plant wedi'i wneud ac a oes angen cyfleoedd pellach arnynt i atgyfnerthu eu dysgu.

Er mwyn creu darlun o'r plentyn cyfan mae'n bwysig bod arsylwadau'n cael eu gwneud dan do ac yn yr awyr agored. Cydnabyddir y gall plant ymddwyn a dysgu'n wahanol yn yr awyr agored ac mae'n bwysig adlewyrchu hyn yn y broses asesu. Ni fydd angen paratoi gweithgareddau penodol i arsylwi ar sgiliau arbennig fel arfer: mae'r fframiau sgil wedi cael eu llunio i ddangos yr hyn y gellir arsylwi arno fel rheol trwy gymysgedd o weithgareddau dan arweiniad plant ac ymarferwyr ac ar draws darpariaeth barhaus, wedi'i chyfoethogi, â ffocws, dan do ac yn yr awyr agored.

Lle bo'n briodol, dylid annog plant i ddeall a gwerthfawrogi datblygiad eu sgiliau a rhoi cyfle iddynt rannu eu meddyliau a'u teimladau o ran sut y maent yn gwneud cynnydd mewn gwahanol dasgau a gweithgareddau. Dylai darpariaeth gael eu cynllunio'n ofalus er mwyn sicrhau bod gweithgareddau ac adnoddau priodol o ran datblygiad y tu ôl i ddysgu a datblygiad plant.

Mae trafod gweithgareddau cyn, yn ystod ac wedyn yn helpu plant i fyfyrio ar eu galluoedd eu hunain. Mae cynnwys rhieni/gofalwyr hefyd yn allweddol er mwyn cael darlun cyflawn o alluoedd plant, yn ogystal â'u hannog i gymryd diddordeb yn addysg eu plentyn.

## Asesu ffurfiannol

Er mwyn i asesu ffurfiannol fod yn ddefnyddiol, mae'n rhaid canolbwyntio ar gyflawniadau plant yn erbyn sgiliau yn y cwricwlwm a sut y gallant symud ymlaen yn hytrach na chanolbwyntio ar ddeilliannau'r Cyfnod Sylfaen. Bydd hyn yn golygu cael ymarferwyr a phlant i ddeall sgiliau penodol ac, os yw'n briodol, y meini prawf llwyddiant cysylltiedig. Drwy wneud hyn gall ymarferwyr sefydlu ble mae pob plentyn arni ar hyn o bryd, gosod camau o fewn sgiliau a chynllunio ar eu cyfer, a chydnabod pryd bydd plant wedi cyflawni'r camau hynny. Dylai cynllunio helpu plant unigol sy'n gweithio tuag at feistroli sgiliau penodol ar draws cwricwlwm eang a chytbwys yn hytrach na chysylltu'n uniongyrchol â deilliannau oherwydd bod y rhain yn disgrifio cyrhaeddiad dros amrywiaeth o dasgau ar y llinell sylfaen ac ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.

Bydd arferion asesu arsylwadol a ffurfiannol da yn helpu plant i ddilyn eu diddordebau ac ehangu ar yr hyn y maent yn rhagori ynddo, yn ogystal ag annog datblygiad pellach mewn meysydd lle mae'r plentyn yn cael problemau neu'n dangos diffyg diddordeb. Dylai asesu cyfunol ystyried y camau y mae'r plentyn wedi'u gwneud yn annibynnol i ennill y sgil, yr hyder, a'r ystod o gyd-destunau y mae'r plentyn wedi perfformio'r sgil ynddynt.

## Asesu cyfunol

Mae deilliannau'r Cyfnod Sylfaen wedi cael eu datblygu ar gyfer asesiad cyfunol o ddysgu ar y llinell sylfaen ac ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Maent yn disgrifio'r math a'r ystod o gyrhaeddiad y dylai plant sy'n gweithio ar ddeilliant arbennig ei arddangos fel arfer. Maent yn cyfeirio at ddatblygiad plant dros amser a dros ystod o dystiolaeth o gyflawniad (arsylwadau ac asesiadau ffurfiannol), gan ddarparu barn gyfannol o nifer o sgiliau gwahanol.

Nid yw deilliannau'r Cyfnod Sylfaen wedi'u bwriadu i'w defnyddio o ddydd i ddydd. Ni ddylai un arsylwad neu ddarn o waith gan y plentyn gael ei lefelu yn erbyn deilliant oherwydd ni all ddarparu'r wybodaeth sydd ei hangen i lunio barn, er y gall ddangos nodweddion o ddeilliant arbennig.

## Defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen ar gyfer asesu cyfunol

I wneud asesiad cyfunol o bob Maes Dysgu yn y proffil, dylai ymarferwyr ddefnyddio amrywiaeth o dystiolaeth i bennu a chofnodi lefel ddatblygiadol plant mewn cyfres o fframiau sgil. Yna gall ymarferwyr gynhyrchu sgôr deilliant ar gyfer pob Maes Dysgu yn y proffil gan ddefnyddio dull sgorio cyson. Drwy asesu ar sail sgiliau unigol, gall ymarferwyr gynhyrchu sgôr gyfunol o ddeilliant cyfredol pob plentyn a hefyd defnyddio'r wybodaeth i lywio ei ddysgu yn y dyfodol. Mae pob cam ar un o'r fframiau sgil yn cael ei ategu gan ddatganiad i helpu ymarferwyr i lunio eu barnau a sicrhau cysondeb rhyngddynt. Lle bo'n bosibl, ceir un datganiad ar gyfer pob deilliant ym mhob ffrâm sgil. Lle mae mwy nag un datganiad ar gyfer deilliant, dylid rhoi ystyriaeth i bob datganiad cyn y gellir dyfarnu'r deilliant ar gyfer y ffrâm honno.

## Sgorio'r asesiad

Y deilliannau dilys y gellir eu cyflawni ar gyfer pob Maes Dysgu yw:

Deilliant Efydd Cyfnod Sylfaen; Deilliant Arian Cyfnod Sylfaen; Deilliant Aur Cyfnod Sylfaen; Deilliant 1 Cyfnod Sylfaen; Deilliant 2 Cyfnod Sylfaen; Deilliant 3 Cyfnod Sylfaen; Deilliant 4 Cyfnod Sylfaen; Deilliant 5 Cyfnod Sylfaen; Deiliant 6 Cyfnod Sylfaen; Uwch na Deilliant 6 Cyfnod Sylfaen; Wedi'i ddatgymhwyso a Heb ei asesu.

Mae'r deilliannau Efydd i Uwch na Deilliant 6 Cyfnod Sylfaen yn seiliedig ar system sgorio rifiadol sy'n caniatáu i ymarferwyr fesur cynnydd. Mae'r system sgorio wedi'i chynllunio i roi deilliant i blentyn ar gyfer Maes Dysgu pan fydd tua 75 y cant o'r fframiau sgil o fewn y Maes Dysgu wedi'u cyflawni ar y deilliant hwnnw. Er enghraifft, i gael Deilliant 1 Cyfnod Sylfaen yn yr asesiad sylfaenol, dylai tair o'r pedair fframiau sgil fod yn Ddeilliant 1 Cyfnod Sylfaen neu'n uwch.

Mae manylion ynghylch y dull sgorio i'w gweld yn Atodiad C.

## Datgymhwyso

Dim ond mewn amgylchiadau prin iawn fydd angen datgymhwyso plentyn. Ar gyfer yr

asesiad sylfaenol, dylid nodi y gall plentyn gael ei ddatgymhwyso ar gyfer un o'r fframiau sgil a dal i gael deilliant ar gyfer y Maes Dysgu. Fodd bynnag, os yw mwy nag un o'r fframiau sgil wedi'i datgymhwyso, mae deilliant y Maes Dysgu yn cael ei ddatgymhwyso.

I gael rhagor o wybodaeth am yr achosion pan ddylid datgymhwyso'r fframiau sgil, gweler y canllawiau yn y ddogfen *Trefniadau asesu statudol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a diwedd Cyfnodau Allweddol 2 a 3.*

## Alinio deilliannau ag oedrannau disgwyliedig

Gall y deilliannau gael eu halinio, yn fras, â'r oedran disgwyliedig o ran datblygiad. Gweler y rhestr isod.

| Oedran disgwyliedig o ran datblygiad | Deilliant cysylltiedig |
|---|---|
| 6–12 mis | Deilliant Efydd Cyfnod Sylfaen |
| 12–18 mis | Deilliant Arian Cyfnod Sylfaen |
| 18–24 mis | Deilliant Aur Cyfnod Sylfaen |
| 24–36 mis | Deilliant 1 Cyfnod Sylfaen |
| 36–48 mis | Deilliant 2 Cyfnod Sylfaen |
| 48–60 mis | Deilliant 3 Cyfnod Sylfaen |
| 60–72 mis | Deilliant 4 Cyfnod Sylfaen |
| 72–84 mis | Deilliant 5 Cyfnod Sylfaen |
| 84–96 mis | Deilliant 6 Cyfnod Sylfaen |

# Datblygiad plant

Yn ystod y Cyfnod Sylfaen mae plant yn dysgu sgiliau newydd yn gyflym iawn. Maent yn dysgu'r sgiliau hyn ar gyfraddau gwahanol ac mae'n rhaid iddynt gael eu hannog i ddatblygu ar eu cyflymdra unigryw, unigol eu hunain. Maent yn datblygu synnwyr o'u hunaniaeth eu hunain ac mae gallu cynyddol ganddynt i ddysgu iaith ac ymholi. Mae angen ystod eang o brofiadau ar blant i gynnal eu datblygiad emosiynol, cymdeithasol, deallusol a chorfforol, a'u helpu i wneud synnwyr o'r byd o'u cwmpas a'r byd ehangach.

Trwy gydol y Cyfnod Sylfaen mae'n rhaid i blant gael gallu cynyddol i gynllunio a monitro eu gweithgareddau eu hunain er mwyn datblygu ymwybyddiaeth o'u hunain fel dysgwyr. Maent yn dysgu yn eu ffordd eu hunain a bydd cyfeiriad, cyflymdra dysgu a thwf yn amrywio o ddydd i ddydd. Wrth i blant ddysgu sgiliau newydd dylent gael cyfleoedd i'w hymarfer mewn gwahanol sefyllfaoedd, ar draws pob Maes Dysgu, a myfyrio ar eu dysgu, ei werthuso a'i atgyfnerthu.

Mae pob agwedd ar ddatblygiad plant yn bwysig a dylid eu hystyried yn agweddau cydgysylltiedig. Rhaid ystyried y rhwystrau rhag chwarae, dysgu a chyfranogiad hefyd a achosir gan anawsterau corfforol, synhwyraidd, emosiynol, cyfathrebu neu ddysgu.

Mae'n rhaid cydnabod ac ystyried y profiadau y mae plant wedi eu cael cyn eu bod yn dechrau yn y lleoliad/ysgol. Mae'n hollbwysig bod plant yn cael mynediad i amrywiaeth o gyfryngau er mwyn gallu mynegi eu hunain yn greadigol a hefyd cael digon o gyfleoedd i ddefnyddio eu dychymyg mewn ffordd bwrpasol. Wrth i blant ddysgu sgiliau newydd dylent gael cyfleoedd i gynllunio eu dysgu, ymarfer eu sgiliau a'u trosglwyddo i wahanol sefyllfaoedd ar draws pob Maes Dysgu, yn ogystal â chyfleoedd i fyfyrio ar eu dysgu a'i werthuso. Ym mhob agwedd ar eu datblygiad, dylai gwaith y plant eu hunain gael ei barchu, ei werthfawrogi a'i annog am fod yn wreiddiol ac yn onest.

I gefnogi'r camau datblygiadol gwahanol trwy gydol y Cyfnod Sylfaen mae angen y canlynol ar blant:

- ymarferwyr ac amgylcheddau (dan do ac yn yr awyr agored) sy'n cefnogi ac yn herio eu diddordebau ehangach a'u hannog i ddatblygu eu sgiliau meddwl a datrys problemau
- ymarferwyr sy'n arsylwi, yn asesu ac yn cynllunio'n ofalus ar gyfer eu hanghenion datblygiadol a'u diddordebau, a'u cynnwys yn y broses hon
- ymarferwyr sy'n annog ac yn estyn sgyrsiau
- ymarferwyr sy'n darparu modelau rôl da
- cyfleoedd sy'n cefnogi eu datblygiad fel dysgwyr annibynnol a hyderus
- cyfleoedd i gydweithredu

- cyfleoedd i ddilyn gweithgareddau arferol ac anghyfarwydd, yn ogystal â chyfleoedd i gyflawni tasgau newydd a heriol
- cyfleoedd i fod yn greadigol trwy ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau sy'n rhoi cyfle iddynt fynegi eu hunain a defnyddio eu dychymyg mewn ffordd bwrpasol
- cyfleoedd i gydweithredu â'u cyfoedion a chael amser i gynnal eu diddordeb yn y gweithgareddau
- cyfleoedd i gadw i fyny â'u cydsymudiad a datblygiad corfforol a'i herio.

# Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

Mae Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol wrth wraidd y Cyfnod Sylfaen ac mae sgiliau plant yn cael eu datblygu ar draws pob Maes Dysgu trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu drwy brofiadau dan do ac yn yr awyr agored.

O fewn y Maes Dysgu hwn bydd plant yn dysgu amdanynt hwy eu hunain, a'u perthynas â phlant eraill ac oedolion o fewn a thu hwnt i'r teulu. Maent yn cael eu hannog i ddatblygu eu hunan-barch, eu credoau personol a'u gwerthoedd moesol a dealltwriaeth bod gan bobl eraill anghenion, galluoedd, credoau a safbwyntiau gwahanol. Mae'r Cyfnod Sylfaen yn cefnogi hunaniaeth ddiwylliannol pob plentyn, er mwyn dathlu diwylliannau gwahanol a helpu plant i adnabod a meithrin ymwybyddiaeth gadarnhaol o'u diwylliant hwy a diwylliannau eraill. Dylai agweddau cadarnhaol gael eu datblygu er mwyn galluogi plant i ddod yn fwyfwy ymwybodol o'r amrywiaeth o ddiwylliannau ac ieithoedd sy'n bodoli mewn Cymru amlddiwylliannol a gwerthfawrogi eu gwerth. Dylent ddod yn fwyfwy ymwybodol o'r traddodiadau a'r dathliadau sy'n elfennau pwysig o'r diwylliannau a geir yng Nghymru.

Mae cymhelliant ac ymrwymiad i ddysgu yn cael ei annog wrth i blant ddechrau deall eu potensial a'u galluoedd eu hunain. Caiff plant eu cynorthwyo i dyfu'n feddylwyr ac yn ddysgwyr hyderus, cymwys ac annibynnol. Maent yn datblygu ymwybyddiaeth o'u hamgylchedd ac yn dysgu am amrywiaeth y bobl sy'n byw ac yn gweithio yno. Caiff agweddau cadarnhaol ar gyfer mwynhau eu hamgylchedd a gofalu amdano eu meithrin. Wrth i'w hunaniaeth ddatblygu, mae plant yn dechrau mynegi eu teimladau a dangos empathi ag eraill. Maent yn profi heriau sy'n ymestyn eu dysgu.

Gellir cael manylion pellach am y sgiliau a'r ystod ar gyfer y Maes Dysgu hwn yn y ddogfen *Cwricwlwm Cymru: Fframwaith y Cyfnod Sylfaen* (2015).

## Fframiau sgil ar gyfer Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

| Fframiau sgil yn y Proffil Cryno | Fframiau sgil ychwanegol yn y Proffil Llawn |
|---|---|
| Rhyngweithio cymdeithasol | Cymryd rhan |
| Rheoli ymddygiad | Mynegiant emosiynol |
| Ymateb i eraill | |
| Annibyniaeth mewn lles corfforol | |

# Rhyngweithio cymdeithasol (Proffil Cryno)

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu datblygiad rhyngweithio cymdeithasol sy'n rhan bwysig o allu plant i feithrin perthynas gadarnhaol â chyfoedion ac oedolion. Gall rhyw a disgwyliadau a phrofiadau diwylliannol gael effaith ar ddatblygiad yn y maes hwn. Yn gyffredinol, wrth i blant ddatblygu, byddant yn treulio llai o amser yn chwarae ar eu pennau eu hunain a mwy o amser yn chwarae'n gydweithredol.

Dylai arsylwadau ddigwydd ar draws ystod eang o senarios mewn darpariaeth barhaus, wedi'i chyfoethogi, â ffocws yn ogystal ag adegau cymdeithasol o'r dydd, fel dechrau a diwedd y dydd, amser byrbrydau neu amser cinio. Bydd ymarferwyr efallai'n sylwi hefyd y gall plant ddangos agweddau ar ddeilliannau gwahanol ar yr un pryd: bydd eu gallu i ddefnyddio sgiliau cymdeithasol yn dibynnu ar ffactorau fel blinder, i ba raddau y maent yn dymuno cael y gwrthrychau y maent yn chwarae gyda nhw a pha mor gyfarwydd ydynt â phartneriaid chwarae.

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Efydd** | cymryd rhan mewn chwarae cymdeithasol wedi'i gychwyn gan blant hŷn a/neu oedolion. | ymateb trwy chwerthin neu wenu i chwarae syml megis chwarae pi-po neu wneud wynebau doniol. |
| **Arian** | cymryd rhan mewn ystod o chwarae un i un wedi'i gychwyn gan blant hŷn a/neu oedolion. | dangos mwynhad neu ymuno â chwarae un i un megis rholio pêl yn ôl ac ymlaen. |
| **Aur** | chwarae wrth ymyl plant neu oedolion gan ddangos diddordeb weithiau yn yr hyn y maent yn ei wneud. | chwarae wrth ymyl plant eraill yn aml drwy gyd-ddigwyddiad yn hytrach na dewis. |
| **Deilliant 1** | chwarae ar eu pennau eu hunain neu'n baralel â phlant eraill wrth ymyl oedolyn cyfarwydd yn aml. | chwarae wrth ymyl plant eraill drwy ddewis yn hytrach na chyd-ddigwyddiad. Fel arfer byddant yn gweithio ar dasg unigol ac yn dibynnu ar oedolion cyfarwydd yn emosiynol. |
| **Deilliant 2** | chwarae gyda phlant eraill fel arfer. | dangos, weithiau, hoffter o blant eraill ac yn chwarae gyda nhw. |
| **Deilliant 3** | chwarae'n gydweithredol gyda phlant eraill yn aml. | cyd-drafod, cymryd tro a rhannu yn ystod gweithgareddau strwythuredig cyfarwydd weithiau gyda chymorth oedolion, *e.e. eu hatgoffa nhw i gymryd tro mewn gêm.* |
| **Deilliant 4** | chwarae'n annibynnol ac yn gydweithredol gyda phlant eraill. | cyd-drafod rolau chwarae er mwyn i'r chwarae barhau, cymryd tro a gorffen chwarae. |
| **Deilliant 5** | cymdeithasu, cydweithredu a chyfathrebu'n briodol â phlant eraill ac oedolion cyfarwydd, gan geisio cymorth pan fydd angen. | dangos ymwybyddiaeth o anghenion eraill trwy addasu eu hymddygiad (a'u hiaith yn achos plant geiriol). Yn amlach na pheidio, byddant yn chwarae'n deg gan ddilyn rheolau'r gêm ac yn dangos parch at y chwaraewyr eraill. |

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Deilliant 6** | dangos ymwybyddiaeth o anghenion eraill trwy addasu eu hymddygiad (a'u hiaith yn achos plant geiriol). Yn amlach na pheidio, byddant yn chwarae'n deg gan ddilyn rheolau'r gêm ac yn dangos parch at y chwaraewyr eraill. | siarad yn gadarnhaol am eu cyfeillgarwch â phlant penodol; gallai plant di-eiriau gael eu gweld yn ceisio cwmni plant penodol. |

# Rheoli ymddygiad (Proffil Cryno)

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu gallu plant i reoli eu ymddygiad sy'n sgil pwysig mewn sefyllfaoedd cymdeithasol a sefyllfaoedd dysgu; dangoswyd ei fod yn dylanwadu ar gyflawniad. Efallai y bydd angen cymorth allanol ar blant iau, e.e. tynnu sylw ac esbonio, i'w helpu i reoli eu hymddygiad.

Wrth i oedolion helpu plant i reoli eu hymatebion emosiynol trwy fodelu, awgrymiadau a chiwiau, mae plant yn symud ymlaen yn raddol i reoli ymddygiad yn annibynnol. Efallai y bydd ymarferwyr yn sylwi bod plant yn defnyddio strategaethau megis lleferydd preifat i'w helpu i reoli eu hymddygiad, e.e. 'tro Aled, tro Becky, wedyn tro fi'. Efallai y bydd ymarferwyr yn sylwi hefyd bod plant yn fwyaf tebygol o reoli eu hymddygiad os ydynt yn cytuno â'r cais – dyna pam y gall esbonio rheolau i blant a'u cynnwys wrth ddatblygu systemau rheolau fod yn ymagweddau llwyddiannus at wella rheoli ymddygiad.

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Efydd** | ymateb i gael eu tawelu. | ymateb i ymddygiad tawelu megis siglo neu siarad yn dyner. |
| **Arian** | ymateb fel arfer i reoli gan oedolyn cyfarwydd. | cydymffurfio â rheolau neu reoliadau syml gan oedolion cyfarwydd, *e.e. aros wrth ymyl oedolyn pan ofynnir.* |
| **Aur** | ymateb yn briodol i ffiniau cyson. | deall ac yn cydymffurfio â ffiniau cyson, *e.e. eistedd i lawr i fwyta ac yfed.* |
| **Deilliant 1** | deall fod rhai mathau o ymddygiad yn annerbyniol. | chwarae'n gysylltiadol, *e.e. maent yn deall i beidio â chipio tegan y mae plentyn arall yn chwarae ag ef.* Gallant fynegi rhwystredigaeth trwy stranciau a strategaethau megis tynnu sylw, ac efallai y bydd angen esboniad arnynt. |
| **Deilliant 2** | deall disgwyliadau ymddygiadol syml. | ymateb i gymorth gan oedolyn fel arfer. Mae plant yn fodlon rhannu teganau a chymryd eu tro ac maent yn dangos dealltwriaeth o ddisgwyliadau ymddygiadol cyfarwydd, *e.e. helpu i dacluso.* |
| **Deilliant 3** | dechrau adnabod ymddygiad priodol ar gyfer sefyllfaoedd gwahanol, wedi'i fodelu'n aml ar safonau oedolion sydd wrth eu hymyl, ymateb i reswm ac ymdopi â newid mewn arferion. | dilyn rheolau'r ystafell ddosbarth, *e.e. cerdded yn hytrach na rhedeg dan do neu ddefnyddio llais tawel pan fydd yn briodol.* Byddant yn ymateb i reolau neu geisiadau fel arfer os esbonnir y rhesymau. |
| **Deilliant 4** | dangos hunanreolaeth gynyddol ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd ac aros i'w hanghenion gael eu hateb. | dangos hunanreolaeth ac ymddygiad priodol ar gyfer amrywiaeth o sefyllfaoedd. Fel arfer byddant yn derbyn cais i aros i'w hanghenion gael eu hateb, *e.e. ni fyddant yn tarfu pan fyddant am siarad ag oedolyn am sefyllfa.* |

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Deilliant 5** | deall y cysyniadau yn ogystal â chwarae teg a rheolau a'r rheswm drostynt. Maent yn deall bod canlyniadau i'w gweithrediadau ac maent yn cymryd cyfrifoldeb am y penderfyniadau a wnânt. | dangos ymddygiad priodol ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd, gan gynnwys y rhai sy'n anghyfarwydd, a deall yr angen am reolau, *e.e. chwarae trwy ddilyn rheolau'r gêm.* |
| **Deilliant 6** | dangos hunanreolaeth briodol. | dangos ymddygiad priodol ar gyfer gwahanol sefyllfaoedd, gan gynnwys sefyllfaoedd anghyfarwydd a dangos hunanreolaeth. |

# Ymateb i eraill (Proffil Cryno)

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu ymateb plant i eraill gan ystyried eu hymwybyddiaeth a dealltwriaeth o emosiynau unigolion eraill a datblygu ymatebion addas iddynt. Mae ymatebion plant i bobl eraill wedi'u cysylltu'n agos â'u gallu i gydnabod a deall meddyliau, credoau, dymuniadau, bwriadau a theimladau pobl eraill ('Theori'r Meddwl') sy'n cael ei ddylanwadu gan natur a meithrin. O safbwynt meithrin, mae profiadau plant o amrywiaeth ac ymddygiad y rhai y maent yn treulio amser â hwy yn ddylanwad cryf ar eu hymatebion i eraill (fel yr esbonnir gan Theori Dysgu Cymdeithasol).

Mae plant yn dangos chwilfrydedd naturiol ynghylch y gwahaniaethau rhyngddynt ac eraill gan gynnwys rhyw, ethnigrwydd, diwylliant a dosbarth cymdeithasol. Ar y cychwyn gall hyn gynnwys cwestiynau agored ynghylch y gwahaniaeth rhyngddynt hwy ac eraill, sy'n dod yn fwyfwy cwrtais a pharchus wrth iddynt ddeall y ffordd y mae plant yn teimlo am eu profiadau eu hunain.

| | **Mae plant yn gallu:** | **Gellir arsylwi ar blant yn:** |
|---|---|---|
| **Efydd** | symud sylw rhwng gwrthrych a'r sawl sy'n rhoi gofal yn ystod chwarae un i un. | rhannu eu sylw rhwng cyd-chwaraewr a gwrthrych megis tegan neu ysgogiad arall. |
| **Arian** | ymateb yn wahanol i'r rhai sy'n rhoi gofal ac oedolion anghyfarwydd. | dangos ymwybyddiaeth o ddieithriaid trwy ymateb yn wahanol iddynt. Efallai y gwelir hyn mewn sefyllfaoedd newydd yn arbennig, lle y gall plant edrych tuag at y sawl sy'n rhoi gofal i weld sut maent wedi ymateb. |
| **Aur** | ymateb yn briodol i gyfarchion cymdeithasol gan bobl gyfarwydd. | ymateb trwy godi llaw pan fydd pobl gyfarwydd yn dweud 'Helo' neu 'Hwyl'. |
| **Deilliant 1** | ymateb i gyfarchion cymdeithasol gan bobl gyfarwydd ac anghyfarwydd. | ymateb trwy godi llaw neu ymateb llafar pan fydd pobl gyfarwydd neu anghyfarwydd yn dweud 'Helo' neu 'Hwyl' wrthynt. |
| **Deilliant 2** | dechrau uniaethu ag emosiynau eraill ac efallai yn hoffi helpu oedolion a chyfoedion ond nid os yw'n gwrthdaro â'u diddordebau eu hunain. | dechrau uniaethu ag emosiynau a theimladau pobl eraill. Efallai y byddant yn hoffi helpu oedolion a chyfoedion, *e.e. codi teganau, ar yr amod nad yw'n gwrthdaro â'u diddordebau eu hunain.* Nid ydynt yn dehongli teimladau'n gywir bob amser. |
| **Deilliant 3** | ymateb i eraill gyda mwy o sensitifrwydd i'w hanghenion. | dangos gofal, parch a phryder am bobl eraill, anifeiliaid a phlanhigion gyda sensitifrwydd cynyddol. Bydd eu hymatebion yn dangos ymwybyddiaeth bod gan bobl eraill wahanol ymatebion emosiynol i'r un pethau. |
| **Deilliant 4** | ymateb i emosiynau ac anghenion eraill, dangos cymorth neu gysur lle y bo'n briodol; dangos ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol rhyngddynt hwy a chyfoedion. | ymateb yn briodol gydag ymwybyddiaeth gynyddol o wahaniaethau diwylliannol ac amrywiaeth. Byddant yn sylwi, cefnogi, cysuro a helpu plant eraill os ydynt yn drist ac yn anhapus a byddant yn mwynhau gofalu am yr amgylchedd. |

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Deilliant 5** | ymateb i eraill gyda pharch a gwerthfawrogi eu cyflawniadau, gan ddangos ymwybyddiaeth o deimladau, safbwyntiau a chredoau eraill. | ymateb yn gadarnhaol i gyraeddiadau plant eraill a siarad am sut y gall rhywun arall deimlo am sefyllfa neu ddigwyddiad. |
| **Deilliant 6** | ymateb i eraill â pharch, deall dewisiadau, safbwyntiau a chredoau gwahanol, a dangos dealltwriaeth o sut y dylent uniaethu ag eraill yn foesol ac yn foesegol. Gallant weld pethau o safbwynt pobl eraill. | cymryd rhan mewn trafodaethau perthnasol, *e.e. trafod rheolau ar gyfer ymddygiad neu brofiadau diwylliannol neu ddisgwyliadau crefyddol gwahanol.* Mae arwyr ac uwcharwyr yn rhan arwyddocaol o'u chwarae/bywydau. |

# Annibyniaeth mewn gofal personol (Proffil Cryno)

Mae’r ffrâm sgil hon yn asesu pa mor annibynnol yw plant gyda’u gofal personol sydd, yn ei dro, yn annog ymdeimlad o reolaeth ac yn galluogi plant i dreulio mwy o amser yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon. Mae’r ffrâm sgil hon yn canolbwyntio ar hyder ac ewyllys plant i ymdrin ag anghenion gofal personol wrth iddynt ddatblygu eu dealltwriaeth o bwysigrwydd datblygiad iechyd personol. Gellir gwneud arsylwadau trwy gydol y dydd, pryd bynnag y bydd anghenion gofal gan blant, megis mynd i’r tŷ bach, bwyta, hylendid ac ymwisgo.

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Efydd** | dangos dealltwriaeth o achos ac effaith sylfaenol. | deall, er enghraifft, os ydynt yn arllwys eu diod arnynt hwy eu hunain byddant yn gwlychu. |
| **Arian** | dangos dealltwriaeth o wrthrychau a ddefnyddir mewn arferion gofal. | ceisio brwsio eu gwallt gyda brwsh y maent yn dod hyd iddo. |
| **Aur** | dechrau helpu gydag arferion gofal personol. | helpu neu’n cydymffurfio ag arferion gofal a gyflawnir gan oedolyn, *e.e. rhoi eu côt amdanynt*, ond weithiau byddant yn dangos rhwystredigaeth neu bydd rhywbeth yn tynnu eu sylw. |
| **Deilliant 1** | gyda chymorth, cwblhau arferion gofal personol hunangymorth bob dydd ac yn awyddus i helpu fel arfer. Maent yn dangos gwybodaeth o arferion gofal cyfarwydd. | helpu gydag arferion hunanofal sy’n gyfarwydd iddynt, ond bydd angen cyfarwyddyd oedolyn arnynt ar gyfer y tasgau. Gallai ymddygiad sy’n helpu olygu rhoi eu traed allan ar gyfer esgidiau, dwylo ar gyfer sychu, ac ati. |
| **Deilliant 2** | dechrau cyflawni arferion gofal yn annibynnol a dangos rhywfaint o ymwybyddiaeth o beryglon. | dal i fod angen rhywfaint o gymorth wrth gyflawni rhai gweithrediadau neu gofio pob rhan o’r drefn, *e.e. anghofio sychu eu dwylo ar ôl eu golchi*, ond fel arfer byddant yn dweud nad oes angen cymorth arnynt neu byddant yn ceisio cyflawni’r gweithgaredd yn annibynnol. Byddant yn ymateb i rybuddion am ddiogelwch arferol, *e.e. peidio â rhedeg gyda siswrn.* |
| **Deilliant 3** | cyflawni’r rhan fwyaf o arferion gofal personol yn annibynnol a deall peryglon syweddol. | cyflawni’r rhan fwyaf o anghenion gofal personol o fewn eu gallu corfforol (mynd i’r toiled, bwyta, ymwisgo syml, ac ati), er y gall fod ceisiadau achlysurol am gymorth, *e.e. gyda sipiau neu fotymau*. Bydd plant yn deall peryglon sylweddol mewn amgylcheddau gwahanol, *e.e. porfa lithrig, defnyddio offer yn ofalus neu gymryd gofal ar offer chwarae fel fframiau dringo.* |
| **Deilliant 4** | cyflawni’r rhan fwyaf o arferion gofal personol yn annibynnol a dangos rhywfaint o ymwybyddiaeth o fwyta’n iach. | cyflawni anghenion gofal personol o fewn eu gallu corfforol (mynd i’r toiled, bwyta, ymwisgo, ac ati), er y gall fod ceisiadau achlysurol am gymorth. Bydd plant yn dechrau bod yn ymwybodol o gysyniadau gofal personol mwy hirdymor megis bwyta’n iach, gwybod am fwydydd sy’n iach a’r rhai nad ydynt yn iach. |

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Deilliant 5** | cyflawni arferion gofal personol yn annibynnol a deall effaith bwyd a diod ar iechyd. | cyflawni anghenion gofal personol yn annibynnol o fewn eu gallu corfforol (mynd i'r toiled, bwyta, ymwisgo, ac ati) heb lawer o geisiadau am gymorth. Byddant yn gallu dangos dealltwriaeth o arferion bwyta ac yfed iach, neu'n gallu eu trafod. |
| **Deilliant 6** | cyflawni arferion gofal personol yn annibynnol a deall effaith bwyd, diod ac ymarfer corff ar iechyd. | cyflawni anghenion gofal personol yn annibynnol o fewn eu gallu corfforol (mynd i'r toiled, bwyta, ymwisgo, ac ati). Byddant yn gallu dangos dealltwriaeth o bwysigrwydd bwyta'n iach ac ymarfer corff, neu'n ei drafod. |

# Cymryd rhan

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu'r graddau y mae plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu a chwarae a sut y maent yn gwneud hyn yn annibynnol. Mae cymryd rhan yn dibynnu ar eu chwilfrydedd, eu hyder a'u gallu i wrthod pethau sy'n tynnu eu sylw a chanolbwyntio. Gall arsylwadau ar gyfer y ffrâm sgil hon gael eu casglu ar draws holl weithgareddau'r Cyfnod Sylfaen a byddant yn helpu ymarferwyr i ddeall dulliau dysgu a diddordebau plant er mwyn llywio cynlluniau yn y dyfodol ac ategu addysgeg y Cyfnod Sylfaen. Dylai ymarferwyr edrych am ddyfalbarhad, hyder a dibyniaeth ar eraill wrth arsylwi ar blant yn ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau, heriau a phrofiadau.

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Efydd** | archwilio'r amgylchedd yn fwriadol. | estyn a chydio mewn tegan lliw llachar sydd o fewn eu cyrraedd. |
| **Arian** | archwilio gweithgareddau am gyfnod byr. | dangos eu hagwedd gadarnhaol trwy symudiadau neu leisio cyffrous. Gallant roi sylw i'r gweithgaredd o'u dewis, *e.e. curo drwm am ychydig funudau neu lai.* |
| **Aur** | dechrau cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau cyfarwydd. | cymryd rhan mewn gweithgareddau dan arweiniad oedolion gyda chymorth oedolyn cyfarwydd. |
| **Deilliant 1** | cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau cyfarwydd. | cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau sy'n gyfarwydd iddynt. Efallai y bydd angen sicrwydd a chymorth arnynt i ddewis y gweithgareddau hyn. |
| **Deilliant 2** | cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau cyfarwydd. | cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau cyfarwydd, yn ogystal â rhai sy'n newydd iddynt yn yr amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored. Byddant yn awyddus i weithredu'n annibynnol, er y bydd angen cymorth arnynt weithiau os ydynt yn ansicr neu os na allant gyflawni rhan o dasg. |
| **Deilliant 3** | cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau ac maent wedi dod yn fwy annibynnol yn eu dysgu. | cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys profiadau newydd neu anghyfarwydd. Maent yn dewis ac yn cyflawni gweithgareddau heb gymorth oedolyn, gan ganolbwyntio arnynt am gyfnod hirach weithiau. |
| **Deilliant 4** | cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o dasgau a gweithgareddau, gan ddangos eu bod yn canolbwyntio a dangos yr hyn y maent yn ei hoffi a'r hyn nad ydynt yn ei hoffi. | cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau er bod ffefrynnau arbennig ganddynt. Fel arfer gallant ganolbwyntio ar dasgau a gallai hyn gynnwys ailganolbwyntio ar weithgaredd ar ôl i bethau arferol eraill dynnu eu sylw, *e.e. plant eraill yn chwarae gerllaw.* |
| **Deilliant 5** | cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o dasgau a gweithgareddau, gan ddangos ychydig o ddyfalbarhad gyda thasgau. | cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau er bod ffefrynnau arbennig ganddynt. Gallant ganolbwyntio ar dasgau, hyd yn oed os yw pethau yn tynnu eu sylw, a dyfalbarhau gyda phethau y maent yn eu cael yn anodd gan ofyn am gymorth pan fydd angen. |

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Deilliant 6** | cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o dasgau a gweithgareddau, gan fyfyrio ar sut y gallant wella'u dysgu a dangos dyfalbarhad, canolbwyntio a chymhelliad. Mae'r plant yn gallu adnabod problemau a chynnig atebion. | cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau er bod ffefrynnau arbennig ganddynt. Maent yn gallu canolbwyntio ar dasgau a dyfalbarhau gyda phethau y maent yn eu cael yn anodd. Maent yn gallu myfyrio ar y strategaethau a ddefnyddiant i'w helpu i gwblhau tasgau heriol. |

# Mynegiant emosiynol

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu dealltwriaeth plant o'u hemosiynau a'u teimladau eu hunain sy'n gam pwysig o ran eu datblygiad personol, ac o ran cefnogi eu dealltwriaeth o eraill a'u hymateb iddynt. Bydd mynegiannau'r wyneb, ystumiau neu ymddygiad penodol yn helpu ymarferwyr i olrhain emosiynau plant cyn y gall plant wneud hynny eu hunain.

Mae plant sy'n dangos dealltwriaeth dda o emosiynau hefyd yn tueddu i allu rheoli eu hemosiynau, ymddygiad a sylw yn well. Bydd ymarferwyr yn arsylwi ar y sgiliau hyn fel rhai sydd o fudd i gynnydd plant ar draws bob agwedd ar y Cyfnod Sylfaen. Gall ymarferwyr sylwi hefyd bod plant sy'n treulio amser gyda brodyr a chwiorydd hŷn neu gyfoedion hŷn yn aml yn datblygu dealltwriaeth o emosiynau y tu hwnt i'r hyn sy'n nodweddiadol ar gyfer eu hoedran.

Gellir gwneud arsylwadau ar draws pob gweithgaredd, ond yn enwedig lle mae gan y plentyn ymateb emosiynol arbennig o gryf – gall hyn amrywio o blentyn i blentyn. Er mwyn gwneud penderfyniad ynghylch lleoliad plant ar y ffrâm sgil hon, efallai y bydd angen cael sgyrsiau a gwneud arsylwadau naturiol, a gellir arsylwi ar blant di-eiriau yn defnyddio iaith arwyddion i fynegi eu hunain.

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Efydd** | dangos amrywiaeth o emosiynau sylfaenol yn glir. | mynegi, ar y cam hwn, hapusrwydd, tristwch, ofn neu ddicter. Fe'u dangosir trwy dôn y llais, mynegiannau'r wyneb a mathau eraill o gyfathrebu di-eiriau. |
| **Arian** | dechrau mynegi amrywiaeth o bethau sy'n well ganddynt. | sylweddoli eu bod yn gallu dangos eu teimladau a'r hyn sy'n well ganddynt trwy eu llais a'u gweithrediadau, *e.e. gwthio llyfr i ffwrdd os nad ydynt am edrych arno.* |
| **Aur** | mynegi yn syml amrywiaeth o bethau sy'n well ganddynt. | deall bod modd dangos eu teimladau a'r hyn sy'n well ganddynt trwy eu llais a'u gweithrediadau, *e.e. crïo, gwenu, chwerthin neu ysgwyd eu pen, ac ati.* |
| **Deilliant 1** | dechrau mynegi sut maent yn teimlo mewn termau syml. | dechrau defnyddio termau emosiynol megis 'hapus' a 'thrist' er nad ydynt efallai yn eu defnyddio'n gywir bob tro. |
| **Deilliant 2** | dangos ymwybyddiaeth o'u teimladau a'u hemosiynau eu hunain. | defnyddio geirfa fwy eang o dermau emosiynol wrth siarad am eu teimladau a'u hemosiynau eu hunain er na fyddant yn eu defnyddio'n gywir bob tro. |
| **Deilliant 3** | mynegi emosiynau gyda rhywfaint o reolaeth, gan ddechrau cydnabod bod emosiynau'n cael eu dylanwadu gan bobl a phethau gwahanol. | mynegi'r hyn y maent yn ei hoffi a'r hyn nad ydynt yn ei hoffi, a deall bod gwrthrychau, profiadau a phobl wahanol yn effeithio ar sut y maent yn teimlo. Maent yn dangos rhywfaint o reolaeth dros eu hemosiynau. |
| **Deilliant 4** | mynegi emosiynau gyda mwy o reolaeth, gan gydnabod y gall y rhain gael eu dylanwadu gan bobl a phethau gwahanol. | siarad am yr hyn y maent yn ei hoffi a'r hyn nad ydynt yn ei hoffi a'r ffordd y mae gwrthrychau, profiadau a phobl wahanol yn effeithio ar y ffordd y maent yn teimlo. |

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Deilliant 5** | cydnabod a mynegi eu teimladau'n briodol ac maent yn gallu rheoli eu hemosiynau a delio â siom fel arfer. | rheoli a mynegi eu hemosiynau mewn ffordd briodol. Er enghraifft, gallant adnabod pryd y maent yn teimlo'n siomedig a gallant fynegi eu siom yn briodol, *e.e. trwy leferydd yn hytrach nag ymddygiad.* |
| **Deilliant 6** | rheoli eu hemosiynau yn aml. | rheoli eu teimladau a'u hemosiynau yn gywir. Gallant labelu a myfyrio ar y gwahanol emosiynau a deimlant a llwyddo i fynegi eu teimladau a'u hemosiynau mewn ffyrdd priodol. |

# Rhestr o dermau ar gyfer Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

Mae'r rhain yn dermau cyffredin a ddefnyddir yng nghyd-destun Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.

**Chwarae cydweithredol** – Plant yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni nod gyffredin. Fel arfer byddai hyn yn cynnwys trafod rolau chwarae, cymryd tro a rhannu.

**Chwarae paralel** – Plant yn chwarae ochr yn ochr â phlant eraill heb geisio dylanwadu ar chwarae ei gilydd er y gallant fod â diddordeb yn yr hyn y mae eraill yn ei wneud ac y gallant ddynwared ei gilydd.

**Emosiynau** – Teimladau mewn ymateb i rywun neu rywbeth, a all fod yn fyrhoedlog neu'n ddwys. Gwelir nifer bach o emosiynau 'sylfaenol' ar draws pob diwylliant. Mae'r rhain yn cynnwys hapusrwydd, syndod, dicter, ffieiddio, ofn a thristwch. Mae pob emosiwn yn achosi ymateb disgwyliadwy yng nghorff rhywun, *e.e. mynegiant yr wyneb, effaith ar guriad y galon*. Mae emosiynau'n dylanwadu ar gymhellion a theimladau ac felly'n effeithio ar ymddygiad pobl.

**Empathi** – Y gallu i ddeall a rhannu teimladau rhywun arall.

**Theori Dysgu Cymdeithasol** – Mae Theori Dysgu Cymdeithasol yn awgrymu y gall pobl ddysgu ymddygiadau, gwerthoedd ac agweddau newydd trwy wylio eraill hyd yn oed os nad yw unrhyw addysgu uniongyrchol wedi digwydd.

**Theori'r Meddwl** – Y gallu i briodoli credoau, bwriadau, dymuniadau, cogio, gwybodaeth, ac ati ('cyflyrau meddwl') i'ch hunan ac i eraill a deall bod gan eraill gyflyrau meddwl sy'n wahanol i'w cyflyrau meddwl hwy.

# Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Wrth i blant ddysgu iaith, mae'n hanfodol eu bod yn cael cyfleoedd i feithrin eu sgiliau a'u datblygu. Mae iaith yn cynnwys gwahanol ffurfiau a sgiliau sy'n cynnwys siarad a gwrando, darllen, ysgrifennu, meddwl ac arsylwi. Mae'n bwysig bod cyswllt rhwng gwahanol elfennau iaith a llythrennedd a bod ganddynt ddiben. Mae sgiliau iaith, darllen ac ysgrifennu yn datblygu gyda'i gilydd ac yn gydgysylltiedig. Ni ddylid eu haddysgu ar wahân i'w gilydd neu Feysydd Dysgu eraill. Mae'r sgiliau llythrennedd hyn yn cael eu datblygu a'u harsylwi drwy brofiadau ystyrlon i'r plant.

Efallai y bydd rhai plant yn defnyddio dulliau eraill i gyfathrebu megis iaith arwyddion a dangosyddion dieiriau a gall y rhain gymryd lle lleferydd a'i ymestyn, yn ogystal â dangos agwedd neu fynegi emosiynau.

Mae'r fframiau sgil wedi cael eu cynllunio i gyd-fynd â'r Maes Dysgu Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (diwygiwyd ym mis Medi 2015) a'r FfLlRh. Gellir cael manylion pellach ar y sgiliau a'r ystod o brofiadau ar gyfer y Maes Dysgu hwn yn y ddogfen *Cwricwlwm Cymru: Fframwaith y Cyfnod Sylfaen* (2015).

## Fframiau sgil ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

| Fframiau sgil yn y Proffil Cryno | Fframiau sgil ychwanegol yn y Proffil Llawn |
|---|---|
| Llafaredd – Gwrando a deall | Llafaredd – Cydweithredu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau |
| Llafaredd – Ymwybyddiaeth ffonolegol | Llafaredd – Lleferydd |
| Llafaredd – Iaith fynegiannol | Llafaredd – Siarad a chwarae |
| Darllen – Deall deunyddiau darllen | Darllen – Deall |
| | Darllen – Darllen geiriau |
| | Ysgrifennu – Llawysgrifen |
| | Ysgrifennu – Sillafu |
| | Ysgrifennu – Atalnodi a gramadeg |
| | Ysgrifennu – Genre |
| | Ysgrifennu – Cynllunio, gwerthuso a golygu |

# Llafaredd – Gwrando a deall (Proffil Cryno)

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu sgiliau gwrando plant a'u dealltwriaeth o'r iaith lafar gan gynnwys cysyniadau a ddefnyddir a'r cyfarwyddiadau a siaredir gan eraill wrth i'w sgiliau iaith derbyngar ddatblygu. Ar y cychwyn, bydd plant yn dangos dealltwriaeth trwy ystumiau di-eiriau, a ddilynir hyn gan ymateb geiriol ac yn ddiweddarach trwy ofyn cwestiynau i wybod mwy am yr hyn a ddywedwyd a gwneud cysylltiadau rhwng yr hyn a ddeellir a'r hyn a wyddys eisoes.

Gall rhai plant roi'r argraff nad ydynt yn ymateb i iaith a chyfarwyddiadau fel y byddai disgwyl iddynt ei wneud ar y cam y maent arno yn eu datblygiad, ac mae'n bwysig gwybod a yw anhawster clywed yn ffactor sy'n cyfrannu at hyn. Gall plant barhau i ddangos dealltwriaeth yn ddi-eiriau trwy gyflawni cyfarwyddiadau'n gywir wrth iddynt fynd yn hŷn. Fodd bynnag fel arfer gellir arsylwi ar ddealltwriaeth fwy soffistigedig o rywbeth a ddywedwyd wrth iddynt ymateb i gwestiynau priodol a gwneud sylwadau ac arsylwadau mwy manwl. Gellir dangos dealltwriaeth hefyd trwy eu hymateb creadigol i ysgogiadau, er ei bod yn aml yn bwysig i drafod gwaith plant er mwyn asesu lefel eu dealltwriaeth.

| | **Mae plant yn gallu:** | **Gellir arsylwi ar blant yn:** |
|---|---|---|
| **Efydd** | ymateb gyda dealltwriaeth i rai geiriau a ddefnyddir yn eu cyd-destun arferol. | defnyddio lleisiadau, ystumiau di-eiriau neu fynegiannau'r wyneb i ymateb i oedolyn, *e.e. gwenu*. Maent yn dibynnu'n helaeth ar gliwiau gweledol a chliwiau eraill yn yr amgylchedd uniongyrchol. |
| **Arian** | ymateb i gyfathrebu syml a chyfarwydd sy'n cynnwys un cam ar y tro. | dangos dealltwriaeth o'r hyn a ddywedir trwy ymateb yn briodol, neu drwy ymuno mewn gweithrediadau syml un i un neu mewn grŵp bach o gyfoedion, *e.e. ymuno â chân curo dwylo.* |
| **Aur** | ymateb i gyfarwyddiadau un cam syml a chyfarwydd. | cyflawni cyfarwyddiadau un cam, *e.e. "Emma, cer i nôl dy esgidiau"*, a all gael eu hategu gan ystum. |
| **Deilliant 1** | ymateb i gyfarwyddiadau un cam digymell a dangos dealltwriaeth o ymadroddion syml. | dilyn cyfarwyddiadau un cam nad ydynt wedi eu clywed yn aml iawn cyn belled â'u bod yn gyfarwydd â'r lleoliad a'r eirfa, *e.e. "Dafydd, tyrd â'r llyfr imi."* Mae plant ar y cam hwn yn deall llawer mwy o eiriau nag y byddant yn eu defnyddio eu hunain. |
| **Deilliant 2** | gwrando gyda mwy o sylw a chanolbwyntio. Maent yn dangos dealltwriaeth o gyfarwyddiadau dau gam a chysyniadau sylfaenol ac yn gofyn cwestiynau syml priodol. | dangos dealltwriaeth o gyfarwyddiadau dau gam, e.e."Hari, cer i nôl y llyfr, ac eistedda ar y carped". Byddant yn dechrau gofyn 'Pwy?', 'Beth?' a 'Pam?' mewn ymateb i ysgogiadau. Bydd eu dealltwriaeth o gysyniadau sylfaenol yn cynnwys i mewn, ar, mawr, bach, gwlyb, sych, poeth ac oer. |

| | **Mae plant yn gallu:** | **Gellir arsylwi ar blant yn:** |
|---|---|---|
| **Deilliant 3** | dangos eu bod wedi gwrando ar eraill. Maent yn deall cyfarwyddiadau tri cham a chysyniadau sylfaenol. Fel arfer byddant yn ymateb yn briodol i bobl ac ysgogiadau ac yn gofyn cwestiwn priodol am rywbeth a gafodd ei ddweud. | dilyn cyfarwyddiadau mewn sefyllfaoedd rheolaidd, *e.e. "Cer i nôl dy esgidiau glaw, rho nhw arno, ac yna ymuna â'r rhes i fynd allan"*. Byddant yn cymryd rhan mewn trafodaethau gyda grwpiau bach ac yn dangos eu bod wedi gwrando trwy ofyn cwestiynau i gadarnhau eu dealltwriaeth neu trwy ymateb yn syml, *e.e. ychwanegu rhywbeth at lun oherwydd bod rhywun wedi awgrymu hynny.* Mae eu dealltwriaeth o gysyniadau sylfaenol yn cynnwys dros, o dan a thu ôl. |
| **Deilliant 4** | gwrando ar siaradwyr neu ysgogiadau eraill gyda mwy o sylw, gan ymateb yn briodol fel arfer i wybodaeth a chyfarwyddiadau cymhleth. Maent yn gofyn cwestiynau manwl er mwyn cadarnhau ystyr. | gwrando a deall gwybodaeth a chyfarwyddiadau sy'n fwyfwy cymhleth a all gynnwys gwybodaeth newydd ac anghyfarwydd. Bydd cwestiynau mwy manwl yn cynnwys gofyn 'Pwy?', 'Beth?', 'Ble?', 'Pam?', 'Pryd?' a 'Sut?' ynghylch yr wybodaeth y maent wedi'i chlywed. |
| **Deilliant 5** | gwrando ar siaradwyr neu ysgogiadau eraill gan ganolbwyntio, gofyn cwestiynau mwy manwl i gadarnhau dealltwriaeth, ymateb i bwyntiau allweddol a chysylltu dealltwriaeth â'u profiad eu hunain. | gwrando ar amrywiaeth o ysgogiadau a chynulleidfaoedd gan ganolbwyntio. Byddant yn dangos dealltwriaeth o brif bwyntiau gwybodaeth lafar, gan ofyn amrywiaeth o gwestiynau perthnasol i geisio cadarnhad neu i gael rhagor o wybodaeth, a byddant yn paratoi'r rhain yn ofalus weithiau. |
| **Deilliant 6** | defnyddio sylwadau a chwestiynau perthnasol i ddangos eu bod wedi gwrando'n ofalus ar amrywiaeth o siaradwyr neu ysgogiadau a dechrau gwneud cysylltiadau rhwng gwybodaeth gan siaradwr a'r hyn y maent eisoes yn ei wybod. | gwrando ar amrywiaeth o ysgogiadau a chynulleidfaoedd a dangos dealltwriaeth trwy ofyn cwestiynau perthnasol. Byddant yn gofyn cwestiynau pellach i gael gwybodaeth fwy penodol a byddant yn paratoi'r rhain yn ofalus iawn yn aml. |

# Llafaredd – Ymwybyddiaeth ffonolegol (Proffil Cryno)

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu ymwybyddiaeth ffonolegol plant trwy ganeuon, rhigymau a chwarae gyda geiriau a'u dealltwriaeth gynnar o batrymau iaith. Mae clywed synau mewn geiriau yn gam cynnar hanfodol mewn segmentu a chyfuno ac mae'n arwain at wella llythrennedd. Wrth i sgiliau plant ddatblygu byddant yn symud ymlaen i ddeall bod y rhain yn drefniadau gwrthdroadwy. Yng nghamau cynharach datblygiad iaith, bydd ailadrodd y geiriau a glywir mewn rhigymau syml hefyd yn helpu i ddatblygu geirfa plant. Byddant hefyd yn clywed ac yn arbrofi gyda thôn, uchder a goslef yn ogystal â rhythm.

Yn ogystal â bod yn ffactor pwysig mewn datblygiad iaith, mae manteision gwybyddol hefyd i glywed a dysgu rhigymau a chaneuon. Mae'r patrymau mewn rhigymau a chaneuon yn helpu plant i alw i gof iaith a dysgu ar gof geiriau a phenillion. Gall y patrymau hyn, yn ogystal â dilyniannau, ddatblygu sgiliau mathemategol syml. Mae caneuon a rhigymau ailadroddus yn helpu i atgyfnerthu cysyniadau ar draws nifer o feysydd datblygiad yn y camau cynnar, e.e. rhif, amser, ac ati.

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Efydd** | dangos diddordeb wrth wrando ar ganeuon a rhigymau. | dangos diddordeb trwy ystumiau geiriol neu ddi-eiriau, *e.e. gwenu, symud yn gyffrous.* |
| **Arian** | dangos diddordeb mewn caneuon a rhigymau cyfarwydd ac ymuno gyda'r rhannau cyfarwydd. | ymuno gyda rhannau o ddwy neu dair hoff gân neu rigwm trwy gofio rhai geiriau neu symudiadau penodol. |
| **Aur** | dangos diddordeb mewn caneuon a rhigymau cyfarwydd a newydd ac ymuno yn y canu neu'r symudiadau. | dangos diddordeb mewn caneuon a rhigymau newydd, o fewn grŵp fel arfer. |
| **Deilliant 1** | gwrando ar ganeuon a rhigymau ac ymuno â nhw a, gyda chymorth, dechrau cymryd rhan mewn chwarae â geiriau. | cymryd rhan mewn caneuon actol, *e.e. 'Pen, ysgwyddau, coesau, traed'*, a rhigymau bys, *e.e. 'un, dau, tri, Mam yn dal pry'*. Weithiau byddant yn cymryd rhan mewn chwarae â geiriau gyda chymorth oedolyn *e.e. yn mwynhau rhythm neu odl a ddefnyddir gan oedolyn.* |
| **Deilliant 2** | gwrando ar ganeuon a rhigymau ac ymuno â nhw, gan gymryd rhan mewn chwarae â synau a geiriau. | gwrando ar hwiangerddi, a'u dweud neu eu canu, *e.e. 'Mi welais Jac y do/Ji Ceffyl Bach/Dacw Mam yn dŵad'*. Byddant yn cymryd rhan mewn chwarae â synau a geiriau megis mwynhau rhythm neu odl a ddefnyddir gan oedolyn; byddant yn clywed a gwahaniaethu rhwng synau cyffredinol, amgylcheddol a lleferydd, naill ai ar lafar neu drwy ystumiau. |
| **Deilliant 3** | gyda rhywfaint o gymorth, dysgu ar gof a pherfformio caneuon a rhigymau a dangos eu bod yn adnabod rhythm, odl a chyflythrennu llafar. Maent yn chwarae â synau mewn geiriau, gan gynnwys dewis ac adnabod synau cychwynnol. | dewis ac adnabod synau cychwynnol mewn geiriau llafar ac yn parhau â llinyn odli ac yn dangos ymwybyddiaeth o gyflythrennu, odli a rhythm mewn geiriau llafar. Maent yn perfformio ac yn ymuno â nifer o ganeuon a rhigymau y maent yn gwybod rhannau ohonynt yn llawn, gyda rhywfaint o gymorth, yn aml mewn grŵp. |

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Deilliant 4** | ymuno, ailadrodd neu ddysgu ar gof rhigymau, caneuon a cherddi, a defnyddio cyflythrennu ac odli i greu rhai eu hunain. Gallant segmentu a chyfuno geiriau. | clywed ac adnabod synau mewn geiriau llafar, gan gynnwys llafariaid canol a synau terfynol. Byddant yn adnabod y gwahaniaeth rhwng cychwyn ac odl y gair sy'n odli, *e.e. boch, coch, moch*. Gallant greu geiriau a cherddi odli yn gyfan gwbl neu'n rhannol, *e.e. wrth gwblhau llinellau mewn rhigymau trwy ychwanegu'r gair sy'n odli*, a hefyd creu eu caneuon, rhigymau a cherddi syml eu hunain, er y gall y rhain fod yn seiliedig ar fodel cyfarwydd. |
| **Deilliant 5** | galw i gof nifer cynyddol o rigymau, caneuon a cherddi a defnyddio cyflythrennu, rhythm ac odli i greu rhai eu hunain. Gallant segmentu a chyfuno geiriau amlsillafog. | defnyddio eu hymwybyddiaeth ffonolegol, sy'n cael ei adlewyrchu yn eu darllen a'u hysgrifennu ac maent yn cyfuno ac yn segmentu geiriau amlsillafog ar lafar. Byddant yn perfformio nifer cynyddol o rigymau, caneuon a straeon. Byddant yn creu eu rhigymau a'u cerddi eu hunain, gan gynnwys penillion gwirion. |
| **Deilliant 6** | defnyddio ystod eang o rigymau, caneuon a cherddi a chreu eu siantiau, rhigymau a cherddi eu hunain. Maent yn defnyddio eu hymwybyddiaeth ffonolegol yn hyderus. | defnyddio eu hymwybyddiaeth ffonolegol yn hyderus, sydd i'w weld yn eu darllen a'u hysgrifennu ac maent yn cyfuno ac yn segmentu geiriau amlsillafog ar lafar. Byddant yn perfformio llawer o ganeuon, rhigymau a cherddi a byddant yn creu eu fersiynau eu hunain yn annibynnol. |

# Llafaredd – Iaith fynegiannol (Proffil Cryno)

Mae'r ffrâm sgil hon yn helpu ymarferwyr i asesu defnydd plant o iaith fynegiannol; sut y maent yn mynegi eu hanghenion, eu syniadau, eu teimladau a sut y maent yn cyfathrebu ac yn cyfleu ystyr yn gyffredinol. Bydd cyfleoedd aml i archwilio ac arbrofi gyda brawddegau sydd ar eu lefel gyfredol ac ar lefel yn uwch na'u lefel gyfredol yn helpu plant i atgyfnerthu eu gallu i strwythuro eu hiaith a defnyddio geirfa yn dda. Dylai plant gael llawer o gyfleoedd i wrando ag iaith â strwythur a defnyddio geiriau newydd a phriodol ar gyfer sefyllfaoedd gwahanol ar draws ystod eang o bynciau, gweithgareddau a phrofiadau. Efallai y bydd plant sy'n dysgu'r Gymraeg neu'r Saesneg fel iaith ychwanegol yn datblygu strwythur iaith gywir yn y Gymraeg neu'r Saesneg ar gyflymder gwahanol nag yn eu hiaith gyntaf.

Mae ystafelloedd dosbarth sy'n gyfoethog o ran iaith, dan do ac yn yr awyr agored, gydag ysgogiadau diddorol ynghyd ag ymarferwyr sy'n modelu iaith dda ac sy'n siarad â phlant, yn cefnogi arsylwadau o sgiliau iaith sy'n datblygu. Mae trafodaethau â rhieni/gofalwyr yn bwysig i gael darlun llawn o ddefnydd plant o iaith.

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Efydd** | defnyddio synau neu eiriau syml yn bwrpasol ac yn ceisio enwi gwrthrychau cyfarwydd. | creu eu synau eu hunain neu ddefnyddio geiriau syml ar gyfer pethau cyfarwydd megis bwydydd, anifeiliaid anwes, aelodau o'r teulu neu deganau. Efallai na fydd y synau sy'n cael eu creu gan y plentyn yn cael eu deall gan bobl eraill bob amser. |
| **Arian** | defnyddio rhai geiriau adnabyddadwy i enwi gwrthrychau cyfarwydd ac yn cysylltu dau air at ei gilydd i gyfleu ystyr. | defnyddio dau air gyda'i gilydd, yn aml pan gyflwynir gwrthrychau cyfarwydd iddynt mewn cyd-destun cyfarwydd, *e.e. 'cwpan' pan roddir diod iddynt.* Weithiau, bydd yr un enw yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio llawer o bethau gwahanol ond tebyg, *e.e. gellir defnyddio 'ci' i ddisgrifio ci, llwynog, teigr, ac ati.* |
| **Aur** | siarad am wrthrychau cyfarwydd mewn ffordd syml, gan gyfuno mwy na dau air gyda'i gilydd i ffurfio brawddegau syml. | defnyddio geiriau ar gyfer pethau mwyaf cyfarwydd, siarad mewn brawddegau syml o dau i dri o eiriau, *e.e.'Nia cer allan'*, i gyfleu diddordebau, rhoi gwybodaeth neu ofyn cwestiynau. |
| **Deilliant 1** | dechrau defnyddio geiriau newydd eu dysgu yn eu chwarae. Maent yn 'siarad' â'u hunain, â phlant eraill ac ag oedolion cyfarwydd gan ddefnyddio brawddegau syml. | ailadrodd geiriau sy'n newydd iddynt wrth chwarae'n rhydd neu wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau. Byddant yn siarad am weithgareddau neu straeon gan ddefnyddio un neu ddwy brawddeg syml o dri neu fwy o eiriau. |
| **Deilliant 2** | defnyddio geiriau newydd eu dysgu a'r eirfa berthnasol mewn brawddegau cyflawn gyda phump neu fwy o eiriau yn eu chwarae. | defnyddio ymadroddion disgrifiadol syml gan gynnwys adferfau neu ansoddeiriau mewn brawddegau anghyflawn, *e.e. 'Pêl fawr yn goch'*. Byddant yn arbrofi'n aml â geirfa sydd newydd gael ei dysgu yn eu chwarae. Byddant yn defnyddio brawddegau hirach, gan gynnwys ffurfiau lluosog syml a chwestiynau syml, o bump neu fwy o eiriau, ambell waith yn dangos anaeddfedrwydd gramadegol. |

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Deilliant 3** | defnyddio ystod briodol a chynyddol o eirfa mewn ymadroddion a brawddegau cyflawn. | defnyddio geirfa ehangach sy'n cynnwys mwy o ansoddeiriau ac adferfau. Maent yn siarad am brofiadau, yn ymateb i ysgogiadau creadigol neu yn creu neu yn ailadrodd straeon. Byddant yn dewis y geiriau priodol ac yn siarad mewn brawddegau cyflawn i rannu gwybodaeth fanylach, syniadau a digwyddiadau o'u profiad. |
| **Deilliant 4** | defnyddio ystod gynyddol ac amrywiol o eirfa briodol. Maent fel arfer yn gwneud eu hunain yn glir drwy ddewis geiriau yn fwriadol a threfnu'r hyn a ddywedant. | dangos ymwybyddiaeth o eirfa briodol mewn gwahanol sefyllfaoedd trwy gynnwys manylion perthnasol yn eu hanesion neu trwy ddefnyddio geirfa benodol yn eu chwarae, gan ddewis geiriau i wneud eu hunain yn ddealladwy gan gynulleidfa ehangach. Byddant yn dangos ymwybyddiaeth o'r dilyniant cywir, gan gywiro eu hunain yn aml. |
| **Deilliant 5** | defnyddio ystod gynyddol o eirfa briodol, gan ddefnyddio amrywiaeth i ychwanegu diddordeb. Maent yn gwneud eu hunain yn glir drwy ddewis geiriau yn fwriadol, trefnu'r hyn y maent yn ei ddweud a defnyddio brawddegau mwy cymhleth gan gynnwys manylion perthnasol. | dangos dealltwriaeth o eirfa ffurfiol ac anffurfiol a phryd y bydd yn briodol i ddefnyddio'r naill a'r llall, *e.e. 'Helo Tomos' wrth gyfarch ffrind neu 'Bore Da Mr/Miss' wrth gyfarch ymarferydd.* |
| **Deilliant 6** | addasu'r siarad i ofynion y gynulleidfa, gan drefnu'r hyn y maent yn ei ddweud ac yn amrywio'r defnydd o eirfa a lefel y manylder, gan ddewis geiriau yn fwriadol a defnyddio brawddegau mwy cymhleth. | dangos dealltwriaeth o anghenion y gynulleidfa a newid yr eirfa'n briodol, *e.e. y gwahaniaeth yn y defnydd o eirfa pan fyddant yn siarad â ffrindiau neu wrth roi cyflwyniad yn y dosbarth*, a defnyddio brawddegau mwy cymhleth. |

# Darllen – Deall deunyddiau darllen (Proffil Cryno)

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu dealltwriaeth plant o ddeunyddiau darllen; sut i ddefnyddio llyfr a deunyddiau darllen eraill. Bydd plant yn dysgu sut i ddefnyddio llyfrau drwy arsylwi ar oedolion, e.e. troi tudalennau, pwyntio at luniau a geiriau. Wrth i'w gallu i ddarllen wella bydd plant yn gallu dangos eu dealltwriaeth a chynnig sylwadau ar nodweddion testunau ar draws amrywiaeth o genres. Gall asesiadau ar gyfer y ffrâm sgil hon gael eu casglu trwy amrywiaeth o weithgareddau darllen, gan gynnwys darllen a fodelwyd gan oedolion yn ogystal ag arsylwi ar blant pan fyddant yn cwblhau gweithgareddau darllen annibynnol, e.e. yn y gornel lyfrau neu ymchwilio i bwnc ar-lein.

| | **Mae plant yn gallu:** | **Gellir arsylwi ar blant yn:** |
|---|---|---|
| **Efydd** | ymateb i ysgogiadau gweledol a chyffyrddol. | rhoi sylw pan ddangosir ysgogiadau gweledol neu gyffyrddol iddynt, gan ddangos eu hymateb trwy ddilyn y delweddau gyda'u llygaid, estyn at yr ysgogiadau cyffyrddol neu eu cyffwrdd neu ymateb yn syml ar lafar. |
| **Arian** | archwilio llyfrau cyffyrddol a rhyngweithiol gyda chymorth. | gyda chymorth oedolyn cyfarwydd byddant yn edrych ar lyfrau rhyngweithiol, yn eu cyffwrdd neu ymateb ar lafar iddynt, gan gynnwys llyfrau gyda gwahanol weadau, llyfrau naid a synau. |
| **Aur** | archwilio llyfrau cyffyrddol a rhyngweithiol yn annibynnol. | edrych ar lyfrau rhyngweithiol, cyffwrdd neu ymateb iddynt ar lafar yn annibynnol, gan gynnwys llyfrau gyda gwahanol weadau, llyfrau naid neu synau. |
| **Deilliant 1** | deall strwythur sylfaenol deunyddiau darllen. | dangos dealltwriaeth o strwythur deunyddiau darllen, *e.e. edrych ar y clawr, brig a gwaelod, a thudalennau*. Byddant yn fwyaf cyfarwydd â deunyddiau darllen syml sydd ar gael yn yr amgylchedd, *e.e. llyfrau, cylchgronau a chatalogau*. Efallai y byddant yn dynwared oedolyn cyfarwydd yn darllen llyfr yn uchel, er efallai na fyddant yn dal y llyfr yn gywir. |
| **Deilliant 2** | dewis gwahanol fathau o ddeunyddiau darllen syml ac yn gwneud ystyr o'r lluniau, dal llyfrau'r ffordd gywir a throi tudalennau. | archwilio gwahanol fathau o lyfrau, gan gynnwys llyfrau lluniau, straeon-cerddi, llyfrau rhyngweithiol neu destunau ar-sgrin a byddant yn gweithredu fel darllenydd, *e.e. yn dynwared darllen trwy ddal llyfr, edrych ar luniau a throi'r tudalennau*. Bydd plant yn gwneud ystyr o'r lluniau, yn dynwared darllen 'brawddeg' neu'n disgrifio beth sy'n digwydd. Byddant yn gwneud hyn gyda neu heb oedolyn. |
| **Deilliant 3** | dewis deunyddiau darllen gan gynnwys llyfrau, a deall confensiynau print. Maent yn ymwybodol o'r gwahaniaeth rhwng testunau. | archwilio deunyddiau darllen gan gynnwys llyfrau sy'n uwch na'u lefel darllen. Maent yn deall bod print yn cael ei ddarllen o'r chwith i'r dde, o'r brig i'r gwaelod. Maent yn dangos ymwybyddiaeth o'r gwahaniaethau rhwng straeon a thestunau gwybodaeth. |
| **Deilliant 4** | dewis deunyddiau darllen a siarad am nodweddion testun syml. | mynd at destunau trwy edrych ar nodweddion syml, *e.e. teitlau, a lluniau i'w helpu i wneud eu dewisiadau a deall testunau.* |

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Deilliant 5** | dewis deunyddiau darllen yn annibynnol gan roi rhesymau dros eu dewisiadau a defnyddio nodweddion testun. | dewis deunyddiau darllen yn annibynnol ac yn gallu esbonio eu dewis yn eu geiriau eu hunain. Byddant yn dangos gwybodaeth o fwy o nodweddion, *e.e. teitlau, penawdau a lluniau*, ac yn defnyddio nodweddion testun i leoli a deall gwybodaeth benodol. |
| **Deilliant 6** | adnabod gwahanol bwrpasau a nodweddion testunau a sut y cânt eu trefnu, cip-ddarllen y cynnwys a dewis testunau ar sail eu hanghenion. | defnyddio testunau'n bwrpasol i gasglu gwybodaeth a defnyddio eu dealltwriaeth o nodweddion testun, *e.e. rhestrau, pwyntiau wedi'u rhifo, nodweddion diagramau ar-sgrin, penawdau bariau offer a bariau ochr.* Byddant yn deall gwahanol bwrpasau testunau, *e.e. ar gyfer adloniant neu adroddiad newyddion,* ac yn eu defnyddio yn unol â hynny. |

# Llafaredd – Cydweithredu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu sut mae plant yn cydweithio a sut maent yn cyfathrebu eu syniadau, eu teimladau a'u barn. Mae datblygiad yn y sgiliau hyn yn bwysig gan fod cysylltiad agos rhwng llawer o sgiliau eraill o fewn y Cyfnod Sylfaen a datblygiad yng ngallu plant i gydweithredu a mynegi eu dewisiadau a'u barn. Gall y graddau y mae plant yn gweithredu fel 'gwrandawyr' a'r graddau y maent yn gweithredu fel 'athrawon' amrywio ar draws gwahanol weithgareddau, felly mae'n bwysig arsylwi arnynt mewn amrywiaeth o gyd-destunau er mwyn penderfynu i ba raddau y maent yn cydweithredu ac yn cyfrannu at dasgau. Er enghraifft, gallai plentyn sy'n hyderus wrth wneud modelau arwain un gweithgaredd, ond gallai fod yn fwy cyndyn i gynnig syniadau mewn gweithgaredd lle mae'n llai hyderus. Nid yw'n anarferol i gylchoedd cynnar o gyfeillgarwch fod ag aelod blaenllaw sy'n fwy hyderus neu'n fwy penderfynol na'i ffrindiau, ac a all gyfrannu mwy at y trafodaethau.

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Efydd** | dangos diddordeb yn yr hyn sy'n digwydd o'u cwmpas. Maent yn dechrau ac yn stopio cyswllt llygad yn ystod rhyngweithio cymdeithasol. | edrych am gyfnod parhaus o amser (o leiaf ychydig funudau) weithiau tuag at bobl sy'n gwneud pethau gerllaw, gan wylio eu gweithrediadau. Maent yn gwneud cyswllt llygad yn fwriadol. |
| **Arian** | dangos diddordeb mewn gweithgareddau grŵp a arweinir gan oedolion neu blant hŷn. Maent yn symud o sylw rhwng pethau o ddiddordeb, gan ddangos, yn syml, yr hyn y maent yn ei hoffi a'r hyn nad ydynt yn ei hoffi. | symud, weithiau, tuag at weithgaredd grŵp (megis canu, clapio neu ddawnsio) a gwylio am o leiaf ychydig funudau ar y tro. Maent yn rhoi sylw i wahanol wrthrychau a phobl yn ystod chwarae un i un. Byddant yn ymateb yn syml i'r gwrthrychau neu'r bobl gan ddefnyddio synau neu eiriau syml, *e.e. 'Na'*, neu ystum. |
| **Aur** | ymuno mewn gweithgareddau grŵp a arweinir gan oedolion neu blant hŷn. Maent yn ymateb ar lafar gan ddefnyddio termau syml. | ymuno â gweithgareddau grŵp fel unigolyn heb gydweithio ag aelodau eraill o'r grŵp, *e.e. clapio i gân heb dalu sylw i blant eraill yn y grŵp*. Efallai y byddant yn mynegi yr hyn y maent yn ei hoffi a'r hyn nad ydynt yn ei hoffi gan ddefnyddio geiriau priodol i gyfleu ystyr, *e.e. 'Eisiau llaeth'*. |
| **Deilliant 1** | dechrau cymryd rhan mewn gweithgareddau ochr yn ochr ag oedolion neu blant eraill. Maent yn dechrau dangos chwilfrydedd mewn ysgogiadau ac yn mynegi mwynhad neu ddiddordeb. | ymuno â gweithgareddau grŵp ac yn dechrau dangos diddordeb mewn plant eraill sy'n cymryd rhan yn y gweithgaredd. Maent yn cymryd rhan yn bennaf fel unigolion yn hytrach nag ymgysylltu â phlant eraill yn y gweithgaredd. Byddant yn dweud beth maent yn ei hoffi a beth nad ydynt yn ei hoffi ar adegau ond efallai na fydd hyn yn gyson, gan fod eu hwyliau presennol yn parhau i effeithio ar yr hyn y maent yn ei hoffi a'r hyn nad ydynt yn ei hoffi. |

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Deilliant 2** | cymryd rhan mewn trafodaethau a gweithgareddau ochr yn ochr ag oedolion neu blant eraill. Byddant yn ymateb i ysgogiadau creadigol, gan fynegi mwynhad neu ddiddordeb. Maent yn ailadrodd digwyddiadau neu brofiadau ac yn siarad am yr hyn y maent wedi'i wneud neu ei greu mewn termau syml. | cymryd rhan mewn gweithgareddau ochr yn ochr â phlant eraill a thrafod gweithgareddau yn syml. Maent yn ymateb i ysgogiadau creadigol trwy siarad, gan ddefnyddio geiriau, ymadroddion neu frawddegau syml. |
| **Deilliant 3** | cyfnewid syniadau a rhyngweithio ag eraill yn ystod gweithgareddau. Byddant yn ymateb i ysgogiadau creadigol, ailadrodd straeon, rhannu gwybodaeth a siarad am yr hyn y maent wedi ei wneud neu ei greu, ac yn mynegi'r hyn y maent yn ei hoffi a'r hyn nad ydynt yn ei hoffi. | cyfrannu at sgyrsiau a chyfnewid syniadau gyda phlant eraill, *e.e. gan wneud awgrymiadau ar gyfer adeiladu model, gofyn cwestiwn am yr hyn y mae plentyn arall yn ei wneud.* Gall eu rhyngweithio fod yn syml. Maent yn mynegi barn drwy siarad am yr hyn y maent yn ei hoffi a'r hyn nad ydynt yn ei hoffi. |
| **Deilliant 4** | siarad ag eraill yn ystod gweithgareddau ar y cyd ac yn ymateb iddynt hefyd. Maent yn ymestyn syniadau neu hanesion yn ymwneud â phynciau cyfarwydd trwy gynnwys rhai manylion, mynegi barn ac esbonio prosesau, gan ddangos ymwybyddiaeth o anghenion gwrandawyr. | siarad am yr hyn maent yn ei wneud gyda phlant eraill, gan gyfrannu at sgyrsiau ac ymateb i eraill. Byddant yn gweithio gyda'i gilydd ar yr un gweithgaredd, gan ddefnyddio eu sgwrs i gwblhau eu gwaith gyda'i gilydd. Gall eu sgwrs gael ei ymestyn gan ddefnyddio brawddegau cyflawn hirach i fynegi eu syniadau neu eu hanesion. Maent yn cymryd rhan mewn trafodaethau grŵp, gan ddangos ymwybyddiaeth o gonfensiynau neu anghenion eraill. |
| **Deilliant 5** | cyfrannu at drafodaethau a rhannu gweithgareddau a gwybodaeth i gwblhau tasgau. Maent yn dangos ymwybyddiaeth o anghenion gwrandawyr trwy gynnwys manylion perthnasol a mynegi barn a sôn yn fanwl am ystod ehangach o bynciau. | canolbwyntio ar y pwnc ac yn cydweithio ac yn rhannu gweithgareddau a gwybodaeth gyda phlant eraill, gan gymryd eu tro i siarad, i gyflawni nod cyffredin. Maent yn defnyddio sgiliau mynegiannol ar draws ystod ehangach o ysgogiadau ac yn ailadrodd straeon neu hanesion i gynulleidfaoedd gwahanol gan eu haddasu gan ddibynnu ar anghenion y gynulleidfa. Maent yn siarad am syniad, pethau y maent wedi eu creu neu eu gwneud ac yn esbonio prosesau yn fanwl gan ddefnyddio geirfa berthnasol. |
| **Deilliant 6** | defnyddio trafodaeth, syniadau a gwybodaeth yn bwrpasol i gwblhau tasg. Maent yn archwilio i syniadau, eu hesbonio a'u cyfleu, gan bwysleisio eu pwyntiau allweddol. | siarad cyn tasgau grŵp a thrwy gydol tasgau o'r fath i gyflawni nod cyffredin, yn hytrach na gwneud newidiadau wrth fynd ymlaen. Byddant yn siarad yn helaeth am syniadau ac ysgogiadau eraill o fewn eu profiad eu hunain, gan ddefnyddio iaith fynegiannol i helpu i bwysleisio pwyntiau allweddol. |

# Llafaredd – Lleferydd

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu rhuglder lleferydd plant sy'n sgil bwysig er mwyn i blant allu rhyngweithio â phlant eraill ac oedolion. Efallai y bydd ymarferwyr yn sylwi wrth iddynt olrhain y sgil hwn y gall plant fynd trwy gyfnodau o ddiffyg rhuglder ar unrhyw oedran ac y gall y cyfnodau hyn bara diwrnodau neu ychydig wythnosau cyn dychwelyd i'w lefel gallu flaenorol. Gall fod adegau pan y gall plant fod yn rhugl ac yn eiriol, a'r rhain yn cael eu dilyn gan adegau pan fydd plant yn betrusgar wrth siarad, a allai fod yn gysylltiedig â'u lles emosiynol neu'n ymwneud â'u hyder yn y pwnc/syniad arbennig sy'n cael ei drafod. Mae cyfnodau byr o dynnu'n ôl fel hyn yn arferol i blant, ond gallant godi pryder os ydynt yn para mwy nag ychydig wythnosau neu os yw'n ymddangos eu bod yn gysylltiedig â mater sy'n ymwneud â'u lles.

Gellir gwneud arsylwadau trwy lawer o weithgareddau, ac o oedran cynnar bydd y rhain fel arfer yn cynnwys sgyrsiau un i un a grwpiau bach. Wrth i blant ddatblygu, gellir gweld y sgiliau hyn yn aml trwy ryngweithio ag oedolion, siarad â'r dosbarth, mewn gweithgareddau grŵp ac mewn perfformiadau.

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Efydd** | ailadrodd synau syml. | arbrofi gyda nifer bach o synau syml, yn aml yn rhai cytsain-llafariad, neu gytsain-llafariad-cytsain. Efallai y bydd y synau'n cyfleu ystyr i oedolion cyfarwydd yn unig. |
| **Arian** | defnyddio rhai geiriau syml sy'n ddealladwy i oedolion cyfarwydd. | defnyddio dau air gyda'i gilydd mewn ffordd ystyrlon, gydag oedolyn cyfarwydd yn gallu dyfalu'r ystyr. |
| **Aur** | bod yn fwy dealladwy i oedolion cyfarwydd ac anghyfarwydd, gan gynnwys defnyddio brawddegau syml. | defnyddio ynganu sy'n ddealladwy yn gonfensiynol. Byddant yn defnyddio dau neu dri gair i siarad am bethau a gofyn am bethau yn ddigon eglur i gael eu deall gan oedolyn. |
| **Deilliant 1** | defnyddio brawddegau syml sy'n cael eu deall gan eraill ar y cyfan. | defnyddio brawddegau syml (brawddegau gyda phedwar gair neu fwy) a fydd yn cael eu deall fel arfer gan oedolion y tu allan i'r teulu. |
| **Deilliant 2** | siarad yn glir â phlant eraill ac oedolion cyfarwydd. | siarad yn glir â phobl gyfarwydd. Efallai na fydd eu lleferydd yn ddigon eglur i gael ei ddeall gan bobl anghyfarwydd, neu gall fod yn ddistaw. Bydd plant sy'n gallu gwahaniaethu rhwng gwahanol synau amgylcheddol, *e.e. lleferydd, sŵn cefndir, a'r awyr agored, ac ati*, yn gallu cyfleu eu hunain yn glir yn well. |
| **Deilliant 3** | siarad yn glir ac yn glywadwy gyda hyder ac eglurder cynyddol, a'r rhan fwyaf o synau a geiriau'n cael eu hynganu'n gywir. | cyfathrebu ag eraill, oedolion a phlant sy'n gyfarwydd iddynt fel arfer. Bydd llawer o synau a geiriau yn cael eu hynganu'n gywir. Yn aml, bydd plant sy'n gallu adnabod synau cychwynnol yn lleferydd pobl eraill yn gallu siarad yn eglurach eu hunain. |

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Deilliant 4** | siarad yn glir ac yn glywadwy gan gyfleu ystyr i amrywiaeth o wrandawyr. | magu hyder fel siaradwyr ac yn dechrau cyfathrebu â gwrandawyr y tu hwnt i'w cylch o ffrindiau. Po fwyaf o synau y gallant eu hadnabod yn lleferydd pobl eraill, y rhwyddaf y byddant yn gallu siarad yn eglur eu hunain. |
| **Deilliant 5** | siarad yn glir ag ystod ehangach o gynulleidfaoedd gyda mwy o hyder a rhuglder. | magu hyder wrth siarad ag eraill y tu allan i'w gylch cydnabod agos. |
| **Deilliant 6** | siarad yn glir ag ystod eang o gynulleidfaoedd, gan ddefnyddio tôn a goslef ac addasu'r iaith a ddefnyddir ar gyfer sefyllfaoedd penodol. | defnyddio iaith sy'n briodol i sefyllfaoedd mwy ffurfiol, *e.e. wrth siarad â gwestai yn yr ysgol*. Byddant yn defnyddio tôn a goslef wahanol ar gyfer sefyllfaoedd gwahanol. |

# Llafaredd – Siarad a chwarae

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu sut y mae plant yn defnyddio sgwrs trwy ystod o fathau o chwarae, gan gynnwys chwarae dychmygus a chwarae rôl. Mae arsylwi ar blant yn chwarae yn rhoi darlun o'u gallu i feddwl mewn ffyrdd haniaethol a chreadigol, eu meddyliau, eu teimladau a'u profiadau diwylliannol. Mae arsylwi ar gyfer y sgiliau o fewn y ffrâm sgil hon yn fwyaf tebygol o ddigwydd yn ystod gweithgareddau chwarae rôl a chwarae dychmygus, a byddant yn digwydd yn ddigymell ac yn annibynnol yn aml. Mae chwarae rôl yn datblygu trwy ddynwared sefyllfaoedd syml y maent wedi eu gweld, e.e. coginio, siopa, ac ati, i ailadrodd straeon mewn modd dychmygus neu eu chwarae rôl greadigol eu hunain.

Efallai y bydd ymarferwyr hefyd yn sylwi bod plant yn archwilio emosiynau o fewn eu chwarae, gan roi cyfarwyddiadau i'w gilydd megis "Dychmyga dy fod di'n drist" ond dylent gadw mewn cof bod chwarae dychmygus yn aml yn cyrraedd uchafbwynt pan fydd plant yn teimlo nad yw oedolion yn eu gwylio.

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Efydd** | archwilio gwrthrychau cyffredin. | cyffwrdd, rhoi yn eu ceg a tharo gwrthrychau fel cwpan blastig neu frwsh gwallt. Nid ydynt yn defnyddio'r gwrthrychau i bwrpas eto. |
| **Arian** | defnyddio gwrthrychau cyffredin i bwrpas. | defnyddio brwsh gwallt i frwsio eu gwallt neu ddefnyddio weip ar wyneb doli. |
| **Aur** | dynwared arferion cyfarwydd, gan ddefnyddio gwrthrychau cyffredin i bwrpas. | dynwared gweithgareddau bob dydd. Byddant yn defnyddio gwrthrychau a theganau ar gyfer eu defnydd disgwyliedig, *e.e. efallai y byddant yn ysgubo'r llawr gyda brwsh, bwydo dol â llwy, neu roi cwpanau o 'de' i oedolion*. Gallai eu dilyniannau chwarae gael eu cychwyn gan oedolyn. |
| **Deilliant 1** | dynwared profiadau go iawn a phrofiadau dychmygol byr drwy chwarae. Maent yn defnyddio siarad mewn chwarae symbolaidd. | actio dilyniannau chwarae symbolaidd dau- neu dri-cham gan ddefnyddio gwrthrychau ffug, *e.e. gallent 'yrru' carreg gan esgus ei fod yn gar, ac wedyn 'parcio'r' garreg mewn garej, yn gwneud sŵn fel car pan maent yn gwneud*. Gallai eu dilyniannau chwarae gael eu cychwyn gan oedolyn. |
| **Deilliant 2** | dynwared profiadau go iawn a phrofiadau dychmygol o fewn chwarae. Maent yn defnyddio siarad priodol mewn chwarae symbolaidd. | actio dilyniannau o fywyd go iawn neu'r teledu; ni fyddant yn actio sefyllfaoedd nad ydynt erioed wedi eu gweld o'r blaen eto. Bydd plant eraill yn cael eu cynnwys yn y chwarae fel arfer. Maent yn defnyddio siarad mewn chwarae symbolaidd. |
| **Deilliant 3** | dynwared profiadau go iawn a dychmygus gan ddefnyddio ychydig o iaith berthnasol. Maent yn defnyddio siarad i greu rhediad stori mewn chwarae symbolaidd a dychmygus. | cynllunio, siarad am eu chwarae rôl a'i ddatblygu yn hytrach na dim ond copïo bywyd go iawn neu'r teledu. Maent yn defnyddio siarad i greu rhediad stori mewn chwarae creadigol a dychmygus. Byddant yn defnyddio geirfa sy'n fwyfwy perthnasol yn eu chwarae. |

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Deilliant 4** | mabwysiadu rolau go iawn neu ddychmygus gan ddefnyddio iaith briodol. | actio rhannau a all gyfuno eu profiadau eu hunain â sefyllfaoedd dychmygus. Gallai'r rôl a fabwysiadir newid yn ystod y sefyllfa ddychmygus, ond bydd yn gyson ar y cyfan. Fel arfer byddant yn defnyddio iaith sy'n briodol i'r sefyllfa y maent yn ei chreu. |
| **Deilliant 5** | actio rolau penodol go iawn neu ddychmygus, gan ddefnyddio iaith briodol. | actio rolau penodol a all gyfuno eu profiadau eu hunain â sefyllfaoedd dychmygus. |
| **Deilliant 6** | cynnal rolau penodol go iawn neu ddychmygus, gan ddefnyddio iaith briodol. | helpu eraill i actio dilyniannau estynedig sy'n cyfuno eu profiadau eu hunain â sefyllfaoedd dychmygus. Byddant yn gallu cynnal y rôl drwy gydol y sesiwn chwarae rôl. |

# Darllen – Deall

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu dealltwriaeth plant o destunau ysgrifenedig sy'n ffurfio rhan o'u gallu i esbonio cynnwys deunyddiau ysgrifenedig. Mae dealltwriaeth gynnar yn digwydd cyn y gall plant ddarllen testun yn annibynnol, gyda dealltwriaeth yn cael ei chefnogi gan ddefnydd oedolion o gwestiynau, lluniau a chwarae rôl sy'n dod o'r stori, e.e. chwarae'r 'Tri Bwch Gafr'.

Wrth i blant ddechrau rhyngweithio â thestunau gyda mwy o wybodaeth ynddynt, bydd plant yn gwneud cysylltiadau hefyd rhwng gwahanol destunau ar yr un pwnc neu thema. Mae cynnydd ar y ffrâm sgil hon yn dibynnu ar blant yn datblygu eu hymwybyddiaeth o wahanol ffynonellau gwybodaeth ac y gellir cael mwy nag un farn am yr un peth. Mae'r ymwybyddiaeth gynyddol o fywyd y tu hwnt i'w profiadau uniongyrchol eu hunain hefyd yn hanfodol i brosesu gwybodaeth o destunau.

Mae trafod ystod eang o genres gan gynnwys straeon, testunau gwybodaeth a cherddi i gyd yn rhoi cyfleoedd da i blant ddangos eu dealltwriaeth.

| | **Mae plant yn gallu:** | **Gellir arsylwi ar blant yn:** |
|---|---|---|
| **Efydd** | dangos diddordeb mewn llyfrau lluniau syml. | pwyntio at luniau cyfarwydd, *e.e. tedi*, mewn adnoddau darllen cynnar megis llyfrau lluniau, matiau lluniau neu lyfrau bath pan fydd oedolyn cyfarwydd yn siarad am y delweddau. |
| **Arian** | dangos diddordeb mewn llyfrau lluniau neu gyffyrddol a deunyddiau a ddarllenir iddynt. | ymddiddori'n bwrpasol mewn llyfrau lluniau syml neu straeon gan eistedd i lawr a chymryd sylw neu wrando ar stori. Gallant ddangos gwerthfawrogiad o lyfrau trwy ystumiau neu ymateb ar lafar a gwthio'r llyfr i ffwrdd neu ddweud 'na' os nad ydynt yn ei hoffi. |
| **Aur** | dewis hoff lyfrau a deunyddiau a'u hadnabod yn ôl sut y maent yn edrych. | dangos eu bod yn adnabod stori gyfarwydd, *e.e. ymuno mewn rhan gyfarwydd.* |
| **Deilliant 1** | dilyn testunau a ddarllenir iddynt a dechrau cynnig ychydig o wybodaeth am destunau cyfarwydd. | ymateb trwy ystumio neu trwy ymateb ar lafar i destunau a all fod yn gyfarwydd neu'n newydd iddynt, *e.e. 'stori neis'*. Efallai na fyddant bob amser yn ymddiddori mewn llyfr os oes pethau eraill i dynnu eu sylw. |
| **Deilliant 2** | galw i gof manylion testunau, dechrau gwneud cysylltiadau syml â'u profiadau eu hunain ac ymateb mewn ffordd briodol. | galw i gof manylion stori neu destun, gan ateb cwestiynau penagored neu gyfeirio at ysgogiadau darluniol. Byddant yn dangos dealltwriaeth o'r gwahaniaeth rhwng ffuglen a bywyd go iawn os oes cysylltiad syml a chlir, *e.e. 'Mae ci gyda fi hefyd'*, a dangos dealltwriaeth trwy siarad am 'beth all ddigwydd nesaf'. Byddant yn ymateb yn syml ac yn briodol i lyfrau lluniau a thestunau, *e.e. syndod neu guro dwylo os ydynt yn hapus.* |

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Deilliant 3** | ailadrodd straeon cyfarwydd mewn ffyrdd syml. Maent yn adnabod gwybodaeth o destunau gan ddefnyddio geiriau a nodweddion gweledol, ac yn gwneud cysylltiadau â phrofiadau personol. | adnabod geiriau a lluniau mewn llyfrau ac ar sgrin, gan ddefnyddio lluniau i gynorthwyo dealltwriaeth o destun, a bod yn fwy hyderus wrth edrych ar destunau anghyfarwydd. Maent yn dangos dealltwriaeth o gysylltiadau syml rhwng ffuglen neu wybodaeth a syniadau a bywyd go iawn, *e.e. 'Roedd hi'n bwrw glaw ddoe fel yn y stori'*, neu trwy ragweld diwedd i straeon. |
| **Deilliant 4** | ailadrodd digwyddiadau o naratifau yn y drefn gywir. Byddant yn galw i gof wybodaeth mewn testunau, gan ddefnyddio profiadau personol i gefnogi eu dealltwriaeth. | archwilio iaith, gwybodaeth a digwyddiadau mewn testunau, gan adnabod gwybodaeth yn y broses. Byddant yn galw i gof manylion o destunau gwybodaeth ac yn defnyddio profiadau personol i helpu eu dealltwriaeth a'u barn am y cynnwys. Maent yn siarad am brofiadau personol sy'n gysylltiedig â'r cynnwys. |
| **Deilliant 5** | esbonio manylion perthnasol o destunau a galw i gof ac ailadrodd naratifau a gwybodaeth gan dynnu ar brofiadau personol, gwybodaeth flaenorol a gwybodaeth newydd i gefnogi dealltwriaeth. | cyflawni gwahanol elfennau'r sgil hwn yn briodol mewn ymateb i wahanol destunau. Byddant yn dechrau dangos agwedd fwy soffistigedig yn eu dealltwriaeth a'u hymatebion, gan adnabod pa wybodaeth o destun neu ba brofiad personol sy'n berthnasol i'w hesboniad. Byddant yn dangos y gallu i addasu trwy wneud cysylltiadau rhwng testunau a ddarllenwyd a gwybodaeth newydd am bwnc, a gallant drefnu'r wybodaeth a gasglwyd o destunau. Bydd plant yn mynegi barn am wybodaeth a syniadau ac yn mynegi barn am iaith, gwybodaeth a digwyddiadau mewn testunau. |
| **Deilliant 6** | adnabod pwnc a phrif syniadau testunau, gan ddarganfod gwybodaeth trwy wneud cysylltiadau rhwng testunau a defnyddio gwybodaeth y tu hwnt i'w profiad personol. | adnabod pwnc/thema testunau yn ogystal â'r syniadau yn y testun ei hun, gan ymateb ar lafar ac yn ysgrifenedig. Byddant yn dechrau dangos agwedd fwy soffistigedig yn eu dealltwriaeth ac ymatebion, gan ddeall yr hyn sy'n cyfateb a'r hyn nad yw'n cyfateb â'u profiadau eu hunain a phrofiadau pobl eraill o destun. Byddant yn dangos y gallu i addasu trwy wneud cysylltiadau rhwng testunau a ddarllenwyd a gwybodaeth newydd am bwnc. Bydd plant yn mynegi barn am wybodaeth a syniadau mewn testunau, gan ddeall eu bod wedi cael eu haddasu ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd. |

# Darllen – Darllen geiriau

Mae’r ffrâm sgil hon yn asesu gallu plant a sut y maent yn ymdrin â darllen geiriau. Bydd plant yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau darllen â chymorth wrth iddynt ddatblygu eu galluoedd i ddadgodio geiriau anghyfarwydd, gan gydnabod hefyd nifer cynyddol o eiriau aml eu defnydd. Bydd y ffrâm sgil hon yn dangos datblygiad plant o ran defnyddio gwahanol strategaethau darllen er mwyn darllen llythrennau, geiriau, ymadroddion a brawddegau. Bydd plant yn dechrau trwy ddibynnu ar giwiau gweledol i ’ddarllen’ o lun, a bydd y ddibyniaeth ar y ciwiau gweledol hyn yn lleihau wrth iddynt wneud cynnydd. Bydd cyflymdra a rhuglder darllen yn cynyddu wrth i eirfa’r plant gynyddu.

Fel arfer bydd arsylwadau’n digwydd yn ystod asesiadau darllen â chymorth un i un, ac ar gamau diweddarach trwy ddarllen gwaith creadigol gyda mynegiant. Dylid sicrhau bod llythrennau, rhifolion a geiriau i’w gweld mewn lle amlwg yn yr amgylchedd dan do ac awyr agored.

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Efydd** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Arian** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Aur** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Deilliant 1** | dechrau adnabod y gwahaniaeth a’r tebygrwydd mewn lluniau, siapiau, patrymau a gweadau. | siarad am luniau mewn llyfrau, yn ogystal â siapiau, patrymau a gweadau mewn adnoddau neu yn yr amgylchedd. Gallant ddangos neu adnabod llythyren gyntaf eu henw, *e.e. sylwi os yw yn yr amgylchedd neu mewn llyfr.* |
| **Deilliant 2** | cydnabod y gwahaniaeth a’r tebygrwydd mewn gwrthrychau ac ysgogiadau gweledol a chyffyrddol, a chysylltu gwrthrychau a delweddau â rhai synau llafar cychwynnol. | cysylltu rhai ffonemau cychwynnol â gwrthrychau a delweddau a siarad amdanynt. Byddant yn gallu paru siapiau, patrymau a gweadau a gwahaniaethu rhwng print a lluniau. Bydd plant yn adnabod geiriau cyfarwydd, *e.e. eu henwau eu hunain a phrint sydd i’w weld yn yr amgylchedd.* |
| **Deilliant 3** | cydnabod bod geiriau wedi’u ffurfio o ffonemau a bod y rhain wedi’u cynrychioli gan graffemau. Byddant yn darllen rhai geiriau cyfarwydd, syml gan ddefnyddio strategaethau gyda chymorth ac yn dangos ymwybyddiaeth o atalnodi syml. | gwybod y rhan fwyaf o’r graffemau llythrennau bach a byddant yn gallu eu defnyddio i gyfuno a segmentu cyfuniadau o lythrennau a wyddys. Byddant yn adnabod geiriau cyfarwydd a syml, gan gynnwys geiriau aml eu defnydd, geiriau cyfarwydd a chytsain-llafariad-cytsain, *e.e. mam, dad, cath neu gi*. Gyda chymorth oedolyn, byddant yn defnyddio’r strategaethau darllen canlynol: strategaethau ffoneg i ddadgodio geiriau syml, adnabod geiriau aml eu defnydd, cliwiau cyd-destun, *e.e. lluniau, synau cychwynnol*, ailadrodd mewn testun a chyfatebiaeth un i un rhwng y gair ysgrifenedig a’r gair llafar. Bydd plant yn dangos ymwybyddiaeth o briflythrennau ac atalnodau llawn wrth ddarllen yn uchel, gan aros a dilyn print yn briodol. |

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Deilliant 4** | adnabod geiriau cyfarwydd a defnyddio strategaethau i ddatgodio geiriau anghyfarwydd, dilyn print gyda'u llygaid a darllen atalnodi gyda mynegiant. | defnyddio amrywiaeth o strategaethau wrth ddarllen gan gynnwys cyfuno geiriau cytseiniol cyfagos, *e.e. cath a coch*, gan ddilyn print gyda'u llygaid a phwyntio at eiriau anodd, strategaethau ffoneg i ddadgodio geiriau (segmentu ffonemau, llythrennau cychwynnol ac odl), adnabod geiriau aml eu defnydd (gan gynnwys geiriau cyfarwydd), cliwiau cyd-destun, *e.e. gwybodaeth flaenorol,* cliwiau graffig a chystrawennol, hunangywiro, gan gynnwys ailddarllen a darllen ymlaen. Bydd atalnodi, gan gynnwys gofynodau, dyfynodau ac ebychnodau yn cael eu darllen gyda mynegiant. Bydd plant yn dangos dealltwriaeth o atalnodi drwy newid goslef neu gyflymdra eu darllen. |
| **Deilliant 5** | defnyddio amrywiaeth o strategaethau wrth ddarllen testunau anghyfarwydd addas i ddeall yr ystyr, dilyn print yn fwy cyflym gyda chywirdeb, rhuglder a phwyslais cynyddol. | adnabod llawer iawn o eiriau wrth eu gweld a chyflymder y darllen yn gwella. Mae'r strategaethau a ddefnyddir yn cynnwys: strategaethau ffoneg, gan ddefnyddio pob ffonem a'u graffemau cyfatebol wrth gyfuno a segmentu geiriau dwy sillaf a thair sillaf, adnabod geiriau aml eu defnydd, cliwiau cyd-destun, *e.e. gwybodaeth flaenorol*, cliwiau graffig a chystrawennol, hunangywiro, gan gynnwys ailddarllen a darllen ymlaen. Bydd y plant yn gwneud ymdrech bwriadol i amseru eu lleferydd, defnyddio goslef gywir ar gyfer gofynodau, ebychnodau, a byddant yn amrywio eu llais wrth ddarllen testun mewn dyfynodau. |
| **Deilliant 6** | darllen yn annibynnol a defnyddio strategaethau priodol i ddeall yr ystyr, darllen yn rhugl a gyda mynegiant. | darllen yn annibynnol gan ddefnyddio strategaethau gan gynnwys: defnyddio gwybodaeth o wreiddiau a theuluoedd geiriau, gramadeg, strwythur brawddegau a thestunau cyfan, cynnwys a chyd-destun i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan, defnyddio darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagweld er mwyn cip-ddarllen testunau i gael hanfod yr ystyr, syniadau a themâu allweddol, a chwilio am wybodaeth fanwl. Bydd plant yn defnyddio atalnodi gyda chywirdeb cynyddol i ddarllen yn uchel gyda mynegiant. |

# Ysgrifennu – Llawysgrifen

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu llawysgrifen plant. Mae eu llawysgrifen yn datblygu wrth iddynt ddilyn eu hawydd naturiol i wneud ystyr o'r byd o'u cwmpas trwy farciau, llythrennau ac yn y diwedd geiriau. Bydd plant yn defnyddio eu profiadau o siarad ag oedolion a chyfoedion cyfarwydd, darllen, darlunio a'u hawydd i gymryd rhan mewn gweithgareddau ysgrifenedig i gyfathrebu. Gellir arsylwi ar ysgrifennu cynnar trwy wneud marciau â phaentiau, creonau, lluniau yn y tywod, gan symud o wneud marciau i lawysgrifen. Mae'r ffrâm sgil hwn yn datblygu ochr yn ochr â'r Maes Dysgu Datblygiad Corfforol, yn arbennig 'Llawdrin manwl' a 'Dal offeryn gwneud marciau'.

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Efydd** | arbrofi gyda gwneud marciau heb bwrpas. | gwneud marciau ond nid ydynt yn eu creu â phwrpas, e.e. *rhoi eu bysedd trwy baent bys.* |
| **Arian** | dechrau arbrofi gyda gwneud marciau â phwrpas | gwneud marciau heb offer, yn eu creu â phwrpas, e.e. *paentio bysedd, camu mewn pyllau i greu olion traed.* |
| **Aur** | arbrofi gyda gwneud marciau yn bwrpasol, gan ddechrau defnyddio offer gyda'r naill law neu'r llall. | defnyddio brwshys, creonau, paentio bysedd, ac ati i wneud marciau gan ddefnyddio'r naill law neu'r llall. |
| **Deilliant 1** | arbrofi gyda gwneud patrymau sy'n debyg i ysgrifen. | defnyddio brwshys, creonau, paentio bysedd, ac ati i wneud marciau a byddant yn dechrau dangos bod yn well ganddynt ddefnyddio eu llaw dde neu chwith trwy ddefnyddio eu llaw arall am gyfnod byr yn unig, efallai i gyrraedd rhan arall o'r arwynebedd. Byddant yn tynnu siapiau a symbolau yn bwrpasol, e.e. *dotiau a llinellau sy'n wynebu ffyrdd gwahanol a phatrymau crwn*. |
| **Deilliant 2** | arbrofi gydag amrywiaeth o offerynnau gwneud marciau a defnyddiau ar draws amrywiaeth o gyd-destunau. Maent yn ysgrifennu llythrennau neu symbolau ar hap, gan ddangos dealltwriaeth o gyfeiriad print ysgrifenedig. | dechrau ysgrifennu rhai llythrennau a rhifau a all gyd-berthnasu â synau, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau, e.e. *papur, ar sgrin, yn y tywod.* Gall eu sgribladau gynnwys rhai llythrennau a rhifau a wyddys. |
| **Deilliant 3** | cydnabod natur a, b, c ysgrifennu ac ysgrifennu llythrennau a geiriau ac ymadroddion syml, gan ysgrifennu o'r chwith i'r dde. | gwahaniaethu rhwng llythrennau, defnyddio eu gwybodaeth ffoneg i ysgrifennu llythrennau a geiriau/ymadroddion syml, e.e. *o'r amgylchedd neu eiriau aml eu defnydd*. Byddant yn ysgrifennu'n gyson o'r chwith i'r dde wrth gynhyrchu darnau o ysgrifennu cynnar. |
| **Deilliant 4** | ysgrifennu geiriau, ymadroddion a llythrennau, gan ffurfio priflythrennau a llythrennau bach sydd fel arfer â siâp clir ac wedi eu cyfeiriadu'n gywir. | ffurfio priflythrennau a llythrennau bach unigol sydd wedi eu hysgrifennu'n glir ac yn gywir. Efallai na fydd llythrennau'n dangos meintiau cywir rhwng priflythrennau a llythrennau bach, ond bydd y mwyafrif yn dilyn 'llinell sylfaenol' ac wedi'u cyfeiriadu'n gywir. |

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Deilliant 5** | ysgrifennu geiriau, ymadroddion a llythrennau, gan ffurfio priflythrennau a llythrennau bach yn gywir, gyda maint a chyfeiriadedd cyson. | ffurfio llythrennau'n gywir a gyda maint a chyfeiriadedd cyson y rhan fwyaf o'r amser. Ni fydd gwallau i'w gweld yn aml ar y cam hwn. |
| **Deilliant 6** | cynhyrchu llawysgrifen ddealladwy sy'n debyg i'r llawysgrifen a fodelir gan oedolyn. | ffurfio llythrennau'n gywir ac yn gyson y gall y rhan fwyaf o ddarllenwyr eu darllen. Byddant yn gallu cynhyrchu llawysgrifen briodol wedi'i modelu gan ymarferydd. |

# Ysgrifennu – Sillafu

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu gallu plant mewn adeiladu geiriau a sillafu. Mae sillafu wedi'i gysylltu â'r sgiliau ffoneg sy'n datblygu trwy ddysgu darllen, a bydd plant yn aml yn arbrofi ar lafar â synau yn y camau cyntaf o geisio sillafu geiriau. Wedyn maent yn dysgu sut i droi'r iaith lafar yn ffurf weledol trwy ysgrifennu symbolau ar wyneb ysgrifennu. Yn y camau cynnar, bydd plant yn arbrofi gyda sillafiadau ffonetig posibl o eiriau byr a syml. Mae'r arbrofi hwn yn helpu plant i ddeall y gwahanol ffyrdd y gall llythrennau swnio ac ni ddylai fod yn achos pryder oni bai bod plentyn yn defnyddio sillafiadau ffonetig yn barhaus os yw'n ansicr am air. Nid yw'n anarferol i blentyn ddrysu rhwng synau a siapiau llythrennau ar y cychwyn.

Wrth i sgiliau sillafu ddatblygu, bydd plant yn dechrau defnyddio strategaethau sillafu gyda mwy o annibyniaeth i sillafu geiriau hirach neu anghyfarwydd. Hyd yn oed tua diwedd y Cyfnod Sylfaen, weithiau gall plant gamsillafu geiriau y byddant yn eu sillafu'n gywir fel arfer, trwy ddiffyg canolbwyntio er enghraifft, ond ni ddylai hyn fod yn bryder ar yr amod eu bod yn defnyddio strategaethau i ddadgodio geiriau anghyfarwydd yn dda.

Gellir gwneud arsylwadau trwy unrhyw weithgaredd lle mae'r plant yn gwneud marciau ac ysgrifennu. Mae'r ffrâm sgil hon yn datblygu ochr yn ochr â gallu plant i ddarllen, sy'n cael ei olrhain gan y ffrâm sgil 'Darllen – Darllen geiriau'.

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Efydd** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Arian** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Aur** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Deilliant 1** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Deilliant 2** | nodi rhai synau llythrennau drwy archwilio eu siâp. | dechrau sylwi ar y print o'u cwmpas ac archwilio siapiau llythrennau gan ddefnyddio ffurfiau llythrennau cyffyrddol a gweithgareddau chwarae amlsynhwyraidd, *e.e. darnau jig-so mawr neu lythrennau ffabrig cyffyrddol*. Gall plant siarad am siâp llythrennau a'r rhai a welir yn eu henw. Efallai y byddant yn dangos siapiau llythrennau ar hap yn eu 'hysgrifennu', heb roi cynnig ar air cyfan. |
| **Deilliant 3** | gwahaniaethu rhwng llythrennau ac yn defnyddio cytseiniaid cychwynnol yn gywir ac maent yn dechrau defnyddio strategaethau sillafu i sillafu geiriau llafariad-cytsain, geiriau cytsain-llafariad-cytsain a geiriau aml eu defnydd. | sillafu geiriau cyfarwydd a geiriau aml eu defnydd y rhan fwyaf o'r amser. Byddant yn defnyddio strategaethau megis cyfatebiaeth sŵn-symbol, segmentu llafar, synau cyfarwydd mewn geiriau llafariad-cytsain a chytsain-llafariad-cytsain a gwybodaeth ffoneg i gael hyd i'r gytsain gyntaf gywir er mwyn gwybod sut i sillafu gair anghyfarwydd. |

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Deilliant 4** | defnyddio amrywiaeth o strategaethau sillafu gan gynnwys ymwybyddiaeth ffonolegol ar gyfer geiriau sy'n rheolaidd yn ffonolegol a strategaethau gwahaniaethu gweledol ar gyfer geiriau aml eu defnydd. | defnyddio strategaethau megis cyfatebiaeth sŵn-symbol, segmentu llafar, gwybodaeth ffoneg, geiriaduron lluniau, matiau sillafu ac adnoddau eraill, er mwyn sillafu geiriau hirach yn gywir yn amlach na pheidio. Gallant ddefnyddio rhai cyfuniadau a deugraffau yn gywir. Mae geiriau aml eu defnydd hirach hefyd yn cael eu sillafu'n gywir fel arfer. Gall plant glywed y synau unigol o fewn geiriau a gallant sillafu rhai geiriau llafariad hir yn gywir, *e.e. cân*, ond byddant yn rhoi cynnig ar batrymau gwahanol os na fyddant yn sicr, *e.e. ysgrifennu 'llun' ar gyfer 'llyn'.* |
| **Deilliant 5** | defnyddio gwybodaeth o sillafau i sillafu geiriau amlsillafog ac aml eu defnydd gan gynnwys rhai ôl-ddodiaid syml. | defnyddio strategaethau sillafu megis segmentu, gwreiddiau syml ac ôl-ddodiaid, *e.e. -io, -odd, -wch*. Mae geiriau amlsillafog yn cael eu sillafu'n gywir fel arfer. |
| **Deilliant 6** | defnyddio strategaethau sillafu i sillafu geiriau aml eu defnydd, amlsillafog a geiriau lluosog yn gywir. | defnyddio strategaethau gan gynnwys gwybodaeth o deuluoedd a gwreiddiau geiriau, morffoleg a gwybodaeth graffig i sillafu'r rhan fwyaf o eiriau amlsillafog cyffredin a phob gair aml ei ddefnydd yn gywir. Bydd hyn yn cynnwys rhai ffurfiau lluosog, *e.e. -au, -iaid, -od.* |

# Ysgrifennu – Atalnodi a gramadeg

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu defnydd ysgrifenedig plant o atalnodi a gramadeg sy'n datblygu trwy sgiliau llafaredd ac yn cyfeirio at eu gallu cynyddol i ffurfio brawddeg ysgrifenedig yn gywir. Yn aml, mae ysgrifennu cynnar plant yn dechrau gydag awydd i labelu eu hymdrechion creadigol eu hunain yn hytrach na rhoi brawddeg at ei gilydd. Wrth ysgrifennu, bydd plant yn dechrau deall a defnyddio atalnodi er mwyn dangos bylchau rhwng brawddegau ar wahân. Gellir cefnogi hyn trwy fodelu brawddegau a dulliau megis dangos brawddegau wedi'u gwahanu'n glir mewn llyfrau lluniau. Wrth i'w gwybodaeth o atalnodi mynegiannol megis ebychnodau a gofynodau ddatblygu byddant yn dechrau eu defnyddio yn eu hysgrifennu i helpu i gyfleu ystyr.

Mae gramadeg ac atalnodi ysgrifenedig yn dilyn yn naturiol o ddatblygu gramadeg llafar strwythuredig. Caiff defnydd plant o ramadeg ysgrifenedig sy'n fwyfwy priodol ei ddylanwadu gan y gramadeg yn yr iaith y maent yn ei chlywed a'i darllen. Bydd angen i arsylwadau ar gyfer y ffrâm sgil hon fod o frawddegau ysgrifenedig ar gyfer y deilliannau uwch yn hytrach na labeli syml.

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Efydd** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Arian** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Aur** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Deilliant 1** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Deilliant 2** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Deilliant 3** | gwahaniaethu rhwng priflythrennau a llythrennau bach a dangos ymwybyddiaeth o atalnodau llawn a bylchau rhwng geiriau. | defnyddio bylchau rhwng geiriau a phriflythrennau ac atalnodau llawn, ond nid yn gywir bob amser. |
| **Deilliant 4** | dechrau defnyddio cysyllteiriau a rhai geiriau trefnu wrth ysgrifennu, a defnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn gyda graddfa o gysondeb. | dechrau defnyddio cysyllteiriau i ehangu pwynt, *e.e. Dw i'n hoffi ffrwythau a dw i'n hoffi bwyta llawer o rawnwin*. Yn amlach na pheidio, byddant yn defnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn yn gywir. Bydd rhai geiriau trefnu yn cael eu defnyddio, *e.e. cyntaf, wedyn*. |
| **Deilliant 5** | defnyddio cysyllteiriau a geiriau trefnu wrth ysgrifennu, gan ddefnyddio atalnodi mynegiannol a gramadeg syml yn gywir. | defnyddio cysyllteiriau'n gyson lle bo'n briodol, *e.e. Ro'n i'n mynd i chwarae gyda Hannah ond mae hi'n sâl*. Byddant yn defnyddio geiriau trefnu gan gynnwys cyntaf, nesaf, wedyn, yn olaf. Mae gramadeg syml yn cynnwys ffurfiau safonol rhai berfau, *e.e. gweld/gwelais, mynd/aeth*, a chytundeb rhwng y goddrych a'r ferf, *e.e. ydw i/ydyn nhw*. Mae atalnodi mynegiannol yn cynnwys newid atalnodau llawn am ebychnodau a gofynodau pan fo'n briodol. |

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Deilliant 6** | dechrau brawddegau mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan ddefnyddio cysyllteiriau i ddangos achos a defnyddio gwahanol fathau o eiriau ac atalnodi yn gywir. | amrywio dechrau'r brawddegau a ysgrifennant, *e.e. Fy ffrind Mair … Pan es i …* Byddant hefyd yn defnyddio cysyllteiriau gan gynnwys 'achos' ac 'ar ôl', ac yn defnyddio enwau, rhagenwau, ansoddeiriau, adferfau, arddodiaid, cysyllteiriau ac amserau'r ferf yn eu hysgrifennu. Bydd atalnodi'n cynnwys atalnodau llawn, ebychnodau, gofynodau a chomas ar gyfer rhestrau. |

# Ysgrifennu – Genre

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu dealltwriaeth a defnydd plant o ffurfiau ysgrifenedig. Mae asesiadau ar y ffrâm sgil hon yn gysylltiedig â'r amrywiaeth gynyddol o ffurfiau ysgrifenedig neu genre a ddeellir ac a ddefnyddir gan blant drwy gydol y Cyfnod Sylfaen. Dylai plant ifanc iawn ddeall bod gwahanol ffurfiau ysgrifenedig yn cael eu defnyddio ar gyfer dibenion gwahanol a bydd camau cyntaf deall pam ein bod yn ysgrifennu yn cynnwys plant yn archwilio ysgrifennu trwy chwarae fel arfer. Wrth i sgiliau ysgrifennu ddatblygu ac wrth i blant brofi gwahanol genres a ffurfiau wedi'u modelu gan oedolyn, byddant yn dechrau symud yn raddol tuag at weithio'n annibynnol, a bydd angen cymorth arnynt weithiau wrth ddefnyddio ffurf newydd. Bydd plant sy'n gweithio ar lefel y deilliannau uwch yn defnyddio nodweddion amrywiaeth helaeth o fformatau yn greadigol wrth ysgrifennu, a'u haddasu i anghenion y gynulleidfa.

| | **Mae plant yn gallu:** | **Gellir arsylwi ar blant yn:** |
|---|---|---|
| **Efydd** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Arian** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Aur** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Deilliant 1** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Deilliant 2** | cyfrannu ar lafar at ffurf a fodelwyd gan oedolyn, gan ddangos dealltwriaeth syml o wahanol ddibenion ysgrifennu, a chyfleu ystyr trwy ddefnyddio symbolau a lluniau. | dangos trwy chwarae eu bod yn deall y gall ysgrifennu gael ei ddefnyddio ar gyfer gwahanol ddibenion, *e.e. ysgrifennu rhestr siopa wrth chwarae rôl neu lofnodi cerdyn pen-blwydd*. Byddant yn cyfrannu ar lafar at ffurf a fodelwyd gan oedolyn, *e.e. ysgrifennu llythyr at gymeriad mewn stori.* Bydd plant yn priodoli ystyr i farciau, darluniau, lluniau ar-sgrin a gwaith celf, gan ofyn i oedolyn eu helpu i'w hanodi yn aml. |
| **Deilliant 3** | cyfrannu gwaith ysgrifenedig i ffurf a fodelwyd gan oedolyn, gan ddangos eu bod yn datblygu dealltwriaeth o wahanol ffurfiau a chyfleu ystyr trwy ddilyniannu geiriau, symbolau a lluniau. | cyfrannu at ffurf a fodelwyd gan oedolyn, *e.e. trwy ysgrifennu ar y cyd*. Byddant yn dangos dealltwriaeth o wahanol ffurfiau a ddefnyddir i ysgrifennu i wahanol ddibenion, *e.e. cardiau, rhestrau, gwahoddiadau neu ymatebion*. Gall plant naill ai wneud marciau neu ysgrifennu mewn ymateb i amrywiaeth o ysgogiadau ar bynciau sydd o ddiddordeb neu o bwysigrwydd iddynt, gan gynnwys straeon a phrofiadau personol. Wrth i'w synnwyr o ddilyniannu ddatblygu bydd hyn i'w weld yn briodol mewn gwahanol ffurfiau. |
| **Deilliant 4** | defnyddio iaith ysgrifenedig i ddibenion gwahanol yn annibynnol, gan ddilyn ffurf a fodelwyd gan oedolyn, a gallu dilyniannu cynnwys yn gywir. | defnyddio ffurfiau a fodelwyd gan oedolyn yn annibynnol, *e.e. cofnod o ddigwyddiadau, disgrifiadau neu naratifau.* Byddant yn ysgrifennu mewn ymateb i amrywiaeth o ysgogiadau, yn datblygu eu defnydd o rediad stori ac yn cyfleu eu hymatebion ac ystyr yn bwrpasol. Bydd plant yn dilyniannu cynnwys yn gywir wrth ddefnyddio ffurfiau y maent yn gyfarwydd â nhw. |

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Deilliant 5** | defnyddio iaith ysgrifenedig ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, gan adeiladu ar ffurf a fodelwyd gan oedolyn, a gallu dilyniannu a strwythuro cynnwys yn gywir ac ehangu eu hysgrifennu. | adeiladu ar y ffurfiau a fodelwyd gan oedolyn, *e.e. ymestyn ysgrifennu creadigol ar ôl gweld y cyflwyniad wedi'i fodelu*. Maent yn ymestyn eu hymateb i amrywiaeth o ysgogiadau. Bydd plant yn arbrofi gyda gwahanol ffurfiau gan ddangos ymwybyddiaeth o'r gynulleidfa a defnyddio gwahanol fathau o ysgrifennu, geirfa briodol a chynllun ar gyfer ffurf benodol. |
| **Deilliant 6** | defnyddio nodweddion amrywiaeth eang o ffurfiau mewn modd creadigol yn eu hysgrifennu, gan addasu strwythur a chynnwys eu gwaith i'r gynulleidfa. | ysgrifennu'n annibynnol mewn amrywiaeth o ffurfiau, gan ddangos dealltwriaeth o ba ffurf sy'n briodol a hefyd defnyddio ffurfiau'n greadigol, *e.e. adroddiad newyddion o ddigwyddiad hanesyddol.* Bydd nodweddion ffurfiau megis ysgrifennu dychmygus, dilyniannu, diwyg a geirfa briodol yn cael eu defnyddio'n gywir yn amlach na pheidio. |

# Ysgrifennu – Cynllunio, gwerthuso a golygu

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu sgiliau plant wrth gynllunio, gwerthuso a golygu gwaith eu hunain. Mae cynllunio ac adolygu gwaith ysgrifenedig yn sgil allweddol i blant, a bydd yn cael ei weld ar draws amrywiaeth o wahanol fathau o ysgrifennu, e.e. ysgrifennu fel rhan o archwiliad gwyddonol neu ysgrifennu creadigol. Mae siarad ar gyfer ysgrifennu yn rhan allweddol o'r broses gynllunio i blant drwy gydol y Cyfnod Sylfaen a gall chwarae dychmygus plant gael ei adlewyrchu yn eu gwaith ysgrifenedig.

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Efydd** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Arian** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Aur** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Deilliant 1** | defnyddio sgribladau, siapiau neu luniau i fynegi brawddeg. | sgriblo, tynnu siapiau neu luniau sy'n cynrychioli brawddeg iddynt a byddant yn siarad amdano neu ei arwyddo, *e.e. Mami, ci.* Efallai y byddant yn gofyn i oedolyn ysgrifennu'r frawddeg ar y llun iddynt. |
| **Deilliant 2** | sylweddoli bod modd ysgrifennu'r gair llafar. | cyfansoddi brawddeg ar lafar gyda chymorth. Maent yn arsylwi ar oedolion wrth ysgrifennu ac wrth gynhyrchu darnau o ysgrifennu cynnar efallai y byddant yn siarad i'w hunain neu am yr hyn y maent wedi'i wneud. |
| **Deilliant 3** | cyfansoddi brawddeg ar lafar a'i harddweud gan ddisgrifio digwyddiadau, profiadau a lluniau i gyfleu ystyr. | cyfansoddi brawddeg ar lafar y gall oedolyn sgrifellu, neu byddant yn ei hysgrifennu eu hunain. Efallai y byddant yn cysylltu ei brawddeg â llun y maent wedi'i ddarlunio ar bapur neu ar sgrin. |
| **Deilliant 4** | siarad am yr hyn y maent am ei ysgrifennu. | meddwl yn uchel wrth gasglu syniadau neu siarad am ddarn o ysgrifennu naill ai ar bapur neu ar sgrin. Byddant yn defnyddio'r iaith sy'n gysylltiedig â'u hysgrifennu, *e.e. llythyr, gair a brawddeg*. Byddant yn gallu disgrifio brawddeg syml fel adrodd digwyddiad. |
| **Deilliant 5** | defnyddio sgwrs i gynllunio eu hysgrifennu. Maent yn ailddarllen a gwella eu hysgrifennu er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud synnwyr. | drafod neu egluro beth y maent yn cynllunio, *e.e. siarad am eu stori neu gynnwys arfaethedig*, gan gynnwys manylion am y dechrau, y canol a'r diwedd. Byddant yn darllen eu hysgrifennu eu hunain a gwella arno. |
| **Deilliant 6** | trefnu eu hysgrifennu, gan ddangos ymwybyddiaeth o'r gynulleidfa, a myfyrio ar eu gwaith a'i wella. | ysgrifennu testun sy'n gwneud synnwyr i ddarllenydd arall, gan ailddarllen eu gwaith a'i gwella er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud synnwyr. |

# Rhestr o dermau ar gyfer Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mae'r rhain yn dermau cyffredin a ddefnyddir yng nghyd-destun Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu.

**Adferf –** Mae adferfau'n addasu ystyr berf/ansoddair gan fynegi dull, amser, lle neu radd, *e.e. canodd yn hapus.*

**Ansoddair –** Mae ansoddeiriau'n disgrifio ansawdd, cyflwr neu weithred y cyfeiria enw ato, *e.e.* tŷ *newydd.*

**Arddodiad –** Gair sydd fel arfer yn dynodi amser, safle neu gyfeiriad, *e.e. yn, o, i, dros, trwy.*

**Berf –** Geiriau sy'n disgrifio gweithrediadau, cyflyrau neu ddigwyddiadau, *e.e. bod, cymryd, cael.*

**Cyfuno llafar –** Uno ffonemau unigol gyda'i gilydd i gynhyrchu graffem neu air.

**Cysylltair –** Gair neu ymadrodd sy'n cysylltu dwy frawddeg, *e.e. yna, pryd, nesaf.*

**Cytsain gychwynnol –** Unrhyw sŵn cytsain sy'n dod o flaen y llafariad mewn gair, *e.e. 'p(êl)'.*

**Cytundeb rhwng y goddrych a'r ferf –** Rheol yw hon sy'n pennu bod rhaid i ferfau a goddrychau fod naill ai'n unigol neu'n lluosog, *e.e. roeddem ni, roeddwn i.*

**Chwarae â geiriau –** Gweithgareddau llafar sy'n datblygu ymwybyddiaeth ffonolegol a geirfa plant. Gall gweithgareddau gynnwys chwarae â chyflythreniad ar lafar ac archwilio hynny, cwblhau brawddegau syml sy'n odli ar lafar, 'Rwy'n gweld â'm llygad bach i', a newid geiriau mewn rhigymau, caneuon a straeon syml.

**Deugraff –** Synau wedi'u ffurfio o ddwy lythyren yw deugraff, *e.e. rh, ff.*

**Enw –** Mae enwau yn enwi person, lle, peth, ansawdd neu weithred.

**Ffonem –** Sŵn a wneir gan lythyren neu grŵp/cyfuniad o lythrennau, *e.e. s, p, sh.* Mae ffonemau yn cael eu cynrychioli gan graffemau.

**Gair amlsillafog –** Gair gyda mwy nag un 'curiad'.

**Geiriau aml eu defnydd –** Geiriau sy'n cael eu siarad neu eu darllen yn fwy aml na geiriau eraill. Mae geiriau aml eu defnydd wedi cael eu diffinio ar gyfer plant yn y Cyfnod Sylfaen.

**Genre –** Gwahanol fathau o destunau sydd â'u nodweddion penodol eu hunain.

**Graffem –** Llythyren neu ddilyniant o lythrennau sy'n cynrychioli ffonem.

**Odl –** Rhan o'r gair sy'n cynnwys sŵn y llafariad ac unrhyw gytseiniaid sy'n ei ddilyn, *e.e. '-ath' mewn 'cath', neu '- uwch' mewn 'buwch'.*

**Rhagenw –** Gair sy'n cymryd lle enw neu ymadrodd-enw yw rhagenw, *e.e. fi, chi, ef, hwn, honno.*

**Segmentu llafar –** Clywed ffonemau unigol o fewn geiriau, a dim ond pan ellir eu cynrychioli â graffemau.

**Sillaf –** Curiad mewn gair.

**Testun –** Amrywiaeth o ddeunyddiau darllen, gan gynnwys rhai ffuglen a ffeithiol, *e.e. llyfrau stori, catalogau, taflenni, llyfrau gwybodaeth, atlasau ac adnoddau ar y sgrin.*

**Ysgrifennu ar y cyd –** Mae addysgu gwahanol fathau o ysgrifennu yn effeithiol yn golygu bod ymarferwyr yn modelu'r broses; mae hyn yn cefnogi dealltwriaeth plant o'r prosesau y mae ysgrifenwyr yn eu defnyddio. Trwy ysgrifennu ar y cyd maent yn deall bod ysgrifennu'n broses ryngweithiol. Gellir ysgrifennu ar y cyd â'r dosbarth cyfan, grŵp ffocws neu blant unigol.

**Ysgrifennu cynnar –** Camau cynnar ysgrifennu. Mae plant yn arbrofi gydag ysgrifennu; efallai y byddant yn rhoi cynnig ar ffurfio llythrennau, dangos dealltwriaeth o gyfeiriad Cymraeg/Saesneg ysgrifenedig ac yn siarad am yr hyn y maent wedi'i ysgrifennu.

# Datblygiad Mathemategol

Mae rhaid i ddatblygiad a dysgu mathemategol fod yn ystyrlon er mwyn iddynt gael eu hymreiddio'n dda. Mae angen i weithgareddau mathemategol bod yn berthnasol ac yn rhan o fywydau a phrofiadau bob dydd plant. Dylent gael digon o gyfleoedd i ymchwilio ac archwilio yn eu hamgylcheddau dan do ac awyr agored, i ddefnyddio eu hegni a'u chwilfrydedd i wneud synnwyr o'u byd. Trwy'r ymchwiliadau hyn y mae plant yn datblygu eu dealltwriaeth o berthnasoedd, sy'n hanfodol i ddeall mathemateg.

Mae cyfathrebu, trafod a siarad am fathemateg a chysyniadau mathemategol yn rhan hanfodol o ddysgu a dealltwriaeth plant yn y maes hwn o ddatblygiad ac maent yn cefnogi asesiad o'u sgiliau a'u dealltwriaeth. Mae'n bwysig bod plant yn profi gweithgareddau ymarferol cymaint ag sy'n bosibl gan fod hynny'n wneud hi'n haws iddynt ddeall a siarad am gysyniadau mathemategol, megis sut y gall pethau gael eu harchebu a sut maent yn gysylltiedig.

Mae'n bwysig bod gweithgareddau a phrofiadau mathemategol yn briodol o ran datblygiad ac yn adeiladu ar gyflawniadau blaenorol i alluogi plant i gael dilyniant yn eu dysgu. Mae'n hanfodol bod bylchau mewn dysgu mathemategol plant yn cael eu hosgoi, fel nad ydynt yn colli allan ar elfennau hanfodol yn eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol.

Mae rhagor o wybodaeth am y Maes Dysgu hwn i'w chael yn y ddogfen *Cwricwlwm Cymru: Fframwaith y Cyfnod Sylfaen* (2015).

## Fframiau sgil ar gyfer Datblygiad Mathemategol

| Fframiau sgil yn y Proffil Cryno | Fframiau sgil ychwanegol yn y Proffil Llawn |
|---|---|
| Adrodd a dilyniannu rhifau | Darllen ac ysgrifennu rhifau |
| Cyfrif | Priodweddau rhifau |
| Siâp | Ffracsiynau |
| Patrwm | Mesurau ac unedau |
| | Amser |
| | Cofnodi a chynrychioli data |
| | Trefnu a grwpio data |
| | Adio a thynnu |
| | Rheoli arian |
| | Lluosi a rhannu |
| | Tymheredd |
| | Onglau a safle |
| | Amcangyfrif a gwirio |

# Adrodd a dilyniannu rhifau (Proffil Cryno)

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu'r ystod gynyddol o rifau sy'n cael eu deall wrth i blant ddatblygu eu gallu i wybod a dweud enwau rhifau mewn trefn. Mae rhifau'n rhan hanfodol o fywyd bob dydd ac mae angen i blant ddatblygu hyder wrth eu defnyddio a siarad amdanynt. Bydd plant yn defnyddio eu dealltwriaeth yn y sgil yma i ddatblygu cysyniadau rhifiadol eraill, gan gynnwys lluosi a thrin data.

| | **Mae plant yn gallu:** | **Gellir arsylwi ar blant yn:** |
|---|---|---|
| **Efydd** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Arian** | gwrando ar rigymau rhif, caneuon a straeon cyfarwydd a dweud neu ddangos o leiaf un rhif. | ymuno ar adeg arbennig pan fyddant yn clywed rhif y maent yn ei gofio o fewn cân neu hwiangerdd. |
| **Aur** | gwrando ar rigymau, caneuon a straeon rhif cyfarwydd a dweud neu ddangos mwy nag un rhif. | ymuno ar adeg arbennig pan fyddant yn clywed rhifau y maent yn eu cofio o fewn cân, hwiangerdd neu stori. |
| **Deilliant 1** | gyda chymorth, adrodd y rhifau 1 i 3. | adrodd neu arwyddo'r rhifau 1 i 3 pan fydd oedolyn yn eu hannog, neu fel rhan o rigwm rhif cyfarwydd. |
| **Deilliant 2** | adrodd rhifau hyd at 10, ymlaen ac yn ôl, gan ddefnyddio caneuon a rhigymau. Maent yn cymharu ac yn trefnu setiau o hyd at bum gwrthrych. | adrodd neu arwyddo hyd at 10 ac yn ôl, gyda chymorth rhigymau a gemau rhif o bosibl, *e.e. 'Un bys, dau fys, tri bys yn dawnsio'*. Gallant gymharu a threfnu setiau o hyd at bum gwrthrych. |
| **Deilliant 3** | adrodd hyd at 20 ac mewn dilyniannau syml. Maent yn cymharu ac yn trefnu setiau o hyd at 10 gwrthrych. | dweud neu arwyddo rhifau o 0 i 20 yn y drefn gywir, gan gynnwys caneuon rhif, *e.e. 'Un a Dau a Thri Banana'*. Mae adrodd yn cynnwys cyfrif fesul dau hyd at 10 a fesul deg at 100. Gallant gymharu a threfnu setiau o hyd at 10 gwrthrych. |
| **Deilliant 4** | adrodd mewn dilyniannau syml hyd at 100, gan gynnwys mannau cychwyn gwahanol. Maent yn cymharu ac yn trefnu rhifau hyd at 20 o leiaf. | dweud neu arwyddo rhifau o 0 i 100 o wahanol fannau cychwyn ac yn y drefn iawn. Mae adrodd mewn dilyniannau syml yn cynnwys cyfrif fesul 2, 5 a 10 i 100, ond o fewn y tabl lluosi bob amser, *e.e. 5, 10, 15, nid 1, 6, 11, ac ati.* Gallant gymharu a threfnu rhifolion hyd at 20. |
| **Deilliant 5** | adrodd mewn dilyniannau syml ymhellach na 100, gan gynnwys mannau cychwyn gwahanol. Maent yn cymharu ac yn trefnu rhifau dau ddigid. | dweud neu arwyddo dilyniannu o rifau ymhellach na 100, yn ôl ac ymlaen ac o wahanol fannau cychwyn. Gallant gymharu a threfnu rhifolion dau ddigid. |
| **Deilliant 6** | adrodd mewn dilyniannau llai rhagweladwy hyd at 1000, gan gynnwys mannau cychwyn gwahanol. | dweud neu arwyddo rhifau hyd at 1000 ac yn y drefn gywir. Bydd plant yn gallu cyfrif ymlaen mewn dilyniannau fesul 2, 3 a 4 o wahanol fannau cychwyn. |

# Cyfrif (Proffil Cryno)

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu gallu plant i wybod neu gyfrifo cyfanswm y gwrthrychau mewn set. Bydd plant yn cyfrif pan fyddant yn ymuno â rhigymau a chaneuon yn ogystal â chyfrif casgliadau o wrthrychau o fewn yr amgylchedd. Bydd y defnydd o gyfarpar megis ciwbiau a chownteri yn helpu datblygiad plant yn y maes hwn. Yn aml gwelir arsylwadau ar gyfer cyfrif pan fydd cymhelliad gan blentyn i gyfrif, mewn rhigwm cyfrif neu drwy dalu am eitemau wrth chwarae rôl, er enghraifft.

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Efydd** | archwilio gwrthrychau rhifadwy. | archwilio gwrthrychau rhifadwy megis cwpanau neu friciau, eu gwthio ar wahân a'u rhoi at ei gilydd, gan ddangos cydnabyddiaeth o wrthrychau gwahanol. |
| **Arian** | dynwared oedolyn yn cyfrif. | dynwared oedolyn yn cyfrif trwy dapio gwrthrychau fesul un, neu esgus adrodd rhifau mewn trefn (nid oes rhaid iddynt gael y rhifau'n iawn neu hyd yn oed ddefnyddio rhifau go iawn). |
| **Aur** | cyfrif neu ddynodi dau wrthrych gyda chymorth. | defnyddio maint mewn perthynas â dymuniadau neu anghenion personol ar y cam hwn, *e.e.'Ga i ddau?'*. Byddant hefyd yn deall y cysyniad o gyfrif trwy wrthrychau corfforol. |
| **Deilliant 1** | defnyddio cyfatebiaeth un i un i gyfrif hyd at dri gwrthrych. | defnyddio cyfatebiaeth un i un i gyfrif hyd at dri gwrthrych yn ddibynadwy a dechrau sylweddoli bod modd cyfrif pethau heblaw am wrthrychau, *e.e. herciau, neidiau neu glapiau.* |
| **Deilliant 2** | defnyddio cyfatebiaeth un i un i gyfrif hyd at bum gwrthrych. | 'cyfrif' trwy baru hyd at bum gwrthrych/llun â gwrthrychau neu bobl eraill, *e.e. rhoi afal yr un i bump o blant neu gyfrif tri afal drwy eu cyffwrdd.* Byddant yn defnyddio eu dealltwriaeth o gyfrif gyda mwy na gwrthrychau yn unig; maent yn sylweddoli y gellir cyfrif unrhyw beth, *e.e. clapiau, camau yn y gêm sgots.* |
| **Deilliant 3** | cyfrif hyd at 10 gwrthrych yn ddibynadwy. | cyfrif hyd at 10 gwrthrych. Maent yn deall mai'r rhif olaf a gyfrifir yw cyfanswm y gwrthrychau. |
| **Deilliant 4** | cyfrif hyd at 20 gwrthrych. Efallai y byddant yn defnyddio grwpio. | cyfrif hyd at 20 gwrthrych. Efallai y byddant yn defnyddio grwpiau bach o 2 neu 5 i gyrraedd y cyfanswm ar gyfer y set, *e.e. 5 a 5 a 5 yn gwneud 15.* |
| **Deilliant 5** | cyfrif setiau mwy o wrthrychau, a hynny'n ddibynadwy, gan ddefnyddio grwpio. | defnyddio grwpiau o wrthrychau mewn niferoedd o 2, 5 a 10, a byddant yn gallu cynnwys y gweddill i gael y canlyniad cywir, *e.e. 10, 10, 10 a 2 yn gwneud 32.* |
| **Deilliant 6** | cyfrif setiau mawr o wrthrychau gan ddefnyddio ystod o strategaethau. | cyfrif gwrthrychau mewn grwpiau, gan gynnwys grwpiau o 3 a 4, yn ogystal â 2, 5 a 10. |

# Siâp (Proffil Cryno)

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu sut mae plant yn deall siâp a gofod sydd wedi'i gysylltu'n agos â'u dealltwriaeth o'r amgylchedd ffisegol a'u berthynas ag ef. Bydd angen i blant siarad am siâp a gofod mewn dau a thri dimensiwn, ei archwilio a'i brofi, yn ogystal â chwarae gyda phatrwm a chymesuredd.

Mae angen i brofiadau plant fynd y tu hwnt i enwi siapiau sef i brofiadau a fydd yn eu galluogi i ddeall eu priodweddau. Bydd y plant yn gallu gwneud dewisiadau am siapiau gan ddefnyddio eu dealltwriaeth, fel defnyddio siâp ym maes adeiladu sy'n rholio neu frics i adeiladu wal, a bydd yn symud ymlaen i ddisgrifio siapiau gan ddefnyddio iaith fathemategol. Mae hefyd yn bwysig i blant gael dealltwriaeth dda o'r eirfa benodol sy'n ymwneud â siâp a'u bod yn gallu ei defnyddio i siarad am eu gwaith a'u chwarae a'u disgrifio.

Efallai y bydd modd arsylwi arnynt yn arbrofi gyda siapiau yn eu chwarae cyn y gallant enwi neu siarad amdanynt – mae mannau adeiladu dan do ac awyr agored a mannau gwneud marciau yn aml yn darparu cyfleoedd cyfoethog i arsylwi ar sgiliau plant. Gall rhai plant ag anawsterau iaith ddangos gwybodaeth am siâp a dealltwriaeth ohono yn eu chwarae ond ni fyddant yn gallu dangos hynny ar lafar. I'r plant hynny, dylid hepgor gofynion ieithyddol y ffrâm sgil.

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Efydd** | archwilio siapiau cyffyrddol syml. | ymestyn allan, yn cyffwrdd neu'n teimlo siapiau gyda'u dwylo neu eu ceg. |
| **Arian** | ffitio siapiau 2D syml i fylchau. | defnyddio dull profi a methu er mwyn gwneud pos mewnosod darnau syml. |
| **Aur** | archwilio siapiau 2D a gwrthrychau 3D yn eu chwarae. | archwilio siapiau 2D a gwrthrychau 3D yn eu chwarae *e.e. gwasgu bag ffa i ffitio mewn blwch, rhoi siapiau mewn didolwr siapiau syml.* |
| **Deilliant 1** | archwilio priodweddau siapiau 2D a 3D yn eu chwarae. | archwilio priodweddau siapiau 2D a 3D yn eu chwarae, *e.e. rholio pêl neu stacio blociau gwahanol.* Ni fyddant yn enwi siapiau a ni fyddant yn eu didoli na'u paru yn ddigymell. |
| **Deilliant 2** | adnabod ac enwi siapiau 2D syml a defnyddio siapiau 2D a 3D yn eu chwarae. | adnabod ac enwi cylchoedd, sgwariau a thrionglau. Byddant yn defnyddio siapiau 2D a 3D yn eu chwarae, *e.e. adeiladu gyda chiwbiau a chiwboidau, a pharu siapiau.* |
| **Deilliant 3** | adnabod siapiau 2D a 3D syml, gan eu disgrifio mewn iaith syml a'u defnyddio yn eu chwarae. | defnyddio geiriau syml sy'n gysylltiedig â siâp, *e.e. ochr neu grwn.* Cylchoedd, sgwariau, trionglau a phetryalau yw siapiau 2D syml. Mae siapiau 3D syml yn cynnwys ciwbiau, ciwboidau a sfferau. Bydd plant yn defnyddio siapiau 2D a 3D o fewn gweithgareddau seiliedig ar chwarae fel gwneud modelau neu luniau. |

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Deilliant 4** | adnabod ac enwi'r siapiau 2D a 3D cyffredin rheolaidd a disgrifio ac arbrofi sut y maent yn ffitio i'w gilydd yn eu chwarae. | adnabod siapiau 2D sy'n cynnwys sgwâr, triongl, petryal, cylch a hanner cylch. Maent yn adnabod siapiau 3D gan gynnwys ciwb, ciwboid, côn a sffêr. Byddant yn arbrofi wrth ffitio gwahanol siapiau at ei gilydd yn eu chwarae, *e.e. defnyddio ciwbiau a chiwboidau i wneud wal*, a byddant yn disgrifio sut y maent yn ffitio i'w gilydd, *e.e. sgwariau'n ffitio unrhyw ffordd.* |
| **Deilliant 5** | adnabod, enwi a disgrifio priodweddau siapiau 2D a 3D rheolaidd ac afreolaidd a'u defnyddio mewn ffyrdd mwy gymhleth neu gywir yn eu chwarae. | defnyddio eu dealltwriaeth o briodweddau siapiau i wneud modelau mwy cymhleth neu gywir gyda siapiau 3D neu frithweithio siapiau 2D. Gallai hyn olygu copïo model y maent wedi'i weld, neu greu model newydd. Byddant yn deall bod gan siapiau 2D a 3D afreolaidd briodweddau tebyg i'w siapiau rheolaidd cyfatebol, *e.e. mae gan bentagon rheolaidd bum ochr hafal; nid yw ochrau pentagon afreolaidd yn hafal o ran eu hyd.* |
| **Deilliant 6** | adnabod a dosbarthu siapiau 2D a 3D rheolaidd ac afreolaidd. | dosbarthu a dangos dealltwriaeth o siapiau 2D gan gynnwys trionglau, sgwariau, petryalau, pentagonau a hecsagonau a siapiau 3D gan gynnwys prismau, gan ddefnyddio iaith neu mewn ffordd arall. |

# Patrwm (Proffil Cryno)

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu dealltwriaeth plant o batrwm mewn amrywiaeth o ffurfiau. Mae patrwm yn rhan hanfodol o fathemateg a hefyd iaith, creadigrwydd a dealltwriaeth o'r byd. Y sail ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth o batrwm yw'r ddealltwriaeth fod rhywbeth yn bod pan fydd allan o'r golwg. Mae hyn yn galluogi plant i estyn dilyniannau yn eu meddwl pan fyddant yn gwybod y patrwm i'w ddilyn. Bydd straeon, lluniau a rhigymau a rennir ag elfen o batrwm yn annog plant i ddechrau rhagweld beth fydd yn dod nesaf.

Mae'n bwysig bod plant yn cael llawer o gyfleoedd i wahaniaethu rhwng patrymau a dyluniadau heb batrymau ailadroddus er mwyn iddynt allu gweld y gwahaniaeth rhwng y ddau. Mae eu gallu i adnabod, deall ac estyn dilyniannau a phatrymau trwy siâp, lliw a nifer yn bwydo i'w gallu i ddeall dilyniannau rhif ac algebra pan fyddant yn hŷn, ac yn cefnogi sgiliau darllen ac ysgrifennu. Bydd y rhan fwyaf o arsylwadau cynnar o ddealltwriaeth o batrwm yn cael eu gweld wrth i blant ddisgrifio patrymau syml yn eu hamgylchedd, a byddant yn datblygu gwerthfawrogiad o batrymau rhif dim ond pan fyddant yn deall dilyniannau rhif arferol a ffeithiau rhif.

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Efydd** | clapio neu ddrymio. | clapio neu ddrymio'n ddigymell neu wrth efelychu. |
| **Arian** | ceisio copïo patrwm clywedol syml. | ceisio ymuno ag oedolyn neu ei gopïo wrth iddo glapio neu ddrymio patrwm clywedol ag un curiad neu ddau guriad. |
| **Aur** | copïo patrwm clywedol syml. | ymuno ag oedolyn neu ei gopïo wrth iddo glapio neu ddrymio patrwm clywedol ag un curiad neu ddau guriad. |
| **Deilliant 1** | dechrau dangos eu bod yn adnabod patrwm yn yr amgylchedd. | dangos ymwybyddiaeth o batrymau tu mewn a thu allan, *e.e. ar y llawr, ar ddillad neu ar adeiladau a deall bod nos yn dilyn dydd.* Mae'n bosibl y byddant yn sylwi bod patrwm syml yn anghywir *e.e. crayon coch wedi'i roi yng nghanol crayonau glas, teigr wedi'i roi yng nghanol eliffantod.* |
| **Deilliant 2** | copïo amrywiaeth o batrymau syml â'r golwg a/neu â'r clyw. | copïo patrymau syml o ddau liw, dau sŵn neu ddau siâp hawdd eu hadnabod, *e.e. gleiniau melyn a glas, canu 'do-re-do-re' pan fo ganddynt fodel i'w ddilyn.* |
| **Deilliant 3** | adnabod ac ailadrodd patrymau o hyd at dri â'r golwg a/neu â'r clyw. | adnabod ac ailadrodd dilyniant o dri lliw, gwrthrych neu sŵn, *e.e. brics melyn, glas, coch.* |
| **Deilliant 4** | atgynhyrchu, disgrifio ac ymestyn patrymau, gan gynnwys siâp a rhif. | ailgreu ac estyn patrymau yn annibynnol. Gall hyn gynnwys defnyddio iaith i ddisgrifio'r patrymau. Byddant yn defnyddio eu gwybodaeth o ffeithiau rhif o fewn 20 i gadarnhau patrymau rhif ar y cam hwn, *e.e. 2, 4, 6, 8.* |
| **Deilliant 5** | trefnu ac adnabod patrymau mewn gwrthrychau mathemategol, gan gynnwys rhif, a'u trafod. | cymharu a disgrifio gwahanol batrymau, *e.e. mae 2, 4, 6, 8 yna 5, 10, 15, 20 a 10, 20, 30, 40 mewn trefn lle mae'r camau'n mynd yn fwy, neu mae 13, 15, 17, 19 a 23, 33, 43, 53 yn batrymau o odrifau.* Byddant yn dangos dealltwriaeth o'r patrymau hyn drwy drafodaeth neu mewn ffordd arall. |
| **Deilliant 6** | archwilio ac ymestyn patrymau rhif gan gynnwys adio a thynnu. | adnabod patrymau adio a thynnu, *e.e. 33, 37, 41, 45 neu 46, 40, 34, 28, ac ati,* ac ymestyn y patrymau hyn. |

# Darllen ac ysgrifennu rhifau

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu gallu plant i ffurfio a darllen rhifau. Bydd plant yn dod i ddeall rhifau ysgrifenedig trwy weithgareddau chwarae a'r amgylchedd a byddant yn datblygu dealltwriaeth o'r gyfatebiaeth rhwng ffurfiau llafar ac ysgrifenedig rhifau.

Dylai gallu plant i ddarllen ac ysgrifennu rhifolion gynyddu ynghyd â datblygiad eu llawysgrifen – ni ddylai fod unrhyw wahaniaeth sylweddol yn eu galluoedd ysgrifennu ar gyfer llythrennau neu rifolion. Fodd bynnag, yn aml bydd plant yn gallu adrodd mwy o rifau nag y gallant eu hysgrifennu neu eu darllen. Gall strategaethau megis gwneud rhifau ysgrifenedig yn rhan o ganeuon a gemau rhif helpu plant i ffurfio'r cysylltiad rhwng rhifau y gallant eu hadrodd a'r rhai gallant eu hysgrifennu.

Mae gemau trefnu, gwneud rhestrau neu gemau rasio gyda safleoedd yn rhai o'r gweithgareddau lle y gellir arsylwi ar y gallu i ddarllen ac ysgrifennu geiriau rhif.

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Efydd** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Arian** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Aur** | cydnabod bod '2' yn dod ar ôl '1' ac yn cysylltu'r rhifau 1 a 2 gyda gweithgareddau rhif. Maent yn archwilio siapiau rhif cyffyrddol. | cydnabod rhifau 1 a 2 wrth archwilio siapau rhif cyffyrddol. |
| **Deilliant 1** | adnabod rhifau 0 i 3 a dechrau gwneud marciau i gynrychioli rhifau o bosibl. | adnabod rhifau 0 i 3 a chynnig sylwadau ar rifau o arwyddocâd personol yn yr amgylchedd. Maent yn priodoli rhifau i'r marciau y maent wedi'u gwneud. |
| **Deilliant 2** | adnabod rhifau 0 i 5. Maent yn gwneud marciau i gynrychioli rhifau yn eu chwarae. | cydnabod rhifau 0 i 5 yn eu hamgylchedd neu ffurfiau rhif cyffyrddol, *e.e. rhifau magnetig neu bren*. Gall hyn gael ei gefnogi gan gynrychioliadau gweledol o'r rhif. Maent yn siarad am farciau y maent wedi eu gwneud o safbwynt rhif. |
| **Deilliant 3** | darllen ac ysgrifennu rhifau i 10. | sylwi ar rifau i 10 a'u darllen mewn print ac mewn amgylcheddau dan do ac yn yr awyr agored sy'n llawn rhifau. Byddant yn ysgrifennu rhifau hyd at 10 mewn gweithgareddau chwarae a thasgau sy'n canolbwyntio ar hynny. |
| **Deilliant 4** | darllen ac ysgrifennu rhifau i 20. | darllen ac ysgrifennu rhifau i 20 mewn gweithgareddau chwarae a thasgau sy'n canolbwyntio ar hynny. Mae'r rhifau yn cael eu ffurfio yn gywir ac yn wynebu'r cyfeiriad cywir. |
| **Deilliant 5** | darllen ac ysgrifennu rhifau i 100. | darllen ac ysgrifennu rhifau i 100 mewn gweithgareddau chwarae a thasgau sy'n canolbwyntio ar hynny. Mae'r rhifau yn cael eu ffurfio yn gywir ac yn wynebu'r cyfeiriad cywir. |
| **Deilliant 6** | darllen ac ysgrifennu rhifau i 1000. | darllen ac ysgrifennu rhifau i 1000 mewn gweithgareddau chwarae a thasgau sy'n canolbwyntio ar hynny. |

# Priodweddau rhifau

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu dealltwriaeth plant o briodweddau rhifau a gwerth lle, sy'n ategu ein system rifau. Mae'n cefnogi eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol megis cyfrifo ac yn datblygu wrth iddynt adeiladu cysylltiadau rhwng iaith, symbolau, defnyddiau a lluniau. Cefnogir hyn orau trwy brofiadau ymarferol lle gall plant wneud y cysylltiad rhwng 'cyfnewid 10 o'r rhain ar gyfer 1 o'r rheina'. Mae arian yn darparu'r profiad hwn, e.e. cyfnewid 10 o geiniogau am un darn 10c. Ochr yn ochr â hyn mae angen hefyd i fod â dealltwriaeth o 0 fel daliwr lle mewn rhifau a beth mae hyn yn cynrychioli wrth ddefnyddio adnoddau.

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Efydd** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Arian** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Aur** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Deilliant 1** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Deilliant 2** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Deilliant 3** | deall bod sero yn golygu dim. | dangos dealltwriaeth y gellir cynrychioli 'dim gwrthrychau' gyda'r rhif 0. |
| **Deilliant 4** | deall a disgrifio sut i ddosrannu rhifau o dan 20 yn ddegau ac unedau. Maent yn galw i gof haneri a dyblau hyd at 10 ac yn adnabod ac yn deall odrifau ac eilrifau hyd at 20. | dangos dealltwriaeth o werth lle, e.e. *mae un deg a phedwar uned yn hafal i 14,* hyd at 20. Byddant yn disgrifio'r '1' fel 10, a'r '4' fel '4'. Gallant wneud hyn gyda chymorth adnoddau dosrannu syml. |
| **Deilliant 5** | deall ac esbonio bod safle'r digid yn penderfynu'r gwerth hyd at 100. Maent yn rhannu rhifau dau ddigid ac yn gwybod gwerth pob digid a galw i gof dyblau hyd at 20. Maent yn adnabod ac yn deall odrifau ac eilrifau hyd at 100. | dangos dealltwriaeth o werth lle, e.e. *mae pum deg a thair uned yn hafal i 53,* hyd at 100. Byddant yn gallu esbonio eu dealltwriaeth yn eu geiriau eu hunain, e.e. *'y rhif cyntaf yw'r deg, felly mae 5 yn golygu 50, a'r ail rif yw'r uned felly mae 3 yn golygu 3'*. Byddant yn dosrannu rhifau dau ddigid ac yn esbonio gwerth pob digid. |
| **Deilliant 6** | deall ac esbonio bod safle'r digid yn penderfynu'r gwerth hyd at 1000 a gwneud amcangyfrifon yn seiliedig ar werth lle. | dangos dealltwriaeth o werth lle, e.e. *chwe chant, dim degau a thair uned yn hafal i 603,* hyd at 1000. Byddant yn gallu esbonio eu dealltwriaeth yn eu geiriau eu hunain. Bydd eu gwybodaeth o werth lle yn eu helpu i wneud amcangyfrifon, e.e. *mae angen 47 metr o ddefnydd. Mae'n cael ei werthu mewn darnau 10 metr o hyd. Faint sydd ei angen?* |

# Ffracsiynau

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu dealltwriaeth plant o'r cysyniad o ffracsiwn. Bydd plant yn dod ar draws ffracsiynau am y tro cyntaf fel rhan o rywbeth cyfan pan fyddant yn edrych ar rannu gwrthrychau yn eu bywydau go iawn ac wrth chwarae, e.e. hanner melon neu hanner sgwâr. Efallai y bydd eu gallu i adnabod hanner neu chwarter yn rhagflaenu eu gallu i'w rannu'n gywir, yn enwedig os oes ganddynt alluoedd echddygol gwan, felly gallai fod yn ddefnyddiol i ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd i arsylwi ar wneud haneri a chwarteri mewn ffyrdd gwahanol.

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Efydd** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Arian** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Aur** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Deilliant 1** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Deilliant 2** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Deilliant 3** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Deilliant 4** | cael hyd i haneri mewn sefyllfaoedd ymarferol. | rhannu gwrthrychau cyfan unigol yn ddau hanner cyfartal, gan ganiatáu ar gyfer gwallau bach, *e.e. os ydynt am dorri rhywbeth yn ddau ddarn ond yn mynd dros yr ymylon.* |
| **Deilliant 5** | cael hyd i haneri a chwarteri mewn sefyllfaoedd ymarferol. | rhannu gwrthrychau cyfan unigol yn ddau hanner cyfartal neu'n bedwar chwarter cyfartal, gan ganiatáu ar gyfer gwallau bach cyn belled â bod y plentyn yn gwneud ei fwriadau'n glir. |
| **Deilliant 6** | cael hyd i haneri a chwarteri mewn sefyllfaoedd ymarferol, galw i gof mwy o haneri rhifau ac adnabod ffyrdd syml o gyfuno ffracsiynau. | rhannu gwrthrychau cyfan sengl yn ddau hanner cyfartal neu'n bedwar chwarter cyfartal. Bydd plant hefyd yn deall bod dau chwarter yr un fath ag un hanner, a bod dau hanner yn gwneud un cyfan, *e.e. rhannu pastai mwd yn bedwar chwarter, yna rhoi dau chwarter yn ôl at ei gilydd i wneud hanner.* |

# Mesurau ac unedau

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu datblygu dealltwriaeth plant o'r cysyniad o fesur ac o unedau gwahanol.

Mae mesur yn golygu cael hyd i rif sy'n dangos maint neu swm rhywbeth a defnyddio'r rhif hwnnw i wneud cymariaethau rhwng gwrthrychau. Mae hyn yn digwydd wrth i blant feithrin dealltwriaeth o iaith maint a mesur.

Mae unedau ansafonol yn gyfrwng i blant ddeall y gallwch ddisgrifio a chymharu gwrthrychau o wahanol feintiau, trwy eu rhannu'n unedau o'r un maint. Wrth i blant ddatblygu byddant yn mesur gyda mwy o gywirdeb gan ddefnyddio amrywiaeth o unedau safonol ac ansafonol. Mae datrys problemau mewn cyd-destunau gwirioneddol fel coginio yn galluogi plant i ddatblygu eu dealltwriaeth a'r penderfyniadau a wnânt yn ôl lefel y cywirdeb sydd ei angen yn y mesuriad.

Caiff arsylwadau cynnar eu gweld yn aml wrth i blant ryngweithio â gwrthrychau a'u cymharu, gan ddatblygu eu defnydd o iaith mewn perthynas â maint a phwysau, cyn mynd ati'n fwriadol i ddefnyddio mesur mewn gweithgareddau ymchwilio. Mae'r amgylchedd awyr agored yn cynnig cyfleoedd cyfoethog i blant archwilio cysyniadau maint a mesur, gan fod y lle agored yn aml yn cynnig cyfle iddynt weithio ar raddfa fwy.

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Efydd** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Arian** | archwilio'r gwahaniaeth rhwng dau wrthrych. | rhoi neu ddal dwy eitem debyg gyda'i gilydd neu geisio rhoi gwrthrychau mewn cynwysyddion. |
| **Aur** | dechrau deall iaith maint ac yn gallu cael hyd i'r gwrthrych 'mawr'. | arddangos eu dealltwriaeth o dermau syml cysylltiedig â maint gan gynnwys 'mawr' neu 'fach'. |
| **Deilliant 1** | defnyddio iaith bob dydd i gymharu meintiau gwrthrychau. | defnyddio iaith bob dydd megis 'hir', 'byr', 'trwm', ac ati. |
| **Deilliant 2** | cymharu, didoli a threfnu dau wrthrych drwy arsylwi uniongyrchol ar fesurau syml. | siarad am fesurau syml sy'n gysylltiedig â maint a phwysau wrth eu defnyddio i gymharu dau wrthrych drwy arsylwi uniongyrchol. Mae arsylwi uniongyrchol yn golygu edrych ar wrthrychau, eu codi neu eu gosod mewn llinell yn hytrach na'u mesur yn erbyn graddfa. |
| **Deilliant 3** | defnyddio cymariaethau uniongyrchol a therminoleg mesur syml a deall bod rhaid i fesuriadau ddechrau yn yr un lle. | dechrau defnyddio 'llinell sylfaen' i fesur a siarad am wrthrychau, gan gynnwys hyd, uchder a phellter o'r un man cychwyn, *e.e. hirach na, byrrach na*, pwysau a màs, *e.e. trymach na, ysgafnach na*, a chynhwysedd, *e.e. yn dal mwy/ llai na.* |
| **Deilliant 4** | defnyddio unedau ansafonol wrth fesur. | defnyddio uned ansafonol wrth fesur, *e.e. gwelltyn neu ffon i fesur hyd neu gwpan neu fwced i fesur dŵr/tywod.* |
| **Deilliant 5** | defnyddio unedau safonol wrth fesur, a dangos ymwybyddiaeth o wahanol raddfeydd o unedau. | defnyddio mesurau safonol yn gywir i fesur gwrthrychau, gan gynnwys metrau, centimetrau, cilogramau, tymheredd, onglau a defnyddio'r symbolau cysylltiedig. |
| **Deilliant 6** | dechrau deall rhai unedau mawr a bach a'r cysylltiad rhyngddynt. | dechrau defnyddio gwahanol feintiau o unedau gyda'i gilydd yn gywir, *e.e. metrau a chentimetrau.* |

# Amser

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu datblygiad plant mewn deall y cysyniad o amser. Mae amser ei hun yn fesuriad ond oherwydd ei natur haniaethol gall achosi anawsterau i blant. Maent yn datblygu synnwyr o bryd mae rhywbeth yn digwydd cyn iddynt ddatblygu synnwyr o hyd amser: mae angen i'r ddau fod yn eu lle cyn y gallant drosglwyddo eu gwybodaeth i ddarllen amser. Mae gweithgareddau chwarae rôl sy'n defnyddio iaith amser, e.e. dal trên, a deall arferion bob dydd yn gyfleoedd arbennig o ddefnyddiol i gefnogi a helpu plant i ddysgu dweud faint o'r gloch yw hi ac arsylwi arnynt yn gwneud hynny.

| | **Mae plant yn gallu:** | **Gellir arsylwi ar blant yn:** |
|---|---|---|
| **Efydd** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Arian** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Aur** | rhagweld digwyddiad arferol o weithred oedolyn. | dangos dealltwriaeth o arferion, e.e. *bydd amser cinio yn dilyn oedolyn yn paratoi bwyd neu'n gosod y bwrdd.* |
| **Deilliant 1** | deall geirfa syml cysylltiedig ag amser. | ymateb a dechrau deall bod rhaid aros eu tro, e.e. *'dy dro di yw e ar ôl Bethan'.* |
| **Deilliant 2** | rhagweld elfennau o drefn dyddiol a dechrau defnyddio geiriau syml sy'n gysylltiedig ag amser. | dangos dealltwriaeth bod rhai digwyddiadau'n digwydd ar yr un adeg bob dydd, e.e. *amser byrbrydau ar ôl amser tacluso.* Maent yn defnyddio ac yn deall y termau 'cyn' ac 'ar ôl'. |
| **Deilliant 3** | defnyddio'r cysyniad o amser mewn perthynas â digwyddiadau dyddiol a dangos dealltwriaeth cynyddol o ba mor hir y mae tasgau a gweithgareddau bob dydd yn eu cymryd. | dangos dealltwriaeth y gellir torri'r diwrnod ysgol yn gyfnodau penodol. Efallai y byddant yn siarad neu'n defnyddio adnoddau fel amserydd tywod i ddangos sut y maent yn deall y cysyniad o amser. |
| **Deilliant 4** | defnyddio'r cysyniad o amser mewn gweithgareddau dyddiol ac wythnosol a defnyddio unedau safonol o amser i ddarllen oriau ar gloc. | darllen yr awr ond nid y munud ar glociau analog a chlociau digidol 12 awr wrth ddarllen amser fel rhan o weithgareddau bob dydd. |
| **Deilliant 5** | defnyddio unedau safonol o amser i ddarllen oriau a munudau ar gloc. | darllen chwarter awr, chwarter wedi, hanner awr wedi a chwarter i ar gloc analog. Ar gloc digidol 12 awr gallant ddarllen oriau a munudau, e.e. *gallant ddarllen 10:37.* |
| **Deilliant 6** | defnyddio unedau safonol o amser i ddarllen oriau a munudau ar gloc digidol, a gallu cyfrifo cyfnodau syml bob dydd o amser. | darllen yr awr a'r munudau i'r 5 munud agosaf ar gloc analog ac yn gywir ar gloc digidol 12 awr. Byddant yn gallu defnyddio eu darlleniad mwy cywir o amserau i gyfrifo cyfnodau o 15 a 30 munud ac oriau o amserau dechrau a gorffen a roddir iddynt. |

# Cofnodi a chynrychioli data

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu sut y mae plant yn cofnodi a chynrychioli gwrthrychau y mae modd eu cyfrif a'r data y maent yn eu casglu. Ar y cychwyn bydd plant yn dangos eu dealltwriaeth o farciau a delweddau sy'n cynrychioli gwrthrychau y mae modd eu cyfrif trwy luniau a gwneud marciau. Mae'n bwysig fod gweithgareddau data yn cael eu gwreiddio mewn cyd-destunau gwirioneddol i blant ac fe'u gwelir fel ffordd o gofnodi arsylwadau plant neu i ateb cwestiynau penodol, e.e. cyfrif pob un o'r malwod. Po fwyaf y bydd plant wedi'u symbylu i gymryd rhan mewn ymchwiliad data neu i wybod ateb, y mwyaf y bydd yn ymddiddori yn y tasgau casglu data perthnasol, e.e. cofnodi pleidlais.

Gellir gweld arsylwadau diweddarach trwy ymchwiliadau mwy pwrpasol gan gynnwys y data y maent yn eu casglu eu hunain a data a ddarperir iddynt.

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Efydd** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Arian** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Aur** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Deilliant 1** | gwneud marciau i gynrychioli rhifau mewn gweithgareddau chwarae y gellir eu dehongli a'u hesbonio. | priodoli ystyr i farciau mewn perthynas â rhif yn eu chwarae. Efallai na fyddant yn gwneud hyn yn gywir. |
| **Deilliant 2** | gwneud marciau i ddechrau cofnodi casgliadau. | cadw cofnodion syml o feintiau, gan gynnwys cyfrif o un marc i bob gwrthrych er enghraifft, neu drwy wneud llun gyda phob rhan yn cynrychioli rhywbeth yn y byd go iawn. Efallai y bydd plant â sgiliau echddygol manwl gwan yn cofnodi eu cyfansymiau'n fwy syml, *e.e. cymryd cownter ar gyfer pob tedi neu dynnu llinell yn y tywod gyda'u bys.* |
| **Deilliant 3** | cofnodi casgliadau gan ddefnyddio marciau, rhifau neu luniau. | cadw cofnodion syml o feintiau, a chymhwyso maint rhif hyd at 10 i'r hyn y maent wedi'i gofnodi. Gallai'r rhain gynnwys cadw cyfrif o un marc ar gyfer pob gwrthrych er enghraifft, neu drwy wneud llun gyda phob rhan yn cynrychioli rhywbeth yn y byd go iawn, *e.e. tynnu llun o'u teulu gydag un llun i bob aelod.* Byddant yn gallu esbonio yn eu geiriau eu hunain bod eu cofnod yn cynrychioli'r rhif yn y set. |
| **Deilliant 4** | casglu gwybodaeth trwy bleidleisio neu drefnu a chynrychioli'r cyfanswm mewn lluniau, gwrthrychau neu restrau a thablau. | cadw cofnodion syml o feintiau a chymhwyso maint rhif hyd at 20 i'r hyn y maent wedi'i gofnodi. Bydd eu cofnodion yn cynnwys data y maent wedi'i gasglu'n bwrpasol, *e.e. o bleidlais ar beth yw hoff ddiod y plant,* yn ogystal â gwrthrychau sydd ar gael yn hwylus. Bydd plant yn cofnodi'r wybodaeth mewn ffordd gynrychioliadol trwy luniau, lluniadau neu wrthrychau, neu byddant yn defnyddio rhestrau a thablau i gategoreiddio data, *e.e. cownter am bleidlais, tabl o bleidleisiau i bob diod.* |

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Deilliant 5** | defnyddio’u cofnodion eu hunain a chofnodion eraill i ofyn ac ateb cwestiynau, a chynrychioli data trwy ddefnyddio dulliau syml. | cofnodi eu casgliadau gan ddefnyddio dulliau fel tablau, rhestrau, diagramau a pictogramau a byddant yn gallu tynnu a dehongli gwybodaeth o ffynonellau sy’n bodoli yn barod. |
| **Deilliant 6** | cynrychioli data gan ddefnyddio dulliau mwy cymhleth, a thynnu a dehongli gwybodaeth o gynrychioliadau data. | cynrychioli eu data mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys rhestrau, siartiau cyfrif, tablau, diagramau, siartiau bar/graffiau llinell wedi eu labelu fesul 2, 5 a 10, a phictogramau lle mae’r symbol yn cynrychioli mwy nag un uned. Byddant yn gallu tynnu a dehongli gwybodaeth o siartiau, amserlenni, diagramau a graffiau. |

# Trefnu a grwpio data

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu gallu plant i gasglu a threfnu gwrthrychau, elfen allweddol o drin data. Datblygu'r sgiliau hyn a'r gallu i resymu ynghylch penderfyniadau yw'r hyn sy'n allweddol i gynnydd plant yn y maes hwn. Mae'n bwysig bod profiadau trefnu yn berthnasol ac felly'n fwy ystyrlon i blant. Mae trefnu gyda gwrthrychau go iawn yn galluogi plant i feddwl yn fathemategol ac i ddatblygu'r gallu i wahaniaethu'n weledol a defnyddio iaith ddisgrifiadol. Mae defnyddio trefnu a grwpio i ateb cwestiynau yn allweddol i wneud tasgau trefnu yn berthnasol. Mae plant yn dechrau trwy grwpio gwrthrychau tebyg cyn iddynt ddechrau disgrifio'r rhesymu sy'n sail i'w trefnu.

Unwaith bod plant yn dechrau trefnu a dosbarthu data mewn ffyrdd gwahanol mae'n rhaid iddynt gael profiad o ddisgrifio pa wrthrychau sy'n perthyn i un set a pha rai sy ddim, yn ogystal â chael llawer o gyfleoedd i greu eu meini prawf eu hunain. Dylai ymarferwyr roi cyfleoedd i blant esbonio eu meini prawf a'u rhesymeg.

| | **Mae plant yn gallu:** | **Gellir arsylwi ar blant yn:** |
|---|---|---|
| **Efydd** | dewis gwrthrychau a defnyddiau. | dewis gwrthrych o grŵp o un neu fwy. |
| **Arian** | adnabod a thynnu sylw at wrthrychau cyfarwydd. | datblygu synnwyr o wrthrychau cyfarwydd yn eu byd a byddant yn estyn amdanynt, neu'n tynnu sylw atynt trwy leferydd neu arwyddo. |
| **Aur** | cael hyd i wrthrych a mynd i'w nôl gydag anogaeth oedolyn. | cael hyd i degan neu ddilledyn cyfarwydd a mynd i'w nôl pan ofynnir iddynt, gan ddangos eu gallu i adnabod gwrthrychau. |
| **Deilliant 1** | cael hyd i wrthrychau tebyg gydag anogaeth oedolyn. | adnabod a chael hyd i wrthrychau lluosog pan ofynnir heb drefnu'r set gyfan, *e.e. cael hyd i'r holl gregyn ond yn gadael y gwrthrychau eraill heb eu trefnu.* |
| **Deilliant 2** | trefnu a pharu gwrthrychau a lluniau trwy adnabod tebygrwydd. | trefnu a pharu gwrthrychau megis paru esgidiau a sanau neu dacluso gemau a theganau. Byddant yn aml yn cael eu symbylu trwy chwarae, ond gellir eu hannog i siarad am yr hyn sydd yr un fath a'r hyn sy'n wahanol. |
| **Deilliant 3** | trefnu a dosbarthu gwrthrychau gan ddefnyddio un maen prawf. | trefnu wrth osod gêm, *e.e. trefnu'r anifeiliaid fferm plastig yn ddefaid mewn un cae, gwartheg mewn un arall, neu roi cownteri coch i'w ffrind ar gyfer gêm*. Byddant yn defnyddio un maen prawf, *e.e. lliw neu siâp,* i rannu grŵp o luniau neu wrthrychau yn ddau grŵp neu fwy. |
| **Deilliant 4** | trefnu neu baru gwrthrychau gan ddefnyddio mwy nag un maen prawf. | trefnu gwrthrychau gan ddefnyddio mwy nag un maen prawf a threfnu yn ôl un maen prawf weithiau cyn penderfynu eu rhannu eto, *e.e. ar ôl trefnu anifeiliaid tegan yn anifeiliaid fferm a rhai nad ydynt yn anifeiliaid fferm, gellir eu trefnu eto yn adar a rhai nad ydynt yn adar.* Gallant siarad am eu rhesymu drwy gydol y broses. |
| **Deilliant 5** | trefnu a dosbarthu gan ddefnyddio mwy na dau faen prawf. | dewis yn bwrpasol yr holl feini prawf cyn dechrau trefnu, ond mae newid wrth iddynt fynd yn eu blaen yn dal yn gyffredin. Byddant yn siarad am eu trefnu ac yn rhoi rhesymau dros y penderfyniadau y maent wedi'u gwneud. |

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Deilliant 6** | trefnu a dosbarthu gan ddefnyddio mwy na dau faen prawf, esbonio eu rhesymu mewn iaith fathemategol a defnyddio diagramau trefnu. | dewis yn bwrpasol yr holl feini prawf cyn dechrau trefnu a dosbarthu. Byddant yn gallu defnyddio diagramau Venn a diagramau Carroll i gefnogi eu gwaith. |

# Adio a thynnu

Mae'r ffrâm sgil hon yn mesur y gallu i gyfuno a thynnu niferoedd. Mae hyn yn seiliedig ar ddeall bod niferoedd yn newid, felly mae plant yn dechrau trwy ddatblygu dealltwriaeth o bethau'n mynd yn fwy ac yn llai. Gall y sgiliau cynnar hyn ymddangos mewn gweithgareddau sy'n defnyddio grwpiau bach o wrthrychau, wedi'i ddilyn gan chwarae arian ac ymchwiliadau sy'n cynnwys adio a thynnu.

Rhan yn unig o'r darlun yw cael y canlyniad cywir wrth adio a thynnu; dylid annog plant i esbonio'r strategaethau y maent wedi'u defnyddio i'w cyfoedion ac i ymarferwyr. Efallai y bydd plant hefyd yn gwneud cynnydd o safbwynt anhawster y cyfrifiadau y maent yn gallu ei gyflawni, ond yn cael anhawster gydag un neu ddau fath o strategaeth, gan gymryd yn hirach nag sydd ei angen i gyrraedd yr ateb. Dylai ymarferwyr asesu plant yn ôl eu gallu i gyflawni'r cyfrifiad ond hefyd helpu plant sy'n ei chael hi'n anodd defnyddio amrywiaeth o strategaethau a allai gael ei achosi gan anhawster gyda sgil arall.

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Efydd** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Arian** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Aur** | gofyn am 'fwy' o safbwynt anghenion personol. | gofyn am 'fwy' yng nghyd-destun angen personol, e.e. *pan fyddant am gael mwy o fwyd.* |
| **Deilliant 1** | dechrau adnabod 'mwy' a 'llai' yn eu chwarae. | dangos dealltwriaeth yn eu geiriau neu eu gweithrediadau eu hunain bod camgyfatebiaeth wrth baru eitemau un i un neu wrth gymharu grwpiau o wrthrychau, e.e. *wrth roi allan platiau ar gyfer parti te, maent yn sylweddoli nad oes gan bawb plât, ac felly maent yn chwilio am un arall.* Mae'n rhaid i blant allu adnabod gwahaniaethau mewn nifer cyn y gallant ddechrau enwi'r gwahaniaeth. |
| **Deilliant 2** | deall a defnyddio'r cysyniad o 'un yn fwy' ac 'un yn llai' yn eu chwarae. | deall bod cyfanswm gwrthrychau/lluniau mewn grŵp wedi cynyddu gan un pan ychwanegir gwrthrych neu wedi'i lleihau gan un pan mae un yn cael ei symud i ffwrdd. Bydd hyn yn cael ei ddangos trwy eu dealltwriaeth o wrthrychau neu luniau yn hytrach na chyfrifiadau rhifau, e.e. *tynnu un cownter i ffwrdd.* |
| **Deilliant 3** | deall adio a thynnu syml iawn a galw i gof 'un yn fwy' neu 'un yn llai' o fewn 10. | cwblhau adio neu dynnu un cam o fewn yr ystod 0–5. Byddant yn gallu arwyddo, dweud neu ddangos 'faint i gyd?' neu 'faint sydd ar ôl?' pan fydd gwrthrychau yn cael eu hychwanegu neu eu tynnu. Byddant yn gallu galw i gof 'un yn fwy' neu 'un yn llai' o fewn 10. Fel arfer bydd hyn yn cael ei ddangos trwy ddealltwriaeth o luniau, gwrthrychau neu ddarnau arian yn hytrach na chyfrifiadau e.e. *Deg Potel Gwyrdd.* |

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Deilliant 4** | cyflawni adio a thynnu syml gan ddefnyddio'r strategaeth sy'n well ganddynt o fewn 10 a galw i gof 'un yn fwy' ac 'un yn llai' o rif o fewn 20. | defnyddio, yn eu pennau, strategaethau galw i gof 'un yn fwy' neu 'un yn llai' o fewn 20. Byddant yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau i gyflawni adio a thynnu, gan gynnwys defnyddio gwrthrychau ymarferol, cynrychioliadau darluniol, strategaethau 'cyfrif ymlaen' neu 'cyfrif yn ôl' ac yn eu pennau alw i gof ffeithiau rhif i ddatrys problemau o fewn 10. Maent yn cyflawni adio neu dynnu o ddau neu dri rhif o fewn 10. Bydd plant yn sylweddoli y gellir adio mewn unrhyw drefn, ond byddant yn aml yn dechrau gyda'r rhif mwyaf, *e.e. 8 + 5*. |
| **Deilliant 5** | cyflawni adio a thynnu gan ddefnyddio'r strategaeth sy'n well ganddynt o fewn 20. Maent yn galw i gof yn eu pennau 10 ac 20 yn fwy neu'n llai o fewn 100. | defnyddio, yn eu pennau, strategaethau galw i gof '10 yn llai' a '10 yn fwy' neu '20 yn llai' ac '20 yn fwy' o fewn 100. Byddant yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau wrth gyflawni adio a thynnu, gan gynnwys 'cyfrif ymlaen' a 'cyfrif yn ôl', deall gwerth lle, ffeithiau rhif o fewn 10, addasu syml o rifau crwn a galw i gof ffeithiau rhif o fewn 10 i helpu i adio rhifau dau ddigid. Gallant roi esboniad syml am ateb, *e.e. '55 yw'r ateb oherwydd mae 55 yn 10 llai na 65'.* |
| **Deilliant 6** | cyflawni adio mwy anodd gan ddefnyddio'r strategaeth sy'n well ganddynt gan gynnwys strategaethau pen. | defnyddio amrywiaeth o strategaethau i wneud cyfrifiadau tynnu, gan gynnwys 'cyfrif yn ôl', deall gwerth lle, addasu syml o rifau crwn a galw i gof ffeithiau rhif o fewn 10 i helpu i dynnu rhifau dau ddigid. Gallant roi esboniad syml am ateb, *e.e. 64 – 15 = 49 –' tynnais 15 o 65 a wedyn tynnais 1 arall'.* |

# Rheoli arian

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu dealltwriaeth plant o arian a'i werth a fydd yn datblygu drwy brofiadau uniongyrchol ac ymarferol mewn sefyllfaoedd bob dydd, dan do ac yn yr awyr agored. I ddechrau, bydd angen digon o gyfleoedd i blant drin a defnyddio darnau arian, ac i feithrin geirfa berthnasol a'i defnyddio.

Dylai ystod eang o brofiadau roi cyfleoedd i blant drin a defnyddio arian trwy wneud trafodion ariannol yn eu gweithgareddau chwarae rôl ac mewn gweithgareddau bob dydd megis prynu ffrwythau ar gyfer amser byrbryd. Wrth symud ar hyd y continwwm dysgu, dylai plant ddechrau defnyddio arian mewn gweithgareddau mathemategol eraill, megis adio, tynnu a lluosi.

| | **Mae plant yn gallu:** | **Gellir arsylwi ar blant yn:** |
|---|---|---|
| **Efydd** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Arian** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Aur** | dod o hyd i ddarnau arian o gasgliad cyfyngedig. | adnabod darnau arian ymysg casgliadau o wrthrychau, *e.e. dod o hyd i ddarnau arian ymysg casgliad sy'n cynnwys botymau mawr a chregyn.* |
| **Deilliant 1** | dod o hyd i ddarnau arian tebyg pan fydd oedolyn yn gofyn iddynt wneud hynny. | trefnu darnau arian yn ôl lliw, siâp neu faint. |
| **Deilliant 2** | dangos ymwybyddiaeth o arian trwy chwarae rôl. | cyfnewid arian mewn sefyllfaoedd chwarae rôl. |
| **Deilliant 3** | defnyddio darnau arian 1c, 2c, 5c a 10c i dalu am eitemau. | defnyddio darnau arian mewn cyfuniadau gwahanol i dalu am eitemau hyd at 10c. Maent yn dechrau cysylltu ceiniogau ag unedau a deall bod dwy ceiniog yr un fath ag 2c, pump ceiniog yn 5c a deg ceiniog yn 10c. |
| **Deilliant 4** | 'talu' am eitemau hyd at 20c a dod o hyd i gyfansymiau a rhoi newid o 10c. | defnyddio gwahanol gyfuniadau o arian i 'dalu' am eitemau hyd at 20c a dod o hyd i gyfansymiau a rhoi newid o 10c. Maent yn cysylltu eu dealltwriaeth o arian â'u dealltwriaeth o werth lle. |
| **Deilliant 5** | 'talu' am eitemau hyd at £1 a dod o hyd i gyfansymiau a rhoi newid o luosrifau 10c. | defnyddio gwahanol gyfuniadau o arian i dalu am eitemau hyd at £1 a dod o hyd i gyfansymiau a rhoi newid o luosrifau 10c. Maent yn cysylltu eu dealltwriaeth o arian â'u dealltwriaeth o werth lle. |
| **Deilliant 6** | 'talu' am eitemau hyd at £2 a chyfrifo newid. Maent yn gallu archebu a chymharu eitemau hyd at £10. | defnyddio gwahanol gyfuniadau o arian i dalu am eitemau hyd at £2 a chyfrifo newid. Maent yn gallu trefnu a chymharu eitemau hyd at £10. Maent yn cofnodi arian sydd wedi'i wario a'i arbed trwy ddefnyddio nodiant degol. |

# Lluosi a rhannu

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu gallu plant a'u dealltwriaeth o luosi a rhannu. Mae'r sgiliau hyn yn gysylltiedig â dealltwriaeth plant o strwythurau mathemategol, ac nid ydynt yn datblygu hyd nes y bydd plentyn yn gyffyrddus gydag ystod o rifau. Gellir arsylwi ar blant yn dyblu a haneru rhifau neu grwpiau o wrthrychau mewn gweithgareddau neu gemau ar y cyd, cyn datrys problemau gan ddefnyddio'u gwybodaeth o dablau lluosi.

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Efydd** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Arian** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Aur** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Deilliant 1** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Deilliant 2** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Deilliant 3** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Deilliant 4** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Deilliant 5** | galw i gof tablau lluosi 2, 5 a 10 a'u defnyddio i ddatrys problemau a dechrau cysylltu lluosi a rhannu syml. | deall mai adio sy'n cael ei ailadrodd yw lluosi, a rhannu yw gwrthwyneb lluosi, *e.e. 2 + 2 + 2 = 6, a 6 ÷ 3 = 2.* Byddant yn deall y tablau lluosi symlaf, *e.e. 2, 4, 6, 8 neu 5, 10, 15, 20.* Byddant yn gallu defnyddio eu gwybodaeth o fondiau rhif i helpu i ddyblu a haneru rhifau dau ddigid, *e.e. 40 + 40 o wybod 4 + 4*, a'u gwybodaeth o haneri agos. |
| **Deilliant 6** | defnyddio tablau lluosi 2, 3, 4, 5 a 10 i ddatrys problemau lluosi a rhannu, a dechrau deall gweddill. | galw i gof tablau lluosi 2, 3, 4, 5 a 10 ac yn eu defnyddio i ddatrys problemau o fewn 100. Byddant yn sylweddoli bod rhannu'n gallu arwain at weddill, ond byddant yn gadael y gweddill fel cyfanrif, *e.e. 17 ÷ 4 = 4 ac 1 yn weddill.* |

# Tymheredd

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu dealltwriaeth plant o dymheredd sy'n datblygu trwy eu defnydd o'r iaith sy'n ymwneud â chysyniad. Gweithgareddau ymarferol, yn enwedig y rhai a gynlluniwyd o amgylch ystod Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd, yn ogystal â sefyllfaoedd bob dydd, fydd yn rhoi cyfleoedd i arsylwi ar sgiliau a dealltwriaeth y plant.

| | **Mae plant yn gallu:** | **Gellir arsylwi ar blant yn:** |
|---|---|---|
| **Efydd** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Arian** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Aur** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Deilliant 1** | defnyddio geiriau syml ac ystumiau sy'n disgrifio tymheredd mewn gweithgareddau bob dydd. | defnyddio iaith syml iawn, ystumiau neu fynegiant yr wyneb o ran tymheredd. |
| **Deilliant 2** | defnyddio geiriau sy'n disgrifio tymheredd mewn gweithgareddau bob dydd. | defnyddio geiriau o fewn ymadroddion syml i ddisgrifio tymheredd, *e.e. 'Mae'r dŵr yn oer heddiw' neu 'Rwy'n teimlo'n boeth'.* |
| **Deilliant 3** | defnyddio cymariaethau uniongyrchol wrth ddisgrifio'r tymheredd. | defnyddio geiriau fel 'poeth' neu 'oer' wrth ddisgrifio tymheredd. |
| **Deilliant 4** | defnyddio geiriau disgrifiadol ar gyfer ystod o dymereddau. | dynnu ar ystod o eiriau disgrifiadol ar gyfer tymheredd, *e.e. oerach neu gynhesach.* |
| **Deilliant 5** | cymharu tymheredd dyddiol drwy ddefnyddio thermomedr. | defnyddio cofnodion i gymharu a siarad am dymheredd dyddiol. |
| **Deilliant 6** | adnabod rhifau negyddol yng nghyd-destun tymheredd. | siarad am dymheredd yn fanwl, sy'n cynnwys dealltwriaeth darllen islaw sero gradd. |

# Onglau a safle

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu dealltwriaeth plant o safle, cyfeiriad a hwyrach eu dealltwriaeth gynnar o onglau. Trwy weithgareddau corfforol a defnyddio adnoddau, gall plant ddechrau datblygu a deall geirfa leoliadol a chyfeiriadol. I gefnogi datblygiad plant gellir rhoi cyfarwyddiadau i'w dilyn, e.e. 'sefyll tu ôl i'r llinell felen a neidia ymlaen'.

Gall offer sy'n gweithio ar fatri, yn ogystal â theganau y mae modd eu rhaglennu, fod yn ddefnyddiol i atgyfnerthu cyfarwyddiadau. Gall y rhain gael eu defnyddio dan do ac yn yr awyr agored a gall plant fynd â hwy ar daith. Mae gweithgareddau gwneud marciau a gweithgareddau celf hefyd yn fuddiol o ran rhoi profiadau i'r plant o gyfeiriadedd chwith i dde, o lenwi gofod ac i gyflwyno'r cysyniad o droi trwy wneud patrwm. Mewn trafodaethau cychwynnol am droi, dylai'r plant ddechrau nodi pa wrthrychau o amgylch eu cartrefi ac yn y lleoliad/ysgol yn troi, e.e. clociau, olwynion, dolenni.

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Efydd** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Arian** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Aur** | dynwared symudiadau syml pan maent yn cael eu modelu. | copïo symudiadau oedolion neu symud mewn ffordd benodol pan fydd ystum i gyd-fynd â'r cyfarwyddyd. |
| **Deilliant 1** | dilyn cyfarwyddiadau un cam ar gyfer symudiadau syml. | dilyn cyfarwyddiadau ar gyfer symudiadau syml. |
| **Deilliant 2** | dilyn cyfarwyddiadau dau gam ar gyfer symudiadau syml. | dechrau deall y term 'troi' mewn cyfarwyddiadau dau gam, *e.e. 'gorymdeithia yn syth yn dy flaen ... a throi'*, ond nid mewn cyfeiriad penodol. |
| **Deilliant 3** | symud i gyfeiriadau penodol. | dilyn cyfarwyddiadau i symud i gyfeiriadau penodol, *e.e. 'sgipia ymlaen ... .tro tuag at y drws ...'* a siarad am bethau sy'n troi, *e.e. clociau, olwynion, cogiau, ac ati.* |
| **Deilliant 4** | gwneud tro cyfan a hanner tro. | deall bod gwrthrychau neu hwy eu hunain yn gallu gwneud tro cyfan neu hanner tro, *e.e. byddant yn troi offeryn argraffu wrth wneud patrymau ailadroddus.* |
| **Deilliant 5** | adnabod hanner troeon a chwarter troeon a bod tro chwarter yn ongl sgwâr. | deall hanner troeon a chwarter troeon a siarad amdanynt. Maent yn deall onglau sgwâr, gan eu nodi yn ymarferol ac yn gallu eu cysylltu â throeon chwarter. |
| **Deilliant 6** | cysylltu ongl sgwâr i droeon llawn, hanner troeon a chwarter troeon. | adnabod onglau sgwâr a chydnabod bod dau ongl sgwâr yn gwneud hanner dro a bod phedwar ongl sgwâr yn gwneud dro llawn. |

# Amcangyfrif a gwirio

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu sgiliau amancyfrif a gwirio eu bod yn gywir. Cyn y gall plant ddechrau gwneud amcangyfrifon yn seiliedig ar gyfrifiadau bras o rif, mae angen iddynt ddatblygu dealltwriaeth o'r broses o wneud dyfaliad rhesymol o fesur gweledol neu ffisegol, a gwirio eu hamcangyfrif gan ddefnyddio dulliau priodol. Gallai arsylwadau ddigwydd drwy ofyn i blant ddyfalu niferoedd neu feintiau gan ddefnyddio mesurau safonol ac ansafonol, neu ar ddechrau ymchwiliad.

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Efydd** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Arian** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Aur** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Deilliant 1** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Deilliant 2** | dechrau gwneud amcangyfrif synhwyrol o hyd at bum gwrthrych. | dyfalu 'pump' pan fydd pedwar o wrthrychau, ond ni fydd yn dyfalu'n 'wyllt'. Byddant yn rhoi eu dyfaliad yn gyflym, heb fynd ati'n fwriadol i gyfrif gan ddefnyddio cyfatebiaeth un i un. |
| **Deilliant 3** | gwneud amcangyfrif synhwyrol hyd at 10 a deall y gellir gwirio hyn wrth gyfrif. | cyfrif neu ddefnyddio ffeithiau rhif o fewn pump i wirio a yw ei amcangyfrif yn gywir. |
| **Deilliant 4** | gwneud amcangyfrifon synhwyrol o grwpiau mwy o wrthrychau, a defnyddio amcangyfrif a gwirio gyda chyfrifiadau a mesuriadau. | amcangyfrif grwpiau mwy o wrthrychau, hyd at 20 o eitemau, a rhoi amcangyfrif rhesymol (o fewn tri o'r rhif cywir), yna gwirio trwy gyfrif. Byddant yn defnyddio eu gwybodaeth o ffeithiau rhif i amcangyfrif ac wedyn gwirio eu cyfrifiadau a mesuriadau megis hyd, pwysau, uchder a chynhwysedd, *e.e. dyfalu bod jwg yn cynnwys pum llond cwpan o ddŵr, yna mesur trwy arllwys cwpanaid ohono.* |
| **Deilliant 5** | defnyddio amrywiaeth o strategaethau amcangyfrif a gwirio sy'n briodol ar gyfer cyfrifiadau a mesuriadau. | gwneud amcangyfrifon o hyd, uchder, pwysau a chynhwysedd, a'u gwirio yn erbyn mesurau safonol, *e.e. dyfalu bod taldra Dafydd yn 120cm oherwydd mae'n dalach na Lowri sy'n 110cm, yna mesur yn erbyn pren mesur taldra*. Gallant wirio adio trwy ailadrodd mewn trefn arall, neu luosi/rannu trwy haneru a dyblu o fewn 20. |
| **Deilliant 6** | defnyddio strategaethau amcangyfrif a gwirio manylach gan gynnwys gwrthdroi adio/tynnu a haneru/dyblu. | defnyddio gwrthdroi adio/tynnu a haneru/dyblu o fewn eu cyfrifiad, *e.e. 'tynnais i 12 o 53 i gael 41, wedyn gwnes i ei adio eto er mwyn gwirio ei fod yn gwneud 53'*. Gellir gwirio lluosi trwy ailadrodd yr adio, *e.e. 5 x 5 = 25, a 5 + 5 + 5 + 5 + 5 = 25*. Bydd plant yn amcangyfrif mesuriadau safonol ar raddfeydd manylach, *e.e. i'r centimetr, 10g a 100ml agosaf.* |

# Rhestr o dermau ar gyfer Datblygiad Mathemategol

Mae'r rhain yn dermau cyffredin a ddefnyddir yng nghyd-destun Datblygiad Mathemategol.

**Bond rhif –** Bondiau rhif yw'r holl barau o gyfanrifau gyda chyfanswm penodol, *e.e. y bondiau rhif ar gyfer 10 yw 1 + 9, 2 + 8, 3 +7, ac ati.*

**Cyfatebiaeth un i un –** Mae'r term hwn yn ymwneud â'r ddealltwriaeth fod un gwrthrych yn cyfateb ag un gwrthrych neu rif cyfatebol, *e.e. un cwpan, un soser.*

**Cymesuredd –** Cyfatebiaeth o ran maint, ffurf a threfn cydrannau ar ochrau cyferbyniol plân, llinellau neu bwynt, *e.e. mae rhoi drych i lawr yr hanner canol yn gwneud copi perffaith o'r ddelwedd, neu mae torri sffêr i lawr yr echelinau yn gwneud dau hemisffer cymesur.*

**Dosrannu –** Y gallu i rannu rhif â dau ddigid neu fwy yn unedau, degau, cannoedd, *e.e. mae 153 yn 100, 50, 3*.

**Gweithrediad gwrthdro –** Gweithrediadau mathemategol sy'n gwrthdroi ei gilydd yw'r rhain, gan arwain at y rhif gwreiddiol, *e.e. 6 x 10 = 60 a 60 ÷ 10 = 6, felly mae lluosi a rhannu yn wrthdro.*

**Maen prawf –** Safon neu norm y gellir barnu rhywbeth yn ei erbyn.

**Rhifolyn –** Y symbol ar gyfer rhif, *e.e. 1, 2, 3.*

# Datblygiad Corfforol

Mae datblygiad corfforol yn canolbwyntio ar gynyddu sgiliau a pherfformiad y corff. Mae cyswllt agos rhwng datblygiadau corfforol a gwybyddol, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd cynnar. Gall problemau gyda datblygiad corfforol y plentyn fod yn arwydd bod ganddo rai anawsterau dysgu. Gall datblygiad corfforol gael ei rannu yn sgiliau echddygol bras a sgiliau llawdrin manwl. Trwy gydol y Cyfnod Sylfaen, bydd plant yn caffael sgiliau a'u datblygu mewn sawl ffordd.

Gellir cael manylion pellach am y sgiliau a'r ystod ar gyfer y Maes Dysgu hwn yn y ddogfen Cwricwlwm Cymru: *Fframwaith y Cyfnod Sylfaen* (2015).

## Fframiau sgil ar gyfer Datblygiad Corfforol

| Fframiau sgil yn y Proffil Cryno | Fframiau sgil ychwanegol yn y Proffil Llawn |
|---|---|
| Dal offeryn gwneud marciau | Defnyddio siswrn ac offer |
| Cydsymudiad | Gwella perfformiad |
| Darlunio | |
| Llawdrin manwl | |

# Dal offeryn gwneud marciau (Proffil Cryno)

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu datblygiad gafael mewn pensil neu offeryn gwneud marciau arall. Mae datblygu gafael mewn pensil yn gofyn am fedrusrwydd â'r llaw a'r bysedd, dau sgil echddygol a ddefnyddir mewn sawl agwedd ar fywyd bob dydd, e.e. ymwisgo, bwyta.




Yn y camau cyntaf o wneud marciau, caiff marciau eu gwneud yn bennaf trwy symudiadau braich gyfan yn hytrach na symudiadau dwylo neu fysedd. Wrth i blant wella rheolaeth dros osgo, sefydlogrwydd ysgwyddau, cryfder breichiau, sefydlogrwydd arddyrnau, cryfder dwylo, cryfder ac ystwythder bysedd, byddant yn dyblygu'r gallu i ddal a thrin offer gwneud marciau. Mae datblygu'r sgiliau sylfaenol hyn yn rhan bwysig o helpu plant i ddal a defnyddio offerynnau ysgrifennu yn dda. Mae defnyddio gafael deinamig yn helpu i'r weithred gorfforol o ysgrifennu fod yn awtomatig. Mae hyn yn helpu plant i feithrin y gallu i ganolbwyntio ar beth y maent am ei ysgrifennu, yn hytrach na sut y maent yn ei ysgrifennu.

Mae arsylwadau cynnar yn fwyaf tebygol o gael eu gweld wrth i blant fynd o wneud marciau ar hap i wneud sgribladau â phwrpas, darlunio a lliwio. Mae gweithgareddau ysgrifennu cynnar i blant eu gwneud cyn iddynt ddechrau ffurfio llythrennau a rhifau i'w gweld yn y ffrâm sgiliau 'Ysgrifennu – Llawysgrifen'.

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Efydd** | rhyddhau gwrthrychau yn fwriadol. | rhyddhau gwrthrych yn llyfn heb fod angen ei wasgu yn erbyn wyneb caled neu ei ollwng. |
| **Arian** | dal creon/sialc yn eu dwrn, fel petaent yn ei ddefnyddio i wneud marciau. | dal gwrthrychau eraill yn ogystal â chreonau/pensiliau. |
| **Aur** | dal creon/sialc yn eu dwrn wrth wneud marciau. | defnyddio'r naill law a'r llall bob yn ail ac yn debygol o wneud marciau trwy symud eu braich gyfan. Maent yn debygol o ddynwared gwneud marciau cyn gwneud hynny'n ddigymell. |
| **Deilliant 1** | dechrau dal creon/sialc gan ddefnyddio pob bys a'r bawd. | gwneud marciau gyda chreon/sialc sy'n cael ei ddal yn y dwrn. Mae rhai gafaeliau sy'n cyfateb â'r disgrifiad hwn yn aneffeithlon a dylid ceisio eu hosgoi (gweler y lluniau ar dudalen 85). |
| **Deilliant 2** | dechrau dal creon/pensil mawr gan ddefnyddio dau i dri bys a'r bawd. | dechrau dal creon neu bensil mawr gan ddefnyddio dau i dri bys a'r bawd. |
| **Deilliant 3** | dal creon/pensil gan ddefnyddio dau neu dri bys a'r bawd. | dal creon/pensil gan ddefnyddio eu bawd a dau neu dri bys. Weithiau maent yn mynd yn ôl at afaelion cynharach ond nid ydynt yn dangos gafael deinamig eto. Mae rhai gafaelion sy'n cyfateb â'r disgrifiad hwn yn aneffeithlon a dylid ceisio eu hosgoi (gweler y lluniau ar dudalen 85). |
| **Deilliant 4** | dal pen/pensil gyda gafael deinamig (aeddfed) weithiau. | gwneud cysylltiad â'r pensil/pen gyda'u bawd a dau neu dri bys. Gellir dal y pensil/pen ymhellach o'r pwynt nag sy'n arferol ar gyfer y gafael ysgrifennu oedolyn. |

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Deilliant 5** | dal pen/pensil gyda gafael deinamig (aeddfed) a rheolaeth dda yn aml. | gwneud cysylltiad â'r pensil/pen gyda'u bawd a dau neu dri bys, gan symud yr offeryn ysgrifennu o flaenau'r bys. Dylent ddal y pensil/pen yn agos i'r pwynt fel arfer. |
| **Deilliant 6** | dal pen/pensil yn gyson gyda gafaeliad deinamig (aeddfed) a rheolaeth dda. | gwneud cysylltiad â'r pensil/pen gyda'u bawd a dau neu dri bys, gan symud yr offeryn ysgrifennu o flaenau'r bys. Dylent ddal y pensil/pen yn agos i'r pwynt yn gyson. |

## Delweddau ar gyfer gafaelion gwahanol.

| Deilliant | Sut y gallai edrych | |
|---|---|---|
| **Arian/Aur** |  | |
| **Deilliant 1: Gafaelion derbyniol** |  | |
| **Deilliant 1: Gafaelion y dylid annog plant i'w hosgoi** |  | Mae'r gafaelion hyn yn aneffeithlon a dylid annog plant i'w hosgoi. |
| **Deilliant 2/3: Gafaelion derbyniol** |  | Ar y cam hwn, mae symudiad yr offer ysgrifennu yn cael ei reoli gan symudiad yr arddwrn a'r bysedd yn hytrach na blaen y bysedd. |
| **Deilliant 2/3: Gafaelion y dylid annog plant i'w hosgoi** |  | Mae'r gafaelion hyn yn aneffeithlon a dylid annog plant i'w hosgoi. |
| **Deilliant 4/5/6: 'Gafaelion deinamig'** |  | Mae ymchwil wedi dangos bod y rhain i gyd yn ffyrdd effeithlon o ysgrifennu'n ddealladwy ac yn rhugl. Maent yn ysgrifennu tebyg i oedolyn. Ar y cam hwn, mae symudiad yr offer ysgrifennu yn cael ei reoli gan symudiad blaen y bysedd, gyda'r llaw, arddwrn, penelin ac ysgwydd i gyd wedi eu sefydlogi. |

# Cydsymudiad (Proffil Cryno)

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu cydbwysedd deinamig a chydsymudiad bras y corff i ffurfio cydsymudiad. Mae cydsymudiad yn datblygu'n gyffredinol o ganol y corff tuag at allan ac o'r pen i'r cynffon. Bydd ymarferwyr yn sylwi bod diffyg llyfnder pan fydd plant yn rhoi symudiadau at ei gilydd am y tro cyntaf i ffurfio dilyniant, e.e. dringo a neidio. Maent yn amlwg yn gwneud symudiadau ar wahân. Pan fydd plant yn dysgu sgil echddygol newydd bydd rhaid iddynt feddwl yn aml am y symudiadau y maent yn eu gwneud. Gydag ymarfer ac aeddfedrwydd, bydd angen meddwl llai a llai am y symudiadau a daw'r ffordd y mae plant yn uno eu symudiadau yn fwyfwy llyfn (rhwydd) a hyderus ac o dan reolaeth, hyd yn oed pan fydd newidiadau i'w hamgylchedd y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt, megis plant eraill yn rhedeg o gwmpas.

Ochr yn ochr ag olrhain datblygiad y sgiliau hyn, mae arsylwadau ar gyfer y ffrâm sgil hon yn canolbwyntio ar ddangos a yw plant yn gallu cyfuno symudiadau'n hawdd i greu 'dilyniannau echddygol'. Gallai arsylwadau ddigwydd wrth chwilio yn yr awyr agored, amser rhydd neu amser egwyl. Nid oes rhaid i 'offer' fod yn offer campfa ffurfiol, gall fod yn foncyff neu deiars yn yr iard chwarae.

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Efydd** | cropian neu symud fel arall yn dda a thynnu i sefyll trwy ddefnyddio'r dodrefn. | cropian neu ymlusgo ar eu pen-ôl a thynnu i sefyll heb gymorth. Efallai na fyddant yn gallu eistedd i lawr eto heb syrthio. |
| **Arian** | cerdded yn dda heb gymorth. | dechrau ac aros yn ddiogel, ond gall fod ambell i gwymp, yn enwedig os ydynt yn cario rhywbeth neu'n cerdded ar wyneb anghyfarwydd. |
| **Aur** | rhedeg mewn llinell syth a phlygu neu gyrcydu i godi gwrthrych a sefyll eto heb gwympo. | rhedeg mewn llinell syth am bellter byr, gan ddechrau ac aros yn ddiogel ond gall fod ambell i gwymp, a phlygu neu gyrcydu i godi gwrthrych heb gymorth oedolyn. |
| **Deilliant 1** | rhedeg mewn llinell syth, gan aros a dechrau yn rhwydd ac osgoi rhwystrau llonydd. Gallant berfformio mwy nag un weithred a gallant gydsymud aelodau'r corff i deithio mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys neidio gyda'r ddau droed. | gwneud symudiadau corff mawr gyda mwy o gydsymudiad a gall y rhain gynnwys rhedeg, camu, rholio neu neidio. Byddai neidio ar y cam hwn yn golygu'r ddwy droed yn gadael y llawr yr un pryd, naill ai yn yr unfan neu ymlaen. Gallant simsanu ond yn glanio'n ddiogel. |
| **Deilliant 2** | newid cyfeiriad i redeg o amgylch rhwystrau llonydd. Maent yn dangos cydbwysedd a chydsymudiad gwell i gael at amrywiaeth o offer. Gallant sefyll ar un troed am eiliad. | dringo dros gyfarpar isel neu bedlo ar feic dair olwyn o faint addas; maent yn sefyll ar un troed am eiliad. Mae eu cydsymudiad yn cynnwys teithio, neidio a glanio. |

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Deilliant 3** | dangos mwy o reolaeth a chydsymudiad mewn amrywiaeth o weithgareddau, gan arddangos sgiliau corfforol sylfaenol a defnyddio amrywiaeth o gyfarpar, gan weithio'n ddiogel yn eu gofod eu hunain. | dringo dros a neidio i lawr o gyfarpar isel, gan ddangos gallu da i symud eu hunain, symud beiciau neu hercian i gylch. Yn ystod y gweithgareddau hyn dylai'r plant weithio'n ddiogel yn eu gofod eu hunain; efallai nad oes ganddynt y gallu eto i ystyried plant eraill a allai fod o gwmpas. |
| **Deilliant 4** | chwarae a symud mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan ddatblygu eu gallu i gyflawni sgiliau syml. Maent yn defnyddio'r gweithrediadau sylfaenol o deithio, neidio a glanio, cydbwyso a bod yn llonydd yn eu chwarae a'u gweithgareddau. Maent yn dangos ymwybyddiaeth gynyddol o ofod mewn amrywiaeth o amgylcheddau a gweithgareddau. | dringo dros gyfarpar uwch, hercian ymlaen neu neidio yn ôl a rhedeg neu gerdded tuag at bêl i'w chicio a rhedeg yn ysgafn ar fysedd eu traed. Dylai symudiadau ystyried lleoliad plant neu bobl eraill a allai fod ar fin rhedeg neu gerdded tuag atynt. |
| **Deilliant 5** | archwilio gwahanol weithgareddau, symud gyda mwy o hyder a rheolaeth gorfforol a dechrau cysylltu gweithrediadau. | dod yn gryfach, yn fwy ystwyth ac yn fwy hyderus wrth ddringo dros gyfarpar uchel a neidio lawr o gyfarpar o'r fath. Dylai gweithrediadau fel dal a thaflu a neidio a glanio ymddangos fel eu bod yn gysylltiedig yn hytrach nag ar wahân. Dylai symudiadau ystyried lleoliad plant neu bobl eraill a allai fod o gwmpas, *e.e. peidio â bwrw mewn i eraill wrth redeg*. |
| **Deilliant 6** | defnyddio a datblygu eu sgiliau â chydsymudiad a rheolaeth gwell. Maent yn dangos tensiwn a siâp gwell wrth wneud gymnasteg ac maent yn cysylltu eu symudiadau fel eu bod yn llyfn. | dringo dros gyfarpar uchel a neidio lawr o gyfarpar o'r fath. Dylai symudiadau fod yn llyfn ac yn dangos siâp clir yr holl ffordd lawr i'r dwylo a'r traed, a dylent ystyried lleoliad plant neu bobl eraill a allai fod o gwmpas. |

# Darlunio (Proffil Cryno)

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu gallu plant i ddarlunio wrth i'r sgil ddatblygu trwy gyfres nodweddiadol o gamau. Mae sgribladau cynnar yn cael eu gwneud gyda symudiadau o'r fraich gyfan ac yn raddol bydd plant yn datblygu rheolaeth dros gyhyrau yn eu harddyrnau a'u bysedd. Y gwrthrych adnabyddadwy cyntaf i gael ei lunio gan blant fel arfer yw person. Wrth i blant ddechrau cymryd mwy o ddiddordeb yn y byd, mae cymhlethdod eu lluniau hefyd yn cynyddu. Gwelir hyn yn lefel y manylder a gynhwysir yn eu gwaith ac yn y ffordd y mae eu cynrychiolaeth o gydberthnasau gofodol yn newid.


Gall arsylwadau o luniau plant helpu ymarferwyr i wybod am sgiliau echddygol manwl ac ymwybyddiaeth weledol-ofodol y plant yn ogystal â rhoi gwybodaeth werthfawr ynghylch sut maent yn gweld ac yn deall y byd. Mae'r datganiadau wedi'u llunio fel bod modd eu hasesu trwy edrych ar waith celf a wnaed eisoes gan y plant, e.e. lluniau â sialc, paent, creonau neu bennau ysgrifennu, a thrwy arsylwi arnynt yn creu gweithiau celf. Gellir gweld camau sy'n ategu'r sgil hwn yn y ffrâm sgil ar gyfer 'Dal offeryn gwneud marciau.'


| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Efydd** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Arian** | sgriblo gyda symudiad ar hap. | 'sgriblo' sy'n gallu cynnwys gwneud unrhyw farciau ar arwyneb. Nid oes ganddynt lawer o reolaeth dros eu sgribladau – nid ydynt yn gallu gwneud i'r sgribladau fynd mewn unrhyw ffordd benodol yn fwriadol. |
| **Aur** | sgriblo'n annibynnol, gydag ychydig o reolaeth. | 'sgriblo' sy'n gallu cynnwys gwneud unrhyw farciau ar arwyneb. Maent yn dechrau cael rheolaeth dros eu sgriblo a gwneud cysylltiad rhwng eu symudiadau a'r marciau ar y dudalen. Mae'r sgribladau'n dechrau cynnwys cromliniau, llinellau syth a dotiau. |
| **Deilliant 1** | sgriblo'n annibynnol gan gynnwys cromliniau, llinellau syth a dotiau. | gwneud cysylltiad rhwng eu symudiadau a'r marciau ar y dudalen. Gweithgaredd corfforol yw darlunio; nid yw plant yn enwi eu marciau. |
| **Deilliant 2** | tynnu lluniau sy'n cynnwys siapiau sylfaenol fel cylchoedd, hirgrynion a llinellau. | cynnwys siapiau bwriadol yn eu lluniau y maent wedi'u hailadrodd fel y dymunant. Yn gyffredinol, caiff siapiau eu llunio er mwyn llunio siapiau, er bod plant yn enwi rhannau o'u lluniau weithiau. |
| **Deilliant 3** | tynnu lluniau gan gynnwys gwrthrychau wedi eu ffurfio o ddau neu dri siâp sylfaenol wedi eu cysylltu â'i gilydd. | rhoi siapiau sylfaenol fel llinellau, cylchoedd a phetryalau at ei gilydd i ffurfio lluniau o wrthrychau. Gallant dynnu llun person gyda phen, coesau a chorff. Yn gyffredinol, caiff gwrthrychau eu gosod ar hap ar y dudalen heb fawr o ymgais i wneud y meintiau'n realistig. |
| **Deilliant 4** | tynnu lluniau gan gynnwys gwrthrychau wedi eu ffurfio o fwy na dri siâp sylfaenol wedi eu cysylltu â'i gilydd. | rhoi siapiau sylfaenol fel llinellau, cylchoedd a phetryalau at ei gilydd i ffurfio lluniau o wrthrychau sy'n bwysig iddynt, *e.e. pobl neu dai*. Efallai y bydd lluniau o bobl yn cynnwys corff, coesau, breichiau, pen gyda llygaid, trwyn a cheg. Nid yw maint gwrthrychau'n realistig eto yn gyffredinol. |

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Deilliant 5** | tynnu lluniau gan gynnwys gwrthrychau wedi eu ffurfio o fwy na dri siâp sylfaenol ac yn cael eu llunio'n fwyfwy cymesur. | tynnu lluniau gyda mwy o realaeth, *e.e. mewn lluniau o bobl nid yw'r pen mwyach yn hollol anghymesur â'r corff, y coesau a'r breichiau.* |
| **Deilliant 6** | tynnu lluniau gan gynnwys gwrthrychau sy'n cael eu llunio yn gymesur yn bennaf gydag ymwybyddiaeth o safle gwrthrychau mewn perthynas â'i gilydd. | cynnwys llinell sylfaen bendant a nenlinell hefyd: maent yn dangos ymwybyddiaeth o'r cysyniad o ofod yn hytrach na gwahanol rannau o lun yn 'arnofio' heb unrhyw drefn ar y dudalen. Mae lluniau pobl yn aml yn fwy manwl, gan gynnwys dwylo a bysedd. |

Mae enghreifftiau o ddarluniadau ar gyfer pob un o'r deilliannau (ac eithrio Deilliant Efydd Cyfnod Sylfaen) i'w gweld ar dudalennau 90 a 91.

## Enghreifftiau o ddarluniadau

| | | |
|---|---|---|
| **Arian** |  | Cafodd y sgribladau hyn eu gwneud gyda symudiad ar hap – roedd y plentyn yn defnyddio ei fraich gyfan i wneud y sgribladau. |
| **Aur** |  | Mae'r plentyn wedi dechrau i reoli eu sgriblo a gwneud cysylltiad rhwng eu symudiadau a'r marciau ar y dudalen. Mae cromliniau, llinellau syth a dotiau yn dechrau ymddangos yn ychwanegol at sgriblo ar hap. |
| **Deilliant 1** |  | Roedd y sgribladau hyn yn ganlyniad i'r plentyn fwynhau symud ei ben ysgrifennu; nid yw'r plentyn yn ymddangos fel petai yn gwneud siapiau penodol eto (*e.e. sbiralau*) yn fwriadol, ond mae'r sgribladau'n dal i gynnwys amrywiaeth o linellau megis cromliniau, llinellau syth a dotiau. |
| **Deilliant 2** |  | Dywedodd y plentyn fod hwn yn llun o fan chwarae ar ôl iddo ei ddarlunio. Er bod o leiaf dau siâp sylfaenol yn y darlun hwn (llinellau a chylchoedd), mae wedi cael ei lefelu yn Neilliant 2 Cyfnod Sylfaen yn hytrach na Deilliant 3 Cyfnod Sylfaen am nad yw'r plentyn yn ymuno'r siapiau sylfaenol i gynrychioli gwrthrychau penodol. |

| | | |
|---|---|---|
| **Deilliant 3** |  | Mae'r llun hwn yn cysylltu dau neu dri siâp sylfaenol (llinellau syth, cylchoedd, cromliniau) at ei gilydd i gynrychioli gwrthrych. Fel sy'n nodweddiadol o luniau o bobl ar y cam hwn, dangosir y person gyda thri neu fwy o wahanol rannau o'r corff, (*e.e. corff, coesau, breichiau, llygaid, ceg).* |
| **Deilliant 4** |  | Mae'r llun yn cynnwys mwy na thri siâp sylfaenol, (*e.e. llinellau, cylchoedd, petryalau, trionglau),* wedi eu cysylltu â'i gilydd i ffurfio gwrthrych. Mae lluniau nodweddiadol o bobl ar y cam hwn yn cynnwys coesau, breichiau, corff ac wyneb ar wahân sydd â llygaid, trwyn a cheg. Nid yw lluniau'n dangos cymesuredd realistig a dangosir gwrthrychau'n hofran yn yr awyr. |
| **Deilliant 5** |  | Mae cymesuredd gwell i'r llun o'u cymharu â deilliannau cynharach. Er enghraifft, mae'r ffenestri a'r simnai yn y tŷ mewn cymesuredd bras. Nid yw'r llun yn dangos llinell sylfaen na nenlinell. Gall darluniau am y deilliant hwn barhau i edrych fel eu bod yn hofran yn yr awyr. |
| **Deilliant 6** |  | Mae gan y llun hwn llinell sylfaen (porfa) a nenlinell. Mae gwahanol rannau o'r llun yn gysylltiedig â'i gilydd mewn gofod yn hytrach nag hofran heb drefn. |

# Llawdrin manwl (Proffil Cryno)

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu medrusrwydd corfforol, medrusrwydd bysedd a chydsymudiad rhwng y dwylo a'r llygaid. Mae'r sgiliau hyn yn bwysig ar gyfer ystod eang o weithgareddau, e.e. ysgrifennu, ymwisgo a bwyta.

Mae nifer o sgiliau sy'n gysylltiedig â defnydd manwl o'r llaw yn datblygu ochr yn ochr â'i gilydd: mae breichiau a dwylo plant yn cryfhau, mae eu llygaid a'u dwylo yn gweithio fwyfwy gyda'i gilydd i gyfeirio eu symudiadau, ac maent yn defnyddio dwy ochr y corff mewn ffordd gydsymudol yn well.

Dylai arsylwadau ddigwydd ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys yn ystod amser byrbrydau, adeiladu neu yn yr ardal greadigol.

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Efydd** | defnyddio un llaw neu'r ddwy law i archwilio gwrthrychau. | procio, mwytho neu droi gwrthrychau fel teganau neu fwyd, neu eu trosglwyddo o law i law. |
| **Arian** | defnyddio un llaw neu'r ddwy law i dynnu gwrthrychau. | tynnu tegan neu ddarn o fwyd gyda'r ddwy law, rhwygo papur, tynnu ar ddwy ochr darn o linyn. |
| **Aur** | defnyddio'r dwylo i dynnu defnyddiau oddi wrth ei gilydd a rhoi defnyddiau at ei gilydd. | tynnu defnyddiau fel toes, tywod, dail a phapur oddi wrth ei gilydd neu eu rhoi at ei gilydd. |
| **Deilliant 1** | defnyddio dwylo i drin ac archwilio defnyddiau syml a chyffyrddol. Gallant adeiladu tŵr chwe bloc. | archwilio ystod eang o ddefnyddiau gan ddefnyddio tynnu, ymestyn a gwasgu, *e.e. toes, tywod, dail a mwd.* Gallai trin defnyddiau chwarae ar y cam hwn hefyd gynnwys codi gwrthrychau bach a'u rhoi nhw i lawr, adeiladu tŵr chwe bloc, troi tudalennau mewn llyfr un ar y tro, gwasgu botymau mawr, ac ati. |
| **Deilliant 2** | trin ac archwilio defnyddiau ac offer cyffyrddol. Gallant adeiladu tŵr naw neu ddeg bloc. | cymryd darnau mewn defnyddiau adeiladu mwy a phosau jig-so a'u cloi at ei gilydd; rhoi ychydig o leiniau mawr ar ddarn o linyn ac iddo flaen caled; sweipio sgrin gyffwrdd yn ogystal ag adeiladu tŵr naw i ddeg bloc. |
| **Deilliant 3** | rhoi gleiniau ar gareiau ac yn gallu trin a chloi adnoddau priodol at ei gilydd. | cloi posau jig-so a deunyddiau adeiladu at ei gilydd, rhoi ychydig o leiniau mawr yn rhwydd ar linyn ac iddo flaen caled, gwneud model toes gyda rhywfaint o ymdrech i greu manylion, tapio sgrin gyffwrdd, defnyddio llygoden cyfrifiadur, cau sipiau blaen a gwneud botymau mawr. |
| **Deilliant 4** | clymu cwlwm, adeiladu modelau gan ddefnyddio citiau a rheolaeth dda dros ddefnyddiau ac adnoddau creadigol. | defnyddio botymau, sipiau ar eu dillad ac ar deganau heb gymorth. Byddai trin defnyddiau ar gyfer chwarae ar y cam hwn yn cynnwys clymu cwlwm ac adeiladu modelau sylfaenol gan ddefnyddio pecynnau adeiladu. Byddai defnyddio technoleg yn cynnwys rhywfaint o ddefnydd annibynnol o lygoden a sgrin gyffwrdd. |

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Deilliant 5** | dechrau defnyddio'r dwylo a'r bysedd gyda hyder, rheolaeth a phwysau priodol i drin adnoddau ar gyfer amrywiaeth o ddibenion yn briodol. | trin defnyddiau ar gyfer chwarae gan gynnwys adeiladu modelau cynyddol gymhleth o becynnau adeiladu neu ddefnyddiau modelu, gan ddefnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau ac offer i wneud delweddau ac arteffactau, trin offer ar gyfer arbrofion gwyddonol neu ddefnyddio llygoden a sgrin gyffwrdd yn annibynnol. |
| **Deilliant 6** | defnyddio'r dwylo a'r bysedd gyda hyder, cydsymudiad, rheolaeth a llyfnder i drin adnoddau ar gyfer amrywiaeth o ddibenion yn briodol. | cymryd rhan yn gywir ac yn annibynnol mewn unrhyw dasgau llawdrin manwl ar draws y cwricwlwm, *e.e. trafod gwyddoniaeth neu offer* DT, *cwblhau gwaith celf manwl neu fodelau*, yn ogystal â llawdrin manwl sy'n rhan o dasgau fel ymwisgo a bwyta. |

# Defnyddio siswrn ac offer

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu galluoedd plant wrth ddefnyddio a thrin sisyrnau ac offer, yn enwedig y rhai a ddefnyddir mewn gweithgareddau creadigol. Mae cydsymud y ddwy law yn rhan bwysig o allu torri'n gywir. Mae datblygu'r gallu i ddefnyddio'r ddwy law drwy gydsymud yn dibynnu ar y plentyn a'r profiadau y maent wedi'u cael. Pan fydd plant yn dechrau defnyddio eu dwylo gyda'i gilydd am y tro cyntaf, maent yn ei chael hi'n haws os yw'r dwylo yn gwneud yr un peth, gan weithio'n agos at ganol eu corff. Wrth i blant wella eu gallu i ddefnyddio eu dwy law ar yr un pryd, maent yn dechrau dangos sut gall y ddwy law wneud gwahanol bethau ar yr un pryd, e.e. un llaw yn dal darn o bapur, un llaw yn tynnu llun. Wrth iddynt ddatblygu eu sgiliau bydd llawer o'r plant wedi meistroli'r dechneg o droi papur gydag un llaw i'w helpu i 'aros ar y llinell' gyda'r siswrn. Yna mae'r sgil hwn yn cael ei gymhwyso i siapiau sy'n fwyfwy cymhleth a manwl.

Gallai arsylwadau ddigwydd mewn meysydd creadigol, wrth edrych ar gymesuredd mewn Datblygiad Mathemategol, adeiladu, neu wrth gwblhau gweithgaredd celf.

| | **Mae plant yn gallu:** | **Gellir arsylwi ar blant yn:** |
|---|---|---|
| **Efydd** | trosglwyddo gwrthrych o un llaw i'r llall. | trosglwyddo ratl neu degan meddal o'r naill law i'r llall. |
| **Arian** | defnyddio'r dwylo gyda'i gilydd i archwilio gwrthrychau yn syml. | defnyddio'r ddwy law yr un pryd wrth archwilio priodweddau gwrthrychau, *e.e. rhwygo papur, teimlo darn o fwyd ag un llaw a gafael ynddo gyda'r llaw arall.* |
| **Aur** | dechrau trin ac archwilio defnyddiau â'r ddwy law trwy dynnu, ymestyn a gwasgu. | archwilio defnyddiau cyffyrddol megis toes, siapiau wedi'u llenwi â gel a thywod gwlyb. |
| **Deilliant 1** | trin archwilio defnyddiau â'r ddwy law trwy dynnu, ymestyn a gwasgu. | tynnu, ymestyn a gwasgu defnyddiau fel toes cacennau, toes hallt a chlai modelu, naill ai'n ddigymell neu i ddynwared oedolyn. |
| **Deilliant 2** | dechrau torri papur trwy agor a chau siswrn traddodiadol. | torri papur trwy ddal y siswrn yn y llaw o'u dewis a defnyddio bysedd y llaw honno i agor a chau'r siswrn. Nid oes unrhyw symud y siswrn ymlaen ar draws y papur ar y cam hwn. |
| **Deilliant 3** | agor a chau siswrn traddodiadol yn barhaus i dorri papur yn ddau ddarn. | dal y siswrn yn y llaw o'u dewis a defnyddio eu bysedd i agor a chau'r siswrn yn barhaus i dorri darn o bapur. |
| **Deilliant 4** | torri allan siapau a lluniau syml mawr mewn papur gan ddefnyddio siswrn traddodiadol. | torri allan siapiau megis sgwariau, trionglau a chylchoedd heb fynd mwy na thua 0.5cm 'dros y llinell'. Gallant fod wedi llunio'r siapiau eu hunain, neu wedi eu cael i'w torri allan. |
| **Deilliant 5** | torri allan siapiau anodd a lluniau syml mewn papur gan ddefnyddio siswrn traddodiadol. | torri allan lluniau syml sydd ag amlinell denau heb adael ymylon garw, rhwygiadau neu fynd mwy na thua 0.5cm 'dros y llinell'. |

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Deilliant 6** | torri allan siapiau a lluniau cymhleth mewn papur gan ddefnyddio siswrn traddodiadol. | torri allan lluniau cymhleth sydd ag amlinell denau heb adael ymylon garw na rhwygiadau, gan lynu at y llinell yn amlach na pheidio. |

# Gwella perfformiad

Mae'r ffrâm sgil hon yn asesu sgiliau dealltwriaeth plant o'u perfformiad eu hunain mewn perthynas â'r sgiliau a fynegwyd yn y Maes Dysgu Datblygiad Corfforol. Wrth i blant ddatblygu a mireinio eu sgiliau byddant yn symud o archwilio beth y gallant ei wneud i sylweddoli sut y gallant wella'r hyn y maent yn ei wneud. Gall arsylwadau ar gyfer y sgil hwn gael eu cymryd ar draws ystod eang o ddarpariaeth barhaus, wedi'i chyfoethogi a darpariaeth â ffocws pendant ac mewn gweithgareddau grŵp ac unigol.

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: |
|---|---|---|
| **Efydd** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Arian** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Aur** | Dim datganiad ar y deilliant hwn. | |
| **Deilliant 1** | adnabod a defnyddio darnau gwahanol o gyfarpar. | defnyddio adnoddau a chyfarpar mewn ffordd gonfensiynol, *e.e. defnyddio bat i fwrw pêl neu beg i hongian dillad ar lein ddillad.* |
| **Deilliant 2** | chwarae gyda gwahanol ddarnau o gyfarpar yn briodol. | chwarae a defnyddio amrywiaeth o gyfarpar ac adnoddau, gan archwilio eu diben. |
| **Deilliant 3** | archwilio tasgau syml gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfarpar am gyfnodau hirach. | defnyddio adnoddau at y diben a fwriadwyd ac arbrofi gydag amrywiaeth o gyfarpar ac offer syml, *e.e. penderfynu pa ferfa fydd yn eu helpu i gludo'r mwyaf o gerrig.* |
| **Deilliant 4** | gwella beth maent yn ei wneud, weithiau trwy wylio eraill a'u helpu i wella. | sylweddoli neu siarad am sut y gallant hwy ac eraill wella eu perfformiad, *e.e. "Dwi'n gwybod os ydw i'n cadw fy mhen i fyny fydda i ddim yn bwrw mewn i bethau pan fydda i'n rhedeg".* |
| **Deilliant 5** | siarad am yr hyn y maent ac eraill wedi'i wneud a gwneud awgrymiadau syml ynghylch sut i wella perfformiad. | defnyddio eu gwybodaeth o'u sgiliau eu hunain i wella sgiliau pobl eraill, *e.e. "Taflais i'r bêl fel hyn ac aeth y bêl ymhellach".* |
| **Deilliant 6** | gwerthuso perfformiad pobl eraill gan esbonio beth allai fod yn well a defnyddio hyn i wella eu perfformiad hwy. | gwylio perfformiad ei gilydd a siarad am yr hyn sy'n dda a beth allai fod yn well, gan ddefnyddio geiriau allweddol sy'n gysylltiedig â'u gweithgareddau. Maent yn defnyddio hyn i gynllunio sut i wella eu sgiliau eu hunain a dechrau gofyn cwestiynau perthnasol er mwyn gwella a gwneud cynnydd. |

# Rhestr o dermau ar gyfer Datblygiad Corfforol

Mae'r rhain yn dermau cyffredin a ddefnyddir yng nghyd-destun Datblygiad Corfforol.

**Cydbwysedd deinamig –** Y gallu i gynnal cydbwysedd wrth symud. Mae cicio, rhedeg o amgylch rhwystrau, neidio a glanio, a hercian yn weithgareddau sy'n defnyddio'r sgil hwn.

**Cydsymudiad bras y corff –** Y gallu i gydsymud y breichiau, coesau a'r torso gyda'i gilydd mewn gweithgareddau lle mae'r corff cyfan yn symud. Mae cerdded, rhedeg, sgipio a rholio yn weithgareddau sy'n defnyddio'r sgil hwn.

**Cydsymudiad dwyochrol –** Y gallu i ddefnyddio dwy ochr y corff yr un pryd.

**Gafael deinamig –** Y gafael lle mae offeryn ysgrifennu yn cael ei ddal rhwng y bawd a'r mynegfys, gyda'r offeryn ysgrifennu'n gorffwys ar y bys canol.

**Medrusrwydd â'r bysedd –** Y gallu i wneud cydsymudiadau medrus o fysedd un llaw neu'r ddwy law er mwyn gosod neu symud gwrthrychau bach. Mae modelu toes chwarae, clai a defnyddio siswrn yn weithgareddau sy'n defnyddio'r sgil hwn.

**Medrusrwydd â'r llaw –** Y gallu i wneud cydsymudiadau medrus gydag un llaw er mwyn gafael mewn gwrthrychau. Mae defnyddio creon, defnyddio ffon gludio a chwarae gyda blociau yn weithgareddau sy'n defnyddio'r sgil hwn.

**Sgil echddygol bras –** Mae'r sgil echddygol yn dibynnu'n bennaf ar gyhyrau mawr megis symudiadau coes gyfan neu fraich gyfan. Mae cerdded, neidio a thaflu yn enghreifftiau o dri sgil echddygol bras.

**Sgil echddygol manwl –** Mae'r sgil echddygol yn dibynnu'n bennaf ar symudiadau bach o gyhyrau'r dwylo a'r bysedd. Mae cau botymau, teipio a thynnu lluniau'n enghreifftiau o dri sgil echddygol manwl.

**Sgiliau gweledol-ofodol –** Y gallu i ganfod, deall a dehongli'n gywir y berthynas ofodol rhwng gwrthrychau.

# Atodiad A: Fframiau sgil o'r Proffil Cryno

**Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol**

- Rhyngweithio cymdeithasol
- Rheoli ymddygiad
- Ymateb i eraill
- Annibyniaeth mewn gofal personol

**Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu**

- Llafaredd – Gwrando a deall
- Llafaredd – Ymwybyddiaeth ffonolegol
- Llafaredd – Iaith fynegiannol
- Darllen – Deall deunyddiau darllen

**Datblygiad Mathemategol**

- Adrodd a dilyniannu rhifau
- Cyfrif
- Siâp
- Patrwm

**Datblygiad Corfforol**

- Dal offeryn gwneud marciau
- Cydsymudiad
- Darlunio
- Llawdrin manwl

# Atodiad B: Defnyddio’r Ffurflen Gofnodi

Mae’r Ffurflen Gofnodi yn offeryn dewisol i’r rhai nad ydynt yn defnyddio systemau seiliedig ar feddalwedd ar gyfer nodi ble mae tystiolaeth i’w gweld o’r sgiliau y mae’r plant yn eu harddangos trwy gydol eu hamser yn y Cyfnod Sylfaen. Mae llawer iawn o ffyrdd y gall ymarferwyr gofnodi tystiolaeth o gyrhaeddiad plant, gan gynnwys arsylwadau, nodiadau maes, ffotograffau a recordiadau TG a darnau o waith. Dylai ymarferwyr gyfeirio at y ffynonellau hyn yn y broses o gwblhau’r Ffurflen Gofnodi. Dangosir enghraifft isod o’r Ffurflen Gofnodi.

### Ffrâm sgil: Siâp

| | Mae plant yn gallu: | Gellir arsylwi ar blant yn: | Arsylwadau: | Cyflawnwyd? |
|---|---|---|---|---|
| **Efydd** | archwilio siapiau cyffyrddol syml. | ymestyn allan i gyffwrdd neu deimlo siapiau gyda'u dwylo neu eu ceg. | | |
| **Arian** | ffitio siapiau 2D syml i fylchau. | rhoi siapiau at ei gilydd mewn papur, ffelt neu gerdyn i wneud llun, neu geisio cwblhau pos jig-so syml, e.e. rhannau o gorff anifail. Yn amlach na pheidio bydd y plentyn yn ffitio'r siapiau at ei gilydd yn gywir. | | |
| **Aur** | archwilio siapiau 2D a gwrthrychau 3D yn eu chwarae. | arbrofi gyda 'rholio' bricsen a darganfod bod pêl yn well, neu wasgu bag ffa i ffitio mewn blwch. | | |
| **Deilliant 1** | archwilio siapiau 2D a 3D rheolaidd yn eu chwarae. | archwilio priodweddau siapiau yn eu chwarae, e.e. rhedeg eu bysedd o amgylch ymylon sgwâr neu driongl neu rolio pêl. Ni fyddant yn enwi siapiau. | | |
| **Deilliant 2** | adnabod ac enwi siapiau 2D syml neu ddefnyddio siapiau 2D a 3D yn eu chwarae. | enwi cylchoedd, sgwariau a thrionglau a'u defnyddio wrth chwarae. Gallant drefnu a chategoreiddio gan ddefnyddio siapiau 2D a 3D yn syml, e.e. paru siapiau. Byddant yn defnyddio siapiau 2D yn eu chwarae, a byddant yn defnyddio siapiau 3D mewn gweithgareddau adeiladu, e.e. adeiladu gyda chiwbiau a chiwboidau (ond nid eu henwi nhw). | | |
| **Deilliant 3** | adnabod siapiau 2D a 3D syml, gan eu disgrifio mewn iaith syml neu eu defnyddio yn eu chwarae. | defnyddio geiriau syml sy'n gysylltiedig â siâp, e.e. ochr neu grwn. Cylchoedd, sgwariau, trionglau a phetryalau yw siapiau 2D syml. Mae siapiau 3D syml yn cynnwys ciwbiau, ciwboidau a sfferau. Bydd plant yn defnyddio siapiau 2D a 3D o fewn gweithgareddau seiliedig ar chwarae fel gwneud modelau neu luniau. | | |
| **Deilliant 4** | adnabod ac enwi'r siapiau 2D a 3D cyffredin rheolaidd a disgrifio ac arbrofi sut y maent yn ffitio i'w gilydd yn eu chwarae. | adnabod siapiau 2D sy'n cynnwys sgwâr, triongl, petryal, cylch a hanner cylch. Maent yn adnabod siapiau 3D gan gynnwys ciwb, ciwboid, côn a sffêr. Byddant yn arbrofi wrth ffitio gwahanol siapiau at ei gilydd yn eu chwarae, e.e. defnyddio ciwbiau a chiwboidau i wneud wal, a byddant yn disgrifio sut y maent yn ffitio i'w gilydd, e.e. sgwariau'n ffitio unrhyw ffordd. | | |
| **Deilliant 5** | adnabod, enwi a disgrifio priodweddau siapiau 2D a 3D rheolaidd ac afreolaidd a'u defnyddio mewn ffyrdd mwy gymhleth neu gywir yn eu chwarae. | defnyddio eu dealltwriaeth o'u priodweddau i wneud modelau mwy cymhleth neu gywir gyda siapiau 3D neu frithweithio siapiau 2D. Gallai hyn olygu copïo model y maent wedi'i weld, neu greu model newydd. Byddant yn deall bod gan siapiau 2D a 3D afreolaidd briodweddau tebyg i'w siapiau rheolaidd cyfatebol, e.e. mae gan bentagon rheolaidd 5 ochr hafal, ond nid oes gan bentagon afreolaidd ochrau hafal. | | |
| **Deilliant 6** | adnabod a dosbarthu siapiau 2D a 3D rheolaidd ac afreolaidd. | siarad am siapiau 2D a'u dosbarthu gan gynnwys trionglau, sgwariau, petryalau, pentagonau a hecsagonau a siapiau 3D gan gynnwys prismau. | | |

# Atodiad C: Ffurflen y Proffil Cryno

## Proffil y Cyfnod Sylfaen - Ffurflen y Proffil Cryno

Enw'r plentyn ______ Dyddiad yr asesiad ______

### Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol

| | Rhyngweithio cymdeithasol | Rheoli ymddygiad | Ymateb i eraill | Annibyniaeth mewn gofal personol |
|---|---|---|---|---|
| Heb ei ddyfarnu | N | N | N | N |
| Datgymhwyswyd | D | D | D | D |
| Gweithio tuag at y deilliant isaf | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ |
| Efydd | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Arian | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Aur | 3 | 3 | 3 | 3 |
| Deilliant 1 | 5 | 5 | 5 | 5 |
| Deilliant 2 | 8 | 8 | 8 | 8 |
| Deilliant 3 | 11 | 11 | 11 | 11 |
| Deilliant 4 | 14 | 14 | 14 | 14 |
| Deilliant 5 | 17 | 17 | 17 | 17 |
| Deilliant 6 | 20 | 20 | 20 | 20 |
| Uwchben Deilliant 6 | 23 | 23 | 23 | 23 |
| | + | + | + | = |

| Sgôr | Deilliant |
|---|---|
| N | Heb ei ddyfarnu (N) |
| D | Datgymhwyswyd mewn mwy nag un o'r fframiau sgil (D) |
| 1–3 | Gweithio tuag at Efydd (W) |
| 3¼–6 | Efydd (Z) |
| 6¼–10¾ | Arian (S) |
| 11–16¾ | Aur (G) |
| 17–26¾ | Deilliant 1 (1) |
| 27–38 | Deilliant 2 (2) |
| 39–50 | Deilliant 3 (3) |
| 51–62 | Deilliant 4 (4) |
| 63–74 | Deilliant 5 (5) |
| 75–86 | Deilliant 6 (6) |
| 87–92 | Uwchben Deilliant 6 (A) |

### Sgilliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

| | Llafaredd – Gwrando a deall | Llafaredd – Ymwybyddiaeth ffonolegol | Llafaredd – Iaith fynegiannol | Darllen – Deall deunyddiau darllen |
|---|---|---|---|---|
| Heb ei ddyfarnu | N | N | N | N |
| Datgymhwyswyd | D | D | D | D |
| Gweithio tuag at y deilliant isaf | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ |
| Efydd | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Arian | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Aur | 3 | 3 | 3 | 3 |
| Deilliant 1 | 5 | 5 | 5 | 5 |
| Deilliant 2 | 8 | 8 | 8 | 8 |
| Deilliant 3 | 11 | 11 | 11 | 11 |
| Deilliant 4 | 14 | 14 | 14 | 14 |
| Deilliant 5 | 17 | 17 | 17 | 17 |
| Deilliant 6 | 20 | 20 | 20 | 20 |
| Uwchben Deilliant 6 | 23 | 23 | 23 | 23 |
| | + | + | + | = |

| Sgôr | Deilliant |
|---|---|
| N | Heb ei ddyfarnu (N) |
| D | Datgymhwyswyd mewn mwy nag un o'r fframiau sgil (D) |
| 1–3 | Gweithio tuag at Efydd (W) |
| 3¼–6 | Efydd (Z) |
| 6¼–10¾ | Arian (S) |
| 11–16¾ | Aur (G) |
| 17–26¾ | Deilliant 1 (1) |
| 27–38 | Deilliant 2 (2) |
| 39–50 | Deilliant 3 (3) |
| 51–62 | Deilliant 4 (4) |
| 63–74 | Deilliant 5 (5) |
| 75–86 | Deilliant 6 (6) |
| 87–92 | Uwchben Deilliant 6 (A) |

**Os nodwyd unrhyw fframiau sgil gyda'r delliannau 'Heb ei ddyfarnu' neu 'Datgymhwyswyd' dylid ystyried rheolau sgorio ychwanegol. Gellir gweld y rheolau hyn ar dudalennau Proffil y Cyfnod Sylfaen ar wefan Llywodraeth Cymru.**

## Datblygiad Mathemategol

| | Adrodd a dilyniannu rhifau | Cyfrif | Siâp | Patrwm |
|---|---|---|---|---|
| Heb ei ddyfarnu | N | N | N | N |
| Datgymhwyswyd | D | D | D | D |
| Gweithio tuag at y deilliant isaf | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ |
| Efydd | | 1 | 1 | 1 |
| Arian | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Aur | 3 | 3 | 3 | 3 |
| Deilliant 1 | 5 | 5 | 5 | 5 |
| Deilliant 2 | 8 | 8 | 8 | 8 |
| Deilliant 3 | 11 | 11 | 11 | 11 |
| Deilliant 4 | 14 | 14 | 14 | 14 |
| Deilliant 5 | 17 | 17 | 17 | 17 |
| Deilliant 6 | 20 | 20 | 20 | 20 |
| Uwchben Deilliant 6 | 23 | 23 | 23 | 23 |
| | + | + | + | = |

| Sgôr | Deilliant |
|---|---|
| N | Heb ei ddyfarnu (N) |
| D | Datgymhwyswyd mewn mwy nag un o'r fframiau sgil (D) |
| 1–3 | Gweithio tuag at Efydd (W) |
| 3¼–6 | Efydd (Z) |
| 6¼–10¾ | Arian (S) |
| 11–16¾ | Aur (G) |
| 17–26¾ | Deilliant 1 (1) |
| 27–38 | Deilliant 2 (2) |
| 39–50 | Deilliant 3 (3) |
| 51–62 | Deilliant 4 (4) |
| 63–74 | Deilliant 5 (5) |
| 75–86 | Deilliant 6 (6) |
| 87–92 | Uwchben Deilliant 6 (A) |

## Datblygiad Corfforol

| | Dal offeryn gwneud marciau | Cydsymudiad | Darlunio | Llawdrin manwl |
|---|---|---|---|---|
| Heb ei ddyfarnu | N | N | N | N |
| Datgymhwyswyd | D | D | D | D |
| Gweithio tuag at y deilliant isaf | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ |
| Efydd | 1 | 1 | | 1 |
| Arian | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Aur | 3 | 3 | 3 | 3 |
| Deilliant 1 | 5 | 5 | 5 | 5 |
| Deilliant 2 | 8 | 8 | 8 | 8 |
| Deilliant 3 | 11 | 11 | 11 | 11 |
| Deilliant 4 | 14 | 14 | 14 | 14 |
| Deilliant 5 | 17 | 17 | 17 | 17 |
| Deilliant 6 | 20 | 20 | 20 | 20 |
| Uwchben Deilliant 6 | 23 | 23 | 23 | 23 |
| | + | + | + | = |

| Sgôr | Deilliant |
|---|---|
| N | Heb ei ddyfarnu (N) |
| D | Datgymhwyswyd mewn mwy nag un o'r fframiau sgil (D) |
| 1–3 | Gweithio tuag at Efydd (W) |
| 3¼–6 | Efydd (Z) |
| 6¼–10¾ | Arian (S) |
| 11–16¾ | Aur (G) |
| 17–26¾ | Deilliant 1 (1) |
| 27–38 | Deilliant 2 (2) |
| 39–50 | Deilliant 3 (3) |
| 51–62 | Deilliant 4 (4) |
| 63–74 | Deilliant 5 (5) |
| 75–86 | Deilliant 6 (6) |
| 87–92 | Uwchben Deilliant 6 (A) |

# Atodiad Ch: Ffurflen y Proffil Llawn

## Llawlyfr Proffil y Cyfnod Sylfaen – Ffurflen Proffil Llawn

**Enw'r plentyn** ____________ **Dyddiad yr asesiad** ____________

**Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol**

| | Rhyngweithio cymdeithasol | Rheoli ymddygiad | Ymateb i eraill | Annibyniaeth mewn gofal personol | Cymryd rhan | Mynegiant emosiynol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Heb ei ddyfarnu** | N | N | N | N | N | N |
| **Datgymhwyswyd** | D | D | D | D | D | D |
| **Gweithio tuag at y deilliant isaf** | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ |
| **Efydd** | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 |
| **Arian** | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 |
| **Aur** | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 |
| **Deilliant 1** | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 |
| **Deilliant 2** | 8 | 8 | 8 | 8 | 8 | 8 |
| **Deilliant 3** | 11 | 11 | 11 | 11 | 11 | 11 |
| **Deilliant 4** | 14 | 14 | 14 | 14 | 14 | 14 |
| **Deilliant 5** | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 |
| **Deilliant 6** | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 |
| **Uwchben Deilliant 6** | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 |
| | + | + | + | + | + | = |

| Sgôr | Deilliant |
|---|---|
| **N** | Heb ei ddyfarnu (N) |
| **D** | Wedi'i ddatgymhwyso neu heb ei ddyfarnu ar fwy na dwy ffrâm sgil gydag un 'D' neu ragor |
| **1½–3¾** | Gweithio tuag at Efydd (W) |
| **4–9** | Efydd (Z) |
| **9¼–15** | Arian (S) |
| **15¼–24** | Aur (G) |
| **24¼–39** | Deilliant 1 (1) |
| **39¼–57** | Deilliant 2 (2) |
| **57¼–75** | Deilliant 3 (3) |
| **75¼–93** | Deilliant 4 (4) |
| **93¼–111** | Deilliant 5 (5) |
| **111¼–129** | Deilliant 6 (6) |
| **129¼–138** | Uwchben Deilliant 6 (A) |

## Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

| | Llafaredd | | | | | | Darllen | | | Ysgrifennu | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gwrando a deall | Ymwyby-ddiaeth ffonolegol | Iaith fynegiannol | Cydweithredu a chyflwyno gwybodaeth a syniadau | Lleferydd | Siarad a chwarae | Deall deunyddiau darllen | Deall | Darllen geiriau | Llawysgrifen | Sillafu | Atalnodi a gramadeg | Genre | Cynllunio, gwerthuso a golygu |
| Heb ei ddyfarnu | N | N | N | N | N | N | N | N | N | N | N | N | N | N |
| Datgymhwyswyd | D | D | D | D | D | D | D | D | D | D | D | D | D | D |
| Gweithio tuag at y deilliant isaf | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ |
| Efydd | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | 1 | | 1 | | | | |
| Arian | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | | 2 | | | | |
| Aur | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | | 3 | | | | |
| Deilliant 1 | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 | | | | 5 |
| Deilliant 2 | 8 | 8 | 8 | 8 | 8 | 8 | 8 | 8 | 8 | 8 | 8 | | 8 | 8 |
| Deilliant 3 | 11 | 11 | 11 | 11 | 11 | 11 | 11 | 11 | 11 | 11 | 11 | 11 | 11 | 11 |
| Deilliant 4 | 14 | 14 | 14 | 14 | 14 | 14 | 14 | 14 | 14 | 14 | 14 | 14 | 14 | 14 |
| Deilliant 5 | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 |
| Deilliant 6 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 |
| Uwchben Deilliant 6 | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 |
| | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | = |

| Sgôr | Deilliant |
|---|---|
| N | Heb ei ddyfarnu (N) |
| D | Wedi'i ddatgymhwyso neu heb ei ddyfarnu ar fwy na thair ffrâm sgil gydag un 'D' neu ragor |
| 3½–8 | Gweithio tuag at Efydd (W) |
| 8¼–16¼ | Efydd (Z) |
| 16½–25¼ | Arian (S) |
| 25½–47¾ | Aur (G) |
| 48–92¼ | Deilliant 1 (1) |
| 92½–139 | Deilliant 2 (2) |
| 139¼–181 | Deilliant 3 (3) |
| 181¼–223 | Deilliant 4 (4) |
| 223¼–265 | Deilliant 5 (5) |
| 265¼–307 | Deilliant 6 (6) |
| 307¼–322 | Uwchben Deilliant 6 (A) |

**Os nodwyd unrhyw fframiau sgil gyda'r deilliannau 'Heb ei ddyfarnu' neu 'Datgymhwyswyd' dylid ystyried rheolau sgorio ychwanegol.**
**Gellir gweld y rheolau hyn ar dudalennau Proffil y Cyfnod Sylfaen ar wefan Llywodraeth Cymru.**

## Datblygiad Mathemategol

| | Adrodd a dilyniannu rhifau | Cyfrif | Siâp | Patrwm | Darllen ac ysgrifennu rhifau | Priodweddau rhifau | Ffracsiynau | Mesurau ac unedau | Amser | Cofnodi a chynrychioli data | Trefnu a grwpio data | Adio a thynnu | Rheoli arian | Lluosi a rhannu | Tymheredd | Onglau a safle | Amcangyfrif a gwirio |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Heb ei ddyfarnu | N | N | N | N | N | N | N | N | N | N | N | N | N | N | N | N | N |
| Datgymhwyswyd | D | D | D | D | D | D | D | D | D | D | D | D | D | D | D | D | D |
| Gweithio tuag at y deilliant isaf | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ |
| Efydd | | 1 | 1 | 1 | | | | | | | 1 | | | | | | |
| Arian | 2 | 2 | 2 | 2 | | | | 2 | | | 2 | | | | | | |
| Aur | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | | | 3 | 3 | | 3 | 3 | 3 | | | 3 | |
| Deilliant 1 | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 | | | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 | | 5 | 5 | |
| Deilliant 2 | 8 | 8 | 8 | 8 | 8 | | | 8 | 8 | 8 | 8 | 8 | 8 | | 8 | 8 | 8 |
| Deilliant 3 | 11 | 11 | 11 | 11 | 11 | 11 | | 11 | 11 | 11 | 11 | 11 | 11 | | 11 | 11 | 11 |
| Deilliant 4 | 14 | 14 | 14 | 14 | 14 | 14 | 14 | 14 | 14 | 14 | 14 | 14 | 14 | | 14 | 14 | 14 |
| Deilliant 5 | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 |
| Deilliant 6 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 |
| Uwchben Deilliant 6 | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 |
| | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | + | = |

| Sgôr | Deilliant |
|---|---|
| N | Heb ei ddyfarnu (N) |
| D | Wedi'i ddatgymhwyso neu heb ei ddyfarnu ar fwy na thair ffrâm sgil gydag un 'D' neu ragor |
| 4¼–5¾ | Gweithio tuag at Efydd (W) |
| 6–11¾ | Efydd (Z) |
| 12–30½ | Arian (S) |
| 30¾–58 | Aur (G) |
| 58¼–97¾ | Deilliant 1 (1) |
| 98–150½ | Deilliant 2 (2) |
| 150¾–209¼ | Deilliant 3 (3) |
| 209½–274 | Deilliant 4 (4) |
| 274¼–325 | Deilliant 5 (5) |
| 325¼–376 | Deilliant 6 (6) |
| 376¼–391 | Uwchben Deilliant 6 (A) |

## Datblygiad Corfforol

| | Dal offeryn gwneud marciau | Cydsymudiad | Darlunio | Llawdrin manwl | Defnyddio siswrn ac offer | Gwella perffomiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Heb ei ddyfarnu** | N | N | N | N | N | N |
| **Datgymhwyswyd** | D | D | D | D | D | D |
| **Gweithio tuag at y deilliant isaf** | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ | ¼ |
| **Efydd** | 1 | 1 | | 1 | 1 | |
| **Arian** | 2 | 2 | 2 | 2 | 2 | |
| **Aur** | 3 | 3 | 3 | 3 | 3 | |
| **Deilliant 1** | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 |
| **Deilliant 2** | 8 | 8 | 8 | 8 | 8 | 8 |
| **Deilliant 3** | 11 | 11 | 11 | 11 | 11 | 11 |
| **Deilliant 4** | 14 | 14 | 14 | 14 | 14 | 14 |
| **Deilliant 5** | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 | 17 |
| **Deilliant 6** | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 | 20 |
| **Uwchben Deilliant 6** | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 | 23 |
| | + | + | + | + | + | = |

| Sgôr | Deilliant |
|---|---|
| **N** | Heb ei ddyfarnu (N) |
| **D** | Wedi'i ddatgymhwyso neu heb ei ddyfarnu ar fwy na dwy ffrâm sgil gydag un 'D' neu ragor |
| **1½–3** | Gweithio tuag at Efydd (W) |
| **3¼–8¼** | Efydd (Z) |
| **8½–13¼** | Arian (S) |
| **13½–21¼** | Aur (G) |
| **21½–39** | Deilliant 1 (1) |
| **39¼–57** | Deilliant 2 (2) |
| **57¼–75** | Deilliant 3 (3) |
| **75¼–93** | Deilliant 4 (4) |
| **93¼–111** | Deilliant 5 (5) |
| **111¼–129** | Deilliant 6 (6) |
| **129¼–138** | Uwchben Deilliant 6 (A) |

# Nodiadau

# Nodiadau

# Nodiadau